# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD MAWRTH, 27AIN MEDI, 2016**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Glynda O'Brien**

**(01341) 424301**

**GlyndaOBrien@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd: 20/09/16)

## PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU

**AELODAETHP (18)**

### Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Alan Jones Evans
E. Selwyn Griffiths
Sian Wyn Hughes
Ann Williams
R. H. Wyn Williams

Aled Ll. Evans
Christopher Hughes
Elin Walker Jones
R. Hefin Williams
Gareth A. Roberts

### Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

Eryl Jones-Williams
Dewi Owen

Beth Lawton
Eirwyn Williams

### Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

Alwyn Gruffydd

Peter Read

### Llafur (1)

Y Cynghorwyr Sion W. Jones

### Aelod Unigol (1)

Y Cynghorwyr Linda Ann Jones

### Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## AELODAU CYFETHOLEDIG:

### Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig

| | |
|---|---|
| Dylan Davies | Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Meirionnydd |
| Rhian Roberts | Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Dwyfor |
| Rita Price | Yr Eglwys Gatholig |
| Disgwyl Enwebiad | Yr Eglwys yng Nghymru |

**Heb Bleidlais:**

| | |
|---|---|
| Neil Foden | Undeb Athrawon |
| David Healy | Undeb Athrawon |

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 7 - 12

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion o'r Pwyllgor hwn a gyn haliwyd ar 26 Mai 2016, fel rhai cywir.

(Copi'n amgaeedig)

## 5. TROSOLWG PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2015-16 - MEYSYDD PLANT A PHOBL IFANC A GOFAL 13 - 81

***Aelodau Cabinet : Y Cynghorwyr*** **Mair Rowlands, Gareth Roberts, Gareth Thomas**

(a) I ystyried adroddiad Arweinydd y Cyngor.

(Copi'n amgaeedig)

(b) I dderbyn ymateb i gwestiynau craffu penodol:

- (i) Ymateb gan yr Aelod Cabinet Plant, Pobl Ifanc a Hamdden (Gweler Atodiad 1 a 2)
- (ii) Ymateb gan yr Aelod Cabinet Addysg (Gweler Atodiad 1)

**6. <u>AROLYGIAD AROLYGIAETH GOFAL A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYMRU (AGGCC) AC AROLYGIAETH GOFAL IECHYD CYMRU (AGIC) O'R GOFAL A'R CYMORTH A DDARPERIR GAN WASANAETHAU ANABLEDDAU DYSGU YNG NGHYMRU</u>** 82 - 88

***Aelodau Cabinet: Y Cyng. Gareth Roberts***

I dderbyn adroddiad ar yr uchod.

(Copi'n amgaeedig)

**7. <u>DATBLYGIAD Y SWYDDFEYDD ARDAL</u>** 89 - 93

***Aelod Cabinet: Y Cyng. Gareth Thomas***

I dderbyn adroddiad ar yr uchod.

(Copi'n amgaeedig)

**8. <u>CANLYNIADAU ARHOLIADAU HAF 2016</u>** 94 - 101

***Aelod Cabinet: Y Cyng. Gareth Thomas***

I dderbyn adroddiad ar yr uchod.

(Copi'n amgaeedig)

# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU DYDD IAU, 26 MAI 2016

**Yn bresennol**:

**Y Cynghorwyr:** Alan Jones Evans, Aled Evans, E. Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Elin Walker Jones, Eryl Jones-Williams, Linda Ann Wyn Jones, Sïon Wyn Jones, Beth Lawton Eirwyn Williams, Hefin Williams ac R H Wyn Williams.

**Swyddogion:** Gareth James (Rheolwr Aelodau Cefnogi a Chraffu), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Hefyd yn bresennol:**

**Ar gyfer Eitem 7 isod:**
Y Cynghorydd W. Gareth Roberts, Aelod Cabinet Oedolion ac Iechyd

**Ar gyfer Eitem 8 isod:**
Y Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Addysg
Garem Jackson, Swyddog Gwella Ansawdd Addysg

**Ar gyfer Eitemau 9 isod:**
Y Cynghorydd W. Gareth Roberts, Aelod Cabinet Oedolion ac Iechyd
Meilys Smith, Uwch Reolwr Busnes

1. **ETHOL CADEIRYDD**

   **PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Beth Lawton yn Gadeirydd y Pwyllgor Craffu hwn am 2016 – 2017**

   Diolchodd y Cynghorydd Beth Lawton i'r Cynghorydd Peter Read am ei waith a'i ddiddordeb yn y maes fel cyn cadeirydd y Pwyllgor Craffu hwn.

2. **ETHOL IS GADEIRYDD**

   **PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Eirwyn Williams yn Is gadeirydd y Pwyllgor Craffu hwn am 2016 – 2017**

3. **YMDDIHEURIADAU:**

   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Siân Wyn Hughes, Dewi Owen, Peter Read, Gareth A Roberts ac Ann Williams. Neil Foden a David Healy (Swyddogion Undeb Athrawon)

4. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Cafwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorydd Linda Ann Wyn Jones, yn eitem 9 ar y rhaglen oherwydd natur ei gwaith. Gadawodd y Cynghorydd yr ystafell yn ystod y drafodaeth.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**6. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2016

**7. ADRODDIAD CYNNYDD – YMCHWILIAD CRAFFU ALLTWEN**

a) Cyflwynwyd adroddiad cynnydd yr ymchwiliad yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Craffu ar y gwaith oedd wedi ei gyflawni a'r gwaith sydd wedi ei gynllunio. Amlygodd Cadeirydd yr Ymchwiliad, Y Cynghorydd Linda Ann Wyn Jones bod angen ymchwilio pellach i'r maes gan mai dryslyd iawn oedd ceisio dehongli pwyt odd yn cael y gwasanaeth a 'r nifer oedd yn derbyn y gwasanaeth. Awgrymwyd bod angen mwy o amser i holi ymhellach er mwyn ceisio datrys hyn ynghyd a cheisio adborth defnyddwyr gwasanaeth. Cynigiwyd bod angen treulio diwrnod yn Alltwen yn ceisio mewnbwn rhai o'r defnyddwyr.

b) Amlygwyd mai tri yn unig o aelodau'r ymchwiliad oedd yn bresennol yn y cyfarfod a gynhaliwyd mai, ac fe wnaed awgrym y dylid fod wedi gohirio'r cyfarfod hwnnw oherwydd y nifer a fynychwyd ac oherwydd y materion oedd yn codi yn y Pwyllgor.

   Mewn ymateb, nodwyd nad oedd cworwm ar gyfer ymchwiliad craffu ac fe benderfynwyd be fyddai tri yn mynychu byddai'r cyfarfod yn mynd yn ei flaen. Gwnaed awgrym i osod dyddiadau i'r dyfodol fel eu bod yn nyddiaduron yr aelodau

c) Derbyniwyd y sylw bod angen ymateb cyn gleifion a phobl sydd yn derbyn y gwasanaeth, ond amlygwyd yr angen i ystyried hyn yn ofalus oherwydd materion cyfrinachedd a diogelu data. Awgrymwyd y gellid casglu'r wybodaeth drwy swyddogion gweithredol sydd yn ymwneud ar' defnyddwyr gwasanaeth wyneb yn wyneb a heb greu pryder ymysg y defnyddwyr o gael eu holi ar gyfer yr ymchwiliad.

   Mewn ymateb i gynnig bod angen treulio diwrnod yn yr ysbyty yn ceisio adborth, awgrymwyd y byddai un person yn ddigonol ar gyfer hyn.

ch) Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y sylwadau canlynol

- Enghreifftiau o fethu cael offer -angen datrysiad. Nodwyd bod y broses o geisio offer yn drwsgl a bod angen cadw budd yn lleol
- Pwysig cael mewnbwn defnyddwyr gwasanaeth i'r ymchwiliad a bod system yn ei le i sicrhau hyn
- Staff y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol yn gweithio dros 24ain awr , dros saith diwrnod yr wythnos - amlygwyd nad oes staff Gwynedd yn rhoi'r oriau i mewn dros y penwythnos - angen cyfarch hyn
- Arafwch y Bwrdd Iechyd i ymrwymo o i rai agweddau
- dylid ymestyn allan ymhellach - ehangu'r cynllun i ardaloedd erial
- Cais i'r ymchwiliad ystyried nodi oedran yr unigolion sydd yn cael eu holi oherwydd amharodrwydd rhai pobl hyn i gwyno
- A oes ystyriaeth wedi ei roi i'r pwysau ychwanegol tebygol ar y gwasanaeth petai'r penderfyniad yw gadael Ewrop?

d) Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd yr Aelod Cabinet ei fod yn derbyn sylwadau'r swyddogion. Amlygodd bod y cleifion yn hoffi'r dull newydd o weithio a bod angen parhau gydag agwedd bositif.

dd) Derbyniwyd bod gwrthdaro rhwng ceisio trefn newydd a'r hen drefn a bod rhwystredigaethau dros ei ymestyn, ond bod rhaid ceisio datrysiad a symud ymlaen. Cytunodd gyda'r sylw bod angen mewnbwn y defnyddwyr gwasanaeth, ond amlygodd yr angen i wneud hyn yn ystyrlon.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chyllideb ar gyfer y broses, nodwyd bod cyllid ar gyfer Cynllun Peilot Vanguard wedi ei dderbyn ar gyfer y swyddogion yn unig.

**PENDERFYNWYD**

- **Caniatáu estyniad i'r ymchwiliad hyd at Fedi 2016.**
- **Y byddai'r Cynghorydd Linda Ann Wyn Jones yn treulio diwrnod yn Alltwen yn cysgodi swyddogion a chasglu gwybodaeth ac adrodd yn ôl i'r Ymchwiliad**
- **Bod trefniant yn ei le i'r gwasanaeth rannu sylwadau cleifion gyda'r ymchwiliad.**

## 8. YMCHWILIAD CRAFFU ADDYSG GYMRAEG

a) Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet yn adrodd ar y cynnydd a wnaed gan yr Adran Addysg mewn ymateb i'r Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg. Atgoffwyd yr aelodau bod yr argymhellion wedi ei llunio ar gyfer gwella cysondeb ac ansawdd y ddarpariaeth addysg Cymraeg o fewn dalgylchedd y Sir.

Nododd yr Aelod Cabinet bod trefniant yn ei le gan yr Adran Addysg ar gyfer cynnal astudiaeth gan arbenigwr annibynnol i beth yn union a olygir wrth addysgu a dysgu dwyieithog lle bo hynny ar waith a diffinio natur ieithyddol ysgolion uwchradd y Sir (Argymhellion 1 a 2 o'r ymchwiliad). Eglurwyd, er bod arbenigwr wedi ei benodi, nad oedd modd dechrau ar y gwaith oherwydd amgylchiadau personol. Adroddwyd bod yr adran wedi ystyried penodi arbenigwr arall, ond penderfynwyd gohirio'r gwaith hyd Fedi 2016. Amlygodd bod y sefyllfa yma yn un anffodus, ond bellach wedi ei datrys.

Dosbarthwyd cylch gorchwyl o ofynion yr astudiaeth i'r aelodau, er gwybodaeth..

b) Wrth gyflwyno'r cynllun gweithredu, nododd y Swyddog Gwella Ansawdd Addysg bod angen cysoni Polisi Iaith Ysgolion y Sir a bod edrych ar y sefyllfa Uwchradd yn greiddiol i'r astudiaeth.

c) Mynegwyd siom nad oedd ymateb i'r holl argymhellion wedi eu cynnwys yn yr adroddiad cynnydd a gwnaed cais i'r Swyddog Gwella Ansawdd Addysg adrodd /rhoi trosolwg sydyn ar bob un.

ch) Diolchwyd i'r Swyddog Gwella Ansawdd Addysg am y manylion. Amlygodd yr Aelod Cabinet y byddai unrhyw argymhellion i'r dyfodol yn plethu i mewn i Gynllun Busnes yr Adran fel ffordd o ymateb iddynt, ynghyd ac argymhellion yr Adroddiad Blynyddol - gwnaed cais i'r Pwyllgorau Craffu edrych ar gylch Cynllun Busnes Addysg.

d) Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd y Cadeirydd bod yr ymchwiliad wedi bod o werth a da oedd gweld gweithredu eisoes ar rai o'r argymhellion.

dd) Yn ystod y drafodaeth, nodwyd yn sylwadau canlynol:

- Yng nghyd-destun Ysgol Friars bod angen sicrhau darpariaeth ieithyddol briodol ar gyfer y plant
- Dylai unrhyw adroddiadau / dogfennau ychwanegol fod wedi eu dosbarthu ymlaen llaw er mwyn craffu'r sefyllfa yn well

- Amlygwyd mai Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg ydoedd ac nid Addysg Ddwyieithog - angen bod yn rhagweithiol i gadw'r Gymraeg yn fyw.
- Angen edrych ar drefniadaeth ysgolion Bangor ar fyrder. Angen rhoi ystyriaeth i ysgolion preifat Bangor – angen ceisio rheolaeth dros y defnydd o'r iaith yma.
- Pam mai ysgolion sydd yn gosod eu hunain mewn categorïau - angen cysondeb
- Defnydd iaith tu hwnt i oriau ysgol yn anodd ei reoli - angen mesur defnydd o'r iaith mewn cymdeithas a sicrhau anogaeth / hyfforddiant i wirfoddolwyr a hyfforddwyr
- Angen adolygu'r argymhellion fel targedau 'campus'
- Pryder y gallai rhai ysgolion gael eu Seisnigeiddio a phlant yn symud i ysgol gyfagos, sydd o ganlyniad yn rhoi pwysau ychwanegol ar yr ysgolion hynny
- Angen cefnogaeth i rieni di-Gymraeg

e) Mewn ymateb i'r sylw yn ymwneud â mesur defnydd o'r iaith tu hwnt i oriau ysgol, nododd yr Aelod Cabinet bod y plant, drwy ddefnydd o'r Siarter Iaith yn adrodd eu hunain ar y defnydd o iaith yn gymdeithasol. Anogwyd hefyd i Benaethiaid a Llywodraethwyr ysgolion ystyried yr elfen yma.

f) Mewn ymateb i sylw a wnaed ynglŷn ag arian Redrow ym Mangor, adroddwyd mai cyfrifoldeb yr Adran Cynllunio yw hyn.

ff) Mewn ymateb i sylw am Ysgol Friars, amlygwyd bod Cadeirydd y Llywodraethwyr ynghyd a'r Aelod Lleol, y Cynghorydd Mair Rowlands wedi cynnal trafodaethau gyda'r Adran Addysg a rhoi mewnbwn i'r Polisi iaith.

g) Croesawyd yr adroddiad a diolchwyd am y gwaith oedd wedi ei gyflawni hyd yma. Amlinellwyd yr angen i adolygu'r argymhellion yn gyhoeddus a ffurfiol. Ategwyd siom nad oedd y dogfennau ychwanegol wedi eu dosbarthu ymlaen llaw. Derbyniwyd y cais i'r arbenigwr annibynnol drafod sylwadau / syniadau cychwynnol ei astudiaeth gydag aelodau'r Ymchwiliad Craffu.

**PENDERFYNWYD,**

**a) derbyn yr adroddiad cynnydd ond ceisio adroddiad cynnydd pellach yn ymateb i'r holl argymhellion ymhen 6 mis (Ionawr 2017)**

**b) bod yr arbenigwr sydd yn cynnal yr astudiaeth annibynnol yn cyfarfod gydag aelodau'r Ymchwiliad i gael eu mewnbwn i'w waith**

**9. POLISI CLUDIANT: ADRAN OEDOLION A LLESIANT**

(Gadawodd y Cynghorydd Linda Ann Wyn Jones yr ystafell ac ni fu yn rhan o'r drafodaeth)

a) Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet yn amlygu'r angen i Gyngor Gwynedd osod polisi a threfniadau cludiant newydd i'r Adran Oedolion a Llesiant mewn ymateb i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Amlygwyd bod y Ddeddf yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i hybu llesiant ein dinasyddion er mwyn hybu a chefnogi annibyniaeth.

Yn sgil newidiadau yn y ddeddfwriaeth a'r hinsawdd ariannol, nododd yr Aelod Cabinet bod angen mabwysiadu polisi cludiant teg a chynaliadwy. Amlygodd y gall newidiadau gael effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth ac felly bydd ymgysylltu effeithiol gyda rhan-ddeiliaid, gan gynnwys defnyddwyr a'u teuluoedd, yn allweddol i'r broses.

Adroddwyd, wrth i bob unigolyn gael ei asesu, bydd cludiant yn cael ei gyfarch yn y pecyn gofal - bydd yno fel rhan o'r pecyn yn hytrach nag fel ychwanegiad. I gyfarch hyn, bydd rhaid i bob unigolyn gael ei asesu yn ei gyfanrwydd.

Cymhelliant yr ymarfer yw ymateb i'r ddeddf ac amlygwyd bod tri opsiwn posib i'w hystyried.

- Penderfynu peidio â newid trefniadau. Byddai oblygiadau ariannol a diwylliannol o ran peidio newid ein hymarfer yn y maes yma.
- Mabwysiadu'r polisi newydd ac ail adolygu pecynnau gofal yn benodol ar sail y polisi cludiant newydd.
- Mabwysiadu'r polisi newydd ar sail pecynnau newydd, ailasesiadau ac adolygiadau blynyddol o becynnau yn hytrach na chynnal adolygiad penodol ar faterion cludiant.

Awgrymwyd nad oedd opsiwn 1 yn realistig nag yn gynaliadwy yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol mae'r Awdurdod yn wynebu.

b) Mewn ymateb i gwestiwn, pam bod cyfanswm cost Iechyd Meddwl yn isel ar gyfer cyllideb 2016/2017 (£550.00), nodwyd nad oedd neb gyda chyflyrau iechyd meddwl yn derbyn gwasanaeth ar hyn o bryd ac felly adroddwyd mai 'awgrym' yn unig ydoedd.

Mewn ymateb i sylw mai cynllun ydoedd i arbed arian ac nid i hybu annibyniaeth, derbyniwyd gan yr Aelod Cabinet bod arbediad o ddeutu £38k ynghlwm â'r broses, ond amlinellwyd mai'r bwriad oedd cynnwys cludiant fel rhan o'r pecyn gofal. Adroddwyd bod sgôp yma i gydweithio gyda chludiant integredig, e.e., gwell defnydd o fflyd cartrefi preswyl i symud pobl o fewn y Sir, i hybu llesiant a chefnogi annibyniaeth

c) Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y sylwadau canlynol:

- Angen hybu annibyniaeth i bobl hŷn gan sicrhau bod ganddynt ryddid i adael y tŷ.
- Angen sicrhau bod y gwasanaeth ar gyfer Gwynedd gyfan ac nid yn y prif ardaloedd yn unig.
- Angen cydlynu gwell gyda gwasanaeth tacsi o'r ysbyty.
- O blaid gweithio yn fwy effeithiol - trefniadau mewnol yn ymddangos yn flêr ar hyn o bryd ac felly angen ail strwythuro i sicrhau gwell trefn a threfniadau cludiant hyblyg.
- Angen rhoi ystyriaeth i adnoddau cludiant mewn ysgolion.
- Angen sicrhau bod yr asesu yn gywir a bod y rhai hynny sydd fwyaf angen y gwasanaeth yn derbyn y gwasanaeth.
- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng 'asesu' a 'gwir angen'? Rhaid cael dealltwriaeth o wir angen yr unigolyn drwy adnabod cyfleoedd i gwrdd â'r angen hynny yn hytrach na rhoi label 'gofal dydd' amhersonol iddynt
- Awgrym i aelod o'r teulu neu ofalwr fod gyda'r unigolyn pan fydd yn cael ei asesu er mwyn sicrhau barn annibynnol.
- Yng nghyd-destun y broses apêl - pwy fydd ar y panel? Rhaid ystyried bod pobl yn fregus ac nad oedd angen gosod rheolau sefydlog yma. Awgrymwyd i'r broses apêl fod yn hygyrch a hyblyg.
- Croesawyd egwyddorion y cynllun, ond mynegwyd pryder o ran ymarferoldeb. Bydd rhaid sicrhau mynediad at wasanaeth a bod anogaeth a datblygu sgiliau yn cael eu cynnig i'r defnyddwyr er mwyn iddynt fagu hyder i ddefnyddio cludiant cyhoeddus.

- Pellter, abl i deithio eu hunain a gosod mewn siroedd eraill, yn gosod cynsail beryg

ch) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â phellter yn gosod cynsail, nodwyd nad yw pellter o reidrwydd yn gosod 'angen cludiant', ond nodwyd byddai'n rhaid adnabod cyfleodd i gwrdd ag anghenion pob unigolyn.

Nid oedd ymateb i'r cwestiwn, pwy fydd ar y panel yng ngyd-destun y broses apêl, ond sicrhawyd y byddai ymateb yn cael ei anfon i'r ymholydd.

d) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â pha siroedd eraill oedd wedi mabwysiadau trefniadau tebyg, amlygwyd bod Sir y Fflint wedi llwyddo i gynnal gwasanaeth o'r fath. Nodwyd bod Swyddogion Sir y Fflint yn cydweithio yn dda gyda Swyddogion Cyngor Gwynedd ac yn rhannu ymarfer da

Mewn ymateb i'r sylw, gwnaed cais i'r gwasanaeth ystyried sir sydd yn debycach i broffil Gwynedd.

dd) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r asesiadau, nodwyd y byddai'r asesiadau yn cael eu gwneud ar sail mwy positif. Ategwyd mai'r un bobl broffesiynol fydd yn gwneud yr asesu; bydd yr asesiad yn drylwyr. O'r asesiad, daw deilliannau fydd angen datrysiadau.

Pwysleisiwyd gan yr Aelod Cabinet mai cynllun i gyfarch anghenion yr unigolyn oedd yma, yn gynllun creadigol, cyffrous a heriol i'r gwasanaeth fyddai yn cynnig llesiant i bob unigolyn. Bydd dyletswydd ar y gwasanaeth i gynnig y gorau i'r dinesydd a bydd pob ymgais yn cael ei wneud i geisio cyflwani hyn - bydd rhaid rhesymoli, ond ni fydd neb yn cael ei ddiystyru.

Cynigiwyd ac eiliwyd i gefnogi opsiwn 3.

**PENDERFYNWYD**
**Gwneud yr argymhellion canlynol i'r Cabinet:**

- **Gweithredu Opsiwn 3, sydd yn cyd-fynd gydag egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 , drwy adeiladu ar gryfderau unigolyn ac edrych ar adeiladu ar gryfderau cymunedol.**
- **Sicrhau defnydd priodol a chydlynu trefniadau cludiant mewnol**
- **Nodi mwy o fanylion yn yr Adroddiad i'r Cabinet am y broses apêl**
- **Ystyried yn ofalus yr effaith ar unigolion o safbwynt y gost ac a ellir lliniaru'r effaith**
- **Gwneud cais i Sir y Fflint amlygu'r gwersi a ddysgwyd / rhwystrau a wynebwyd, fel bod modd eu cynnwys yn yr adroddiad i'r Cabinet**
- **Ystyried trefniadau mewn siroedd eraill sydd â phroffil tebyg i Wynedd**
- **Rhoi ystyriaeth hafal i bob rhan o Wynedd wledig a threfol o ran hwyluso a chydlynu trefniadau cludiant.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a.m. a daeth i ben am 12.45 o'r gloch

**CADEIRYDD.**

# Eitem 5

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cabinet**<br>(wedi dethol ar gyfer Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 27 Medi) |
| **DYDDIAD** | **7 a 28 Mehefin 2016** |
| **TEITL** | **Trosolwg Perfformiad Cyngor Gwynedd 2015-16 - meysydd Plant a Phobl Ifanc a Gofal** |
| **PWRPAS** | **Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Y Cynghorydd Dyfed Edwards** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol** |

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Yn unol â chyfundrefn rheoli perfformiad y Cyngor, cyflwynir trosolwg o berfformiad y Cyngor hyd yma yn 2015/16. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar Plant a Phobl Ifanc a Gofal sydd yn rhan o bortffolio'r aelodau Cabinet canlynol:

Y Cynghorydd Mair Rowlands
Y Cynghorydd Gareth Thomas
Y Cynghorydd Gareth Roberts

1.2 Mae'r adroddiad yn cyfarch y cynlluniau trawsnewidiol sydd yn y cynllun strategol yn ogystal ag yn tynnu sylw at y mesurau perfformiad sydd yn bwysig i bobl Gwynedd ac yn adlewyrchu gwaith dydd i ddydd y Cyngor.

**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.gov.uk

**2.0 Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

**3.0 Prif negeseuon**

3.1 Perfformiad cadarnhaol ym maes Plant a Phobl Ifanc.

3.2 Mae'r prosiectau yn dangos ymroddiad i weithio mewn partneriaeth er budd pobl Gwynedd.

3.3 Mae'r mesurau yn perfformio yn unol â'r disgwyl:

- Yn y maes Gofal, mae perfformiad mesurau yn awgrymu fod unigolion yn cael eu grymuso i fyw bywydau annibynnol. Gweler 5.2
- Mae materion Gofal yn parhau yn ardal Meirionnydd, sef materion gyda phobl sydd â chynllun gofal wedi'u hadolygu yn ystod y flwyddyn ac oedi trosglwyddo yn gysylltiedig ag ysbytai Tywyn â Dolgellau. Atodiad 1, Tud. 6.

**4.0 Prosiectau'r Cynllun Strategol**

Cyflwynir isod adroddiadau cynnydd cryno ar brosiectau'r Cynllun Strategol 2015/16 yn y meysydd Plant a Phobl Ifanc a Gofal. Mae'r prosiectau ym mherchnogaeth yr aelodau Cabinet unigol.

**4.1 Plant a Phobl Ifanc**

Y Cynghorydd Gareth Thomas

**P1 Strategaeth Ansawdd Addysg**

**Pwrpas y prosiect hwn yw paratoi a datblygu Strategaeth Ansawdd Addysg fydd yn sail i wella a chysoni safonau addysg ar draws y Sir.**

Mae Strategaeth Ansawdd Addysg wedi ei llunio, a bydd yn sail i wella a chysoni safonau addysg ar draws y Sir.

Mae'r seiliau sydd wedi'u gosod yn y strategaeth wedi dechrau dwyn ffrwyth yn barod, ac yn dangos y gwir effaith ar ganlyniadau plant a phobl ifanc. Nodir y prif gryfderau isod:

- Mae'r mesurau perfformiad allweddol ym mhob cyfnod allweddol yn gwella erbyn hyn, ac yn cymharu'n ffafriol ag awdurdodau lleol tebyg. Mae'n dangos cynnydd blynyddol ers 2013 ar gyfer Gwynedd.

**Canran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS)**

**Nifer disgyblion yn y cohort Haf 2015 – 1,246**

| | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | 82.8% | 85.2% | 86.8% |
| **Cymru** | 83.0% | 85.2% | 86.8% |
| **Safle Cenedlaethol (1=gorau)** | 13 | 10 | 10 |

- Canran o ddisgyblion sydd wedi cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2:

**Nifer disgyblion yn y cohort Haf 2015 – 1,141**

| | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | 86.6% | 86.0% | 89.5% |
| **Cymru** | 84.3% | 86.1% | 87.7% |
| **Safle Cenedlaethol (1=gorau)** | 6 | 14 | 6 |

- Mae bron pob disgybl yn gadael yr ysgol gydag achrediad ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4:

**Nifer disgyblion 15 oed Haf 2015 – 1,310.**
**Perfformiad disgyblion 15 oed mewn cymhariaeth â Chymru ac awdurdodau eraill:**

| Gwynedd | 2015 | |
|---|---|---|
| | **%** | **Safle** |
| Trothwy Lefel 1 | 97.9 | 1 |
| Trothwy Lefel 2 | 88.9 | 5 |
| Trothwy Lefel 2+ | 63.3 | 5 |
| Dangosydd Pynciau Craidd | 62.4 | 3 |
| Sgôr Pwyntiau Cyfartalog wedi'i gapio | 362.0 | 1 |
| Sgôr Pwyntiau Cyfartalog | 617.2 | 1 |

Trothwy Lefel 1: Dysgu sydd gyfwerth a phump TGAU graddau D i G.
Trothwy Lefel 2: Dysgu sy'n gyfwerth a phump TGAU graddau A*i C.
Trothwy Lefel 2+: Dysgu sy'n gyfwerth a phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg
Dangosydd Pynciau Craidd: % dysgwyr sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg neu Gymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd
Sgôr Pwyntiau Cyfartalog wedi'i gapio: cyfartaledd pwyntiau'r wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio
Sgôr Pwyntiau Cyfartalog: cyfartaledd pwyntiau Saesneg neu Gymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth

Manylir ar rai o'r canlyniadau eraill yn rhan 5 o'r adroddiad, ac yn **Atodiad 1 – Mesurau.**

**P2 Gwella arweinyddiaeth a rheolaeth**
**Pwrpas y prosiect hwn yw gwella amodau arweinyddiaeth er mwyn codi safonau.**
Hyd yma, mae'r prosiect hwn yn perfformio yn unol â'r disgwyl.

Mae adroddiad wedi'i gomisiynu i faes arweinyddiaeth yng Ngwynedd, ac mae ffocws penodol ar arweinyddiaeth yng nghynlluniau busnes yr Adran Addysg a GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru). Mae hyfforddiant gorfodol ym meysydd arwain a rheoli, ac addysgu ac asesu wedi'i ddarparu ar gyfer penaethiaid, gan osod gwaelodlin o ran disgwyliadau ar gyfer y flwyddyn addysgol bresennol a thu hwnt. Yn ogystal, mae'r awdurdod wedi ymyrryd yn effeithiol mewn tair ysgol oedd yn peri pryder o ran arweinyddiaeth. Mae un o'r ysgolion hynny wedi cael ei thynnu oddi ar y rhestr ysgolion sydd mewn mesurau arbennig gan Estyn.

Yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd ystod o weithgareddau i gefnogi a datblygu arweinwyr. Rhoddir blas o rai o'r sesiynau hynny isod:

- **Uwch Arweinyddiaeth**

– ***Datblygu Penaethiaid Profiadol***: rhaglen unigryw dros bedwar diwrnod ar gyfer grŵp targed bychan o benaethiaid llwyddiannus er mwyn eu symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu gyrfa. Mynychodd bedwar pennaeth o Wynedd yr hyfforddiant.
– ***Gweithdai i wella ansawdd hunan arfarnu a chynllunio gwelliant***: Bu GwE yn cydweithio gyda'r Adran i ddarparu gweithdai arweiniol ym maes hunan-arfarnu a chynllunio gwelliant i gynrychiolaeth o Uwch Dim Rheoli pob ysgol. Roedd y sesiynau yn caniatáu mynediad i gyflwyniadau ar yr arferion gorau yn lleol a deunyddiau enghreifftiol i

gefnogi gweithredu yn ôl yn yr ysgol. Mae tystiolaeth glir o'r ymweliadau monitro bod yr arweiniad wedi miniogi gweithredu ar draws sawl ysgol;

– ***Gweithdai 'Estyn' barod***: Mae'r Adran Addysg hefyd wedi bod yn cydweithio gyda GwE i ddarparu gweithdai i gynorthwyo arweinwyr i gael eu hysgolion yn barod ar gyfer arolygiadau Estyn. Mae gwelliannau sylweddol i'w gweld ym mhroffil 'categori dilyniant' yr ysgolion sydd wedi cael eu harolygu ers hynny.

Mae trafodaethau cychwynnol gyda GwE yn awgrymu y byddwn yn gweld gwelliannau pellach eleni a chynnydd yn yr ysgolion fydd yn derbyn dyfarniad B neu uwch ar gyfer eu gallu i wella. Mae'r gwaith o arfarnu ansawdd arweinyddiaeth ar draws ysgolion Gwynedd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a bydd dyfarniad interim ar gael cyn diwedd Tymor yr Haf 2016 a dyfarniad terfynol yn fuan yn Nhymor yr Hydref 2016.

**Rhaglen creu rhwydwaith o ysgolion hyfyw i'r dyfodol**
**Pwrpas y rhaglen yma yw datblygu rhwydwaith o ysgolion hyfyw i'r dyfodol. Bydd cyflawni'r rhaglen yn creu gwell amodau i ddatblygu arweinyddiaeth, cynyddu a chysoni safonau addysg, a gwella profiadau i blant a phobl ifanc.**

**P3 Ysgol Bro Llifon**
**Pwrpas y prosiect yma yw darparu ysgol newydd yn sgil penderfyniad y Cyngor i gau ysgolion y Groeslon, Carmel a Bron y Foel.**
Agorwyd yr ysgol newydd ym mis Medi 2015. Yn dilyn agoriad yr ysgol, gellir nodi'r isod fel canlyniadau cadarnhaol:

- Bellach, darperir mwy o gyfleoedd cyfartal i bob plentyn yn yr ardal er mwyn iddynt gael eu haddysgu mewn grwpiau o faint rhesymol
- Mae'r datblygiad wedi arwain at well amgylchedd i sicrhau arweinyddiaeth a rheolaeth gadarn
- Lleihad amrediad cost y pen ar gyfer darparu addysg yn yr ardal a lleihad llefydd gweigion gan gynyddu effeithlonrwydd.

**P4 Hafod Lon Newydd**
**Pwrpas y prosiect yma yw darparu ysgol arbennig i ddisgyblion Meirionnydd a Dwyfor a hynny yn wyneb y penderfyniad i gau'r Ysgol Hafod Lon bresennol.**
Mae cynnydd da wedi'i wneud gyda'r gwaith adeiladu, ac mae'n parhau yn fwriad i agor yn nhymor yr hydref 2016. Mae'r gwaith o gytuno strwythur

staffio'r ysgol newydd wedi ei gyflawni gyda'r bwriad o gyflawni trefn penodi athrawon ychwanegol i'r rhai presennol yn fuan ar ôl gwyliau'r Sulgwyn, ac unrhyw gymorthyddion a staff ategol cyn gwyliau'r haf.

**P5 Dalgylch Y Gader**
**Pwrpas y prosiect hwn yw sefydlu un Ysgol Ddalgylchol cyfrwng Cymraeg 3-16 oed yn nalgylch Ysgol y Gader.**
Disgwylir bydd gwaith adeiladu wedi'i gwblhau er mwyn i'r ysgol newydd agor ym Medi 2017. Mae pennaeth newydd wedi cychwyn yn ei swydd ers Pasg 2016. Mae caniatâd cynllunio wedi ei gymeradwyo ar gyfer y gwaith ar safle Ysgol Gynradd Dolgellau.

**P6 Glancegin**
**Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau buddsoddiad i ddarparu adeilad newydd i Ysgol Glancegin sydd wedi ei lleoli ym Maesgeirchen.**
Mae'r achos busnes wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, felly mae'r £5.11 miliwn yn ei le ar gyfer adeilad newydd Ysgol Glancegin. Mae'r contractwr bellach wedi ei benodi ac wedi cychwyn ar y gwaith adeiladu, gyda'r ysgol newydd yn barod erbyn dechrau tymor Medi 2017. Mae'r gwaith yn symud ymlaen yn unol â'r amserlen.

**P7 Dalgylch Y Berwyn**
**Pwrpas y prosiect yma yw creu Campws Dysgu Gydol Oes Cyfrwng Cymraeg ar safle presennol Ysgol y Berwyn.**
Mae cam olaf yr achos busnes wedi ei gymeradwyo gan y Cabinet a Llywodraeth Cymru. Mae'r holl brosesau statudol wedi'u cwblhau yn unol â'r amserlen a osodwyd. Mae'r broses cynllunio yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, a chyflwynwyd cais i Bwyllgor Parc Cenedlaethol Eryri ym mis Ebrill.

Disgwylir bydd y gwaith adeiladu yn cael ei gwblhau ar amser er mwyn i'r ysgol newydd agor ym Medi 2018.

**P8 Trawsnewid y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad**
**Pwrpas y prosiect yma fydd trawsnewid y gwasanaeth ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.**
Mae'r strategaeth wedi ei chytuno a'i chymeradwyo ac mae ffurf a strwythur y gwasanaeth newydd wedi ei lunio ar ffurf drafft.

Yn ystod y flwyddyn, mae sawl newid i'r ddarpariaeth wedi digwydd yn cynnwys:

- Peidio â chynnig y gefnogaeth 3* o'r newydd ers 1 Medi, 2015. Mae cefnogaeth 3* yn ddarpariaeth ychwanegol i ddisgyblion sydd fel arfer ag anhawsterau sylweddol, ond heb fod o fewn y canllawiau statudol. Yn yr ysgolion lle mae'r gyllideb wedi'i datganoli, mae'r gyllideb eisoes wedi rhewi ers tua 5 mlynedd. Mae gofyn i ysgolion fod yn fwy hyblyg o ran y defnydd o'u cyllideb Anghenion Dysgu Ychwanegol interim.
- Cynnal hyfforddiant ar gyfer Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol pob ysgol ar y defnydd o ddulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn ogystal â chreu pecyn e-ddysgu cynhwysfawr i gefnogi hyn.
- Adolygu'r defnydd o'r meini prawf mynediad a gadael y Gwasanaeth Gwybyddiaeth a Dysgu (llefaredd a rhifedd) sydd yn golygu ein bod yn gallu targedu'r plant cywir yn well.
- Peilota'r defnydd o gymorthyddion ymestyn allan ar gyfer cynnig cefnogaeth i'r plant sy'n gadael y canolfannau anhwylder iaith yn hytrach na chymorthyddion unigol am nifer penodol o oriau'r wythnos.
- Cychwyn sefydlu'r gwasanaeth cynnal ymddygiad newydd, mewn ymateb i'r diffyg yn y ddarpariaeth.

Mae strwythur gwasanaeth wedi ei lunio ar y cyd ag Ynys Môn sydd yn rhoi darlun clir i'r model darparu i'r dyfodol.

Y Cynghorydd Mair Rowlands

**P9 Sicrhau ystod o wasanaethau ataliol ar gyfer grwpiau o blant a phobl ifanc bregus Gwynedd.**

**Pwrpas y prosiect yw sicrhau trosolwg o'r agenda ataliol yn y Sir, gan weithio yn amlasiantaethol er mwyn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ein hymdrechion ar wneud y pethau cywir yn y lle cywir.**

Er mwyn trefnu ein gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol o amgylch materion penodol sy'n wynebu Gwynedd, mae'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd wedi cynnal asesiad o anghenion teuluoedd trwy ddefnyddio data lleol. Mae'r asesiad yma wedi adnabod bylchau ac anghenion penodol fel rhai sydd angen eu targedu wrth gynllunio pecynnau/ rhaglenni ataliol i'r dyfodol a gwella'r ddarpariaeth sy'n cael ei chynnig i'r person ifanc a'r teulu. Mae'r bylchau yn cynnwys oediad llefaredd ac iaith, cefnogaeth iechyd meddwl lefel isel, ac anghenion rhiantu.

Yn ychwanegol i'r bylchau, mae'r asesiad wedi edrych ar yr arferion da sydd wedi codi o raglenni ataliol lle byddai o fudd i ni gryfhau ein darpariaeth. Awgrymir y canlynol fel egwyddorion creiddiol a chyfeiriad i'r gwaith:

- Cryfhau ac ymestyn model Tîm o Amgylch y Teulu (Tîm Gyda'n Gilydd) fel ffordd o weithio effeithiol ac ystyried y model yma ar gyfer rhaglenni i'r dyfodol
- Gweithio gyda Theulu cyfan, yn hytrach nag un aelod
- Adnabod problemau yn gynnar drwy sicrhau bod y systemau cywir mewn lle rhwng gwahanol asiantaethau
- Gweithiwr allweddol sef gweithiwr gall y teulu adeiladu perthynas ac ymddiried ynddo.

Fel cam nesaf i'r gwaith, bydd yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn llunio rhaglen waith glir fydd yn canolbwyntio ar yr egwyddorion uchod. Bydd y rhaglen waith yma yn gosod cyfeiriad i'r gwaith.

### 4.2 Diogelu

Y Cynghorydd Mair Rowlands
**D1 Sicrhau perchnogaeth Cyngor cyfan i'r maes diogelu**
**Pwrpas y prosiect yma yw sicrhau fod perchnogaeth gorfforaethol i'r agenda diogelu a bod gweithredu yn effeithiol o ran diogelu plant ac oedolion bregus Gwynedd.**

Mae'r rhaglen waith wedi'i chyflwyno i'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion ym mis Medi ac ers hynny mae'r Grŵp Gweithredol wedi bod yn gweithredu ar y rhaglen waith honno. Mae'r yn symud yn ei flaen ond, fel llawer i brosiect, mae'n debyg mai'r elfen o fesur effaith sydd fwyaf heriol. Er mwyn ceisio ymateb i hyn mae Grŵp Tasg wedi ei sefydlu ar gyfer creu trefn i fesur effaith mabwysiadau a chydymffurfio gyda'r polisi, y gwaith o godi ymwybyddiaeth ac effaith yr hyfforddiant ar ddiogelu.

Mae enghreifftiau wedi eu casglu gan y Rheolwyr Dynodedig o weithredu gan staff rheng flaen yn sgil gwell dealltwriaeth o ddiogelu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r enghreifftiau yn dangos gallu'r gweithlu i adnabod materion diogelu a'u parodrwydd wedyn i weithredu. Mewn ambell i achos mae staff rheng flaen wedi gwneud cyfeiriad diogelu sydd wedi arwain at weithredu pellach. Cynhaliwyd Awdit Ymwybyddiaeth yn ystod y flwyddyn ac mae'r canlyniadau yn dangos fod cynnydd wedi bod yn lefelau

ymwybyddiaeth staff ar draws y cyngor o ran materion diogelu. Yn ogystal mae'r niferoedd sy'n derbyn y polisi ac yn cwblhau'r modiwlau e-ddysgu yn golygu fod y neges yn cyrraedd mwy o staff ac ar draws gwasanaethau.

**D2 Diogelu Plant a Phobl Ifanc**
**Pwrpas y prosiect yma yw gwella yn barhaus y trefniadau a diwylliant diogelu yn y maes plant a phobl ifanc.**

i) Rhan gyntaf y prosiect hwn yw maes Ecsploetio Plant yn Rhywiol, a chyflwynwyd cynllun gweithredu rhanbarthol y Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol i'r Panel Strategol Diogelu. Bydd y Grŵp Gweithredol yn ystyried y goblygiadau corfforaethol sydd yn deillio o'r rhaglen waith. Rhagwelir y bydd angen codi ymwybyddiaeth a llunio rhaglen waith leol i ymateb a sicrhau cydymffurfiaeth â'r disgwyliadau. Adroddwyd yn yr adroddiad trosolwg perfformiad a gyflwynwyd ar 3 Mai 2016 ein bod yn ystyried cydweithio gydag arbenigwraig yn y maes yma (Dr Helen Beckett). Nid oes cadarnhad eto pryd fydd hyn yn digwydd.

Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd er mwyn sicrhau ein bod ni fel Cyngor, gymaint ag sydd bosib, yn deall y galw am wasanaeth, a thueddiadau Ecsploetio Plant yn Rhywiol yng Ngwynedd. Ar hyn o bryd mae'n anodd nodi beth yw'r effaith ar blant a phobl ifanc wedi bod gan ei bod yn ddyddiau cynnar o weithredu'r strategaeth.

ii) Ail ran y prosiect yma yw'r gwaith o gryfhau gweithdrefnau a diwylliant diogelu o fewn y maes Addysg. Adroddwyd yn yr adroddiad ar 3 Mai 2016 fod rhaglen waith glir wedi'i llunio ac yn cael ei gweithredu. Er mwyn sicrhau fod yr ysgolion yn gwbl glir o'u cyfrifoldebau a bod gweithdrefnau a diwylliant diogelu cadarn yn ysgolion Gwynedd, penodwyd Swyddog Diogelu i'r Adran Addysg, ac mae'r swyddog yn weithredol ers Medi 2015.

Nodir isod y meysydd sydd wedi eu hadnabod fel blaenoriaeth:

- Adolygu Hyfforddiant Amddiffyn Plant Lefel 1 a Lefel 2
- Adolygu'r polisïau enghreifftiol sydd ar gael i ysgolion yn y maes diogelu, amddiffyn plant ac ymyrraeth gorfforol yng nghyd-destun datblygiadau cenedlaethol a chanllawiau' cadw'r dysgwyr yn ddiogel
- Sicrhau fod pob Corff Llywodraethol wedi mabwysiadu'r polisïau perthnasol

- Bob ysgol i dderbyn ymweliad Diogelu cyn arolwg
- Cytuno ar un strategaeth sirol
- Cytuno ar bolisi sirol enghreifftiol
- Codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar 'Ecsploetio Plant yn Rhywiol' (CSE)
- Codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant radicaleiddio
- Codi ymwybyddiaeth Ymddygiad Rhywiol Niweidiol (HSB).

Mae'n gyn amserol i fesur effaith a llwyddiant y gweithgarwch uchod ond, erbyn cyfarfod nesaf y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus, bydd arweinydd y prosiect yn ceisio cynnig trosolwg o swmp y gwaith, ac fel rhan o hynny disgwylir amlygu effaith.

**D3 Diogelu oedolion bregus**
**Pwrpas y prosiect yma yw anelu i wella yn barhaus y trefniadau a diwylliant diogel o fewn y maes oedolion.**

Gyda swyddi Uwch Reolaeth yr adran bellach wedi eu llenwi mae'r Adran mewn sefyllfa ble mae modd rhoi mwy o sylw i weithredu'n llawn y prosiect dan sylw. Bydd Ceryl Davies, Uwch Reolwr Anghenion Dwys yn symud y rhaglen waith yn ei blaen a disgwylir gweld cynnydd sylweddol yn ystod y misoedd nesaf. Er bod nifer o'r argymhellion sydd ynghlwm â'r rhaglen waith wedi cael eu gweithredu, mae'r Aelod Cabinet yn awyddus i gael trefn adrodd glir sydd yn sicrhau trosolwg o'r gwaith.

Mae gweithredu rhai o'r argymhellion sydd ynghlwm â'r prosiect hwn heb os yn cael effaith uniongyrchol ar fywydau pobl. e.e. datblygu taflenni gwybodaeth bwrpasol sydd wedi eu teilwrio i unigolion sydd ag anghenion gwahanol ac felly'n hwyluso mynediad at wasanaethau. Enghraifft arall yw'r gwaith blaenoriaethu a chynyddu capasiti sydd wedi digwydd o ran ymateb i anghenion DoLS (Deprivation of Liberty Safeguards) - sydd yn sicrhau asesiad o hawliau'r unigolyn.

**4.3 Gofal**
**Y Cynghorydd Gareth Roberts**

**G1 Her Gofal**
**Pwrpas y prosiect hwn fydd ceisio sicrhau fod pobl Gwynedd yn gwbl glir o'r her sydd yn ein hwynebu i ysgogi a chefnogi cymunedau i gyfrannu drwy gydweithredu'n gymunedol.**
Mae'r prosiect hwn bellach yn weithredol ers 12 mis ac er bod llawer o weithgarwch sydd wedi bod, mae'n debyg ei fod gyn amserol i weld effaith y prosiect ar drigolion Gwynedd. Mae gwaith y prosiect dros y flwyddyn ddiwethaf wedi codi ymwybyddiaeth staff, aelodau etholedig, partneriaid a darparwyr o'r her sydd yn wynebu'r sector yn y dyfodol a thrwy hyn hefyd goblygiadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant newydd. O ran ceisio codi ymwybyddiaeth o'r ddeddf, mae tair sesiwn hyfforddi aelodau wedi eu cynnal dros y misoedd diwethaf, llyfryn gwybodaeth wedi ei ddatblygu ac erthyglau wedi eu rhannu'n fewnol gydag aelodau etholedig. Yn benodol wedyn o ran y gweithlu, mae cynadleddau staff wedi eu cynnal yn ogystal â bwletinau misol wedi cael eu rhyddhau er mwyn diweddaru staff ar faterion allweddol.

Penodwyd Rheolwr Llesiant ar 13 Mai 2016 a bydd y rôl gwbl newydd hon heb os yn rhoi hwb angenrheidiol i yrru elfennau llesiant y prosiect. Nid oes llawer o gynnydd wedi bod o ran ymgysylltu hefo'r cyhoedd yn ystod 2015/16, er hyn mae llawer o'r gwaith paratoi wedi ei wneud o ran mapio gwasanaethau a gweithgareddau mewn ardaloedd penodol a threialu mathau gwahanol o ymgysylltu e.e. sgwrs ar ffurf cwis. Pwrpas yr ymgysylltu gyda chymunedau fydd sbarduno'r datblygiad o weithgarwch ataliol fyddai'n lleihau gorddibyniaeth ar wasanaethau cymdeithasol. Disgwylir gweld cynnydd sylweddol o ran hyn yn ystod y misoedd nesaf.

Gwelwyd llwyddiant felly wrth gyflawni'r gwaith codi ymwybyddiaeth, gyda gwaith pellach i'w wneud er mwyn ymgysylltu gyda chymunedau.

**G2 Gweithio'n integredig ar yr hyn sy'n cyfri i unigolion**
**Pwrpas y prosiect hwn fydd ail ddylunio ein ffordd gyfredol o weithio gan sicrhau ein bod yn rhoi pobl Gwynedd (pobl hŷn a phobl ag anableddau corfforol yn yr achos yma) yn gwbl ganolog.**
Ym mis Chwefror ymwelodd holl aelodau Cabinet â'r tîm integredig yn Ysbyty Alltwen, sydd yn weithredol yn ardal Eifionydd. Cafodd aelodau'r Cabinet gyfle i siarad hefo staff er mwyn cael blas ar eu profiadau hwy o ran y newid yn y ffordd o weithio a thrwy hynny'r buddiannau sydd i drigolion Gwynedd o weithio'n integredig a rhoi'r unigolyn yn gwbl ganolog i'n gwasanaethau.

Mae bwriad i ehangu'r prosiect ar draws y Sir ac mae cynnydd wedi bod o ran y datblygiadau hynny. Cafwyd cyfarfod adeiladol iawn gyda Dirprwy Swyddog Gweithredol y Bwrdd Iechyd ac mae cyfarfod pellach wedi ei drefnu hefo'r Prif Weithredwr newydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Yn benodol o ran effaith y prosiect hwn mae'n debyg y gellir dweud fod trigolion Eifionydd, sydd wedi profi'r ffordd newydd o weithio, yn cael y buddion llawn o wasanaeth integredig sydd a'i ffocws yn gyfan gwbl ar yr hyn sy'n cyfri iddynt. Mae adborth gan yr unigolion wedi bod yn bositif iawn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac yn cadarnhau ein bod ar y trywydd cywir. Rydym yn dechrau gweld newid hefyd o ran be sy'n cael ei gomisiynu h.y. rydym yn dibynnu llai ar wasanaethau traddodiadol, ac yn ceisio cynnig opsiynau gwahanol i unigolion sy'n aml iawn yn cyfarch eu gwir anghenion yn well. Mae'r dystiolaeth yma yn dangos fod y prosiect yn gwneud cynnydd da.

**G3 Ail-strwythuro Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant**
**Os am lwyddo gyda'r newid sylweddol a newid meddylfryd a diwylliant yr adran, mae'n hanfodol bod strwythur staffio'r adran yn addas i bwrpas ar gyfer y dyfodol. Pwrpas y prosiect hwn yw gweithredu ar ail-strwythuro'r adran.**
Mae llithriad a fu yn rhai camau o'r prosiect ar y cychwyn, sef penodi i'r haenau uwch reolaeth, yn parhau i gael effaith negyddol ar sicrwydd staff am y dyfodol a gall hyn gallai hynny gael effaith andwyol ar ddarpariaeth gwasanaeth. Fodd bynnag, rydym wedi llwyddo i gadw amserlen ail-strwythuro'r strwythur ehangach yr un peth. Mae sgôp y prosiect hwn wedi datblygu'n sylweddol ers comisiynu'r prosiect yn wreiddiol ac yn esbonio'r llithriad hwn. Yn wreiddiol strwythur yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn unig oedd dan sylw ond, yn dilyn dylanwad a datblygiad prosiect G2 (uchod) dros y flwyddyn ddiwethaf, mae rhan o'r strwythur (Pobl Hyn ac Anableddau Corfforol) bellach yn cael ei ddatblygu'n gwbl integredig gyda'r Bwrdd Iechyd.

Mae'r Aelod Cabinet yn hyderus fod yr addasiad yma yn golygu strwythur mwy addas i bwrpas ar gyfer y dyfodol ac yn sicrhau fod gennym y trefniadau llywodraethu gorau posib er mwyn gallu gweithio'n integredig ac ymateb i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant newydd. Er y newid, dylid nodi fod elfennau o'r prosiect nad ydynt yn ddibynnol ar ddylanwadau allanol (e.e. Anableddau Dysgu, Tai a Darparu) yn cael eu gweithredu yn unol â'r disgwyl. Mae'r elfennau o'r prosiect sydd felly wedi

eu cyflawni yn galluogi staff i weithredu yn unol â disgwyliadau a buddion y ddeddf newydd.

**G4 Strategaeth Lletya Pobl Hyn**
**Pwrpas y prosiect yma yw sicrhau cytundeb ar y Strategaeth Letya Pobl Hŷn a'i defnyddio i bwrpas trafodaethau datblygol gyda phartneriaid**
Pwrpas y prosiect oedd sicrhau cytundeb ar y Strategaeth Letya Pobl Hŷn a'i defnyddio i bwrpas trafodaethau datblygol gyda phartneriaid. Gellir cadarnhau fod y prosiect hwn wedi ei gwblhau o fewn yr amserlen a gafodd ei haddo yn y cynllun strategol ac fe gymeradwywyd y strategaeth gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 15 Mawrth 2016.

Ar hyn o bryd does neb wedi cael budd o ganlyniad i'r prosiect ond bydd ei weithredu yn cyfrannu at sicrhau fod gennym y ddarpariaeth addas yn y mannau priodol ar gyfer pobl hyn y sir.

**G5 Tai Gofal Ychwanegol (Porthmadog)**
**Pwrpas y prosiect yma yw adeiladu Tai Gofal Ychwanegol ym Mhorthmadog.**
Mae'r gwaith o ddymchwel a chlirio wedi dechrau. Er y llithriad yn yr amserlen wreiddiol, mae'r Aelod Cabinet yn hyderus y byddwn wedi cyflawni'r hyn a addawyd erbyn diwedd cyfnod y cynllun strategol. O ganlyniad i dan wariant Llywodraeth Cymru, rydym wedi derbyn grant ychwanegol o £1.4miliwn, ac wedi gallu ei ddefnyddio i dalu rhan fwyaf o'r swm oedd yn weddill o'r datblygiad hwn.

Ar hyn o bryd does neb wedi cael budd o ganlyniad i'r prosiect ond mae'n debyg fod y ffaith fod y datblygiadau wedi dechrau o ddifri yn rhoi cyfle i rai o drigolion y sir, sydd â diddordeb yn y math hwn o lety, gynllunio ymlaen.

**G6 Frondeg**
**Pwrpas y prosiect yma yw sicrhau eglurder ar safle Frondeg a phenderfynu ar y ffordd ymlaen.**
Pwrpas gwreiddiol y prosiect oedd sicrhau eglurder ar safle Frondeg a phenderfynu ar y ffordd ymlaen. Mewn cyfarfod o'r Cabinet ar 19 Ionawr 2016, yn dilyn cyfnod o ymgysylltu ac ymgynghoriad ffurfiol, penderfynwyd datblygu model llety newydd ar gyfer oedolion gydag anableddau dysgu ar safle Frondeg, a dod â defnydd cyfredol yr adeilad i ben unwaith y bydd y datblygiad newydd ar gael.

Mae cyflawni pwrpas gwreiddiol y prosiect wedi cael effaith bositif ar drigolion Cartref Frondeg gan eu bod bellach yn glir am y ffordd ymlaen. Er

bod y datblygiad newydd yn mynd i olygu newid sylweddol i'r trigolion mae'r effaith ar y cyfan yn un positif h.y. bydd y trigolion yn parhau i fyw yn y Frondeg fel ag y mae hyd nes y bydd y llety newydd yn barod.

**G7 Darpariaeth Fewnol**
**Pwrpas y prosiect yma yw penderfynu ar sut rydan ni'n rhedeg y Gwasanaeth Darparu (sy'n darparu gwasanaeth gofal) a gweithredu ar hynny.**
Mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo er mwyn penderfynu ar sut rydan ni'n rhedeg y Gwasanaeth Darparu. Bydd opsiynau dechreuol yn cael eu cyflwyno i aelodau Cabinet yn fuan ac mae gwaith pellach wedi ei gomisiynu er mwyn cynnwys asesiad ariannol.

Cred yr aelod Cabinet bod angen ystyried y ffordd ymlaen yng nghyd-destun pa mor fregus yw'r farchnad gofal ar hyn o bryd, a'r potensial sydd i ymateb i hyn trwy gydweithio hefo'r Bwrdd Iechyd.

Ar hyn o bryd does neb wedi elwa o'r gwaith yma ac mae'n gyn amserol hefyd i ddatgan os oes unrhyw fudd yn debygol o ddeillio o'r prosiect.

## 5.0 Mesurau

### 5.1 Plant a Phobl Ifanc
Y Cynghorydd Gareth Thomas

Gweler copi o holl fesurau'r Adran Addysg yn **Atodiad 1**.

Mae perfformiad Gwynedd yn gyffredinol dda ar draws y Cyfnodau Allweddol. Mae perfformiad yn dda iawn yng Nghyfnod Allweddol 3 ac yn gryf erbyn diwedd cyfnod allweddol 4 gan fod ar y brig mewn tri allan o'r chwe phrif fesurydd ar lefel Genedlaethol. Yn y sector gynradd, mae perfformiad yn ddau gyfnod allweddol yn cryfhau gyda lle i wella yn bellach, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen. Ar wahân i Gyfnod Allweddol 3, mae lle i gryfhau perfformiad ar draws yr ystod mesurau yn enwedig er mwyn sicrhau bod disgyblion uwch eu gallu yn perfformio'n well.

Rwy'n awyddus i dynnu eich sylw i'r mesurau canlynol:

- **EDU/016b Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd –** Yn ystod y flwyddyn addysgol, bu i bresendoldeb disgyblion o fewn y sector uwchradd gynyddu 0.4% i 94.6%. Mewn cymhariaeth, yn genedlaethol, bu i'r ffigwr gynyddu 0.2% i 93.8%.

Mae presenoldeb ysgolion uwchradd Gwynedd wedi codi o'r pedwerydd safle yn 2013/14 i gydradd ail uchaf drwy Gymru.

- **DANS06 Canran disgyblion 16 oed sydd yn ennill Dangosydd Pynciau Craidd (Gradd C neu uwch mewn Cymraeg/ Saesneg, Mathemateg a Gwyddionaeth) –** Mae'r ffigwr canran yma wedi codi 9.2% yn ystod y tair blynedd addysgol ddiwethaf ac yn 62.4%. Mae Gwynedd yn y trydydd safle yn genedlaethol.

- **EDU/017 Canran y disgyblion sy'n ennill trothwy lefel 2+ yn cynnwys gradd A*-C mewn Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg –** Rydym yn perfformio yn y pumed safle yn genedlaethol gyda hwn. Mae'r mesurydd yma wedi gweld cynnydd yn flynyddol ers 2012. Mae'r adran addysg a GwE wedi adnabod Saesneg a Mathemateg fel meysydd i weithio yn rhanbarthol arnynt, ac mae swydd Swyddog Ymgynghorol Mathemateg wedi'i llenwi (cychwyn ar 1 Mehefin 2016) er mwyn cyfarch anghenion yn lleol.

- **EDU/008a Nifer o waharddiadau parhaol yn ysgolion cynradd yn y flwyddyn academaidd –** Am y tro cyntaf, mae rhai o ysgolion cynradd Gwynedd wedi gwahardd yn barhaol. Mae'r nifer o waharddiadau cyfnod penodol wedi codi yn ogystal i 83. Fe welwyd 21 o ysgolion cynradd yn gwahardd yn ystod y flwyddyn. Gellir dweud mai'r diffyg ddarpariaeth arbenigol yw'r ffactor yn y cynnydd yma. Mewn ymateb i hyn, mae'r adran yn cychwyn darpariaeth unedau arbenigol o fewn ysgolion er mwyn cynnal y disgyblion mwyaf dwys yn ymddygiadol ac yn emosiynol.

Yn **Atodiad 2**, ceir data arolygiadau ysgolion Gwynedd ers Ionawr 2015. Ers cyflwyno'r data yma yn yr adroddiad diwethaf, mae chwe ysgol gynradd wedi derbyn arolygiadau. Bu i'r ysgolion cynradd yma dderbyn dyfarniad da neu well ar draws y tri cwestiwn allweddol a'r ddwy farn gyffredinol. Roedd un ysgol wedi derbyn barn Rhagorol ar gyfer pob dangosydd ac un arall wedi derbyn rhagoriaeth ar gyfer arweinyddiaeth a'u gallu i wella. Ymhob achos roedd y farn ar gyfer is-ddangosydd Gwella Ansawdd yn dda neu well ac o'r adroddiadau sydd wedi'i cyhoeddi hyd yma, nid oes unrhyw sylw pellach i wella ansawdd na chynllunio gwelliant.

Gellir gweld cysylltiad clir yma gyda gwaith prosiect P2- Gwella Arweinyddiaeth a Rheolaeth sy'n cael effaith cadarnhaol ar wella ansawdd addysg yn y Sir.

Y Cynghorydd Mair Rowlands

Ceir copi o holl fesurau Plant a Chefnogi Teuluoedd, Hamdden ac Ieuenctid yn **Atodiad 1**. Mae'r gwaith o ddatblygu pwrpas a mesurau yn parhau. Yn gyffredinol , mae'r mesurau yn perfformio yn dda, gyda nifer wedi cynnal a gwella perfformiad o'i gymharu a 2014/15. Nodir rhai o'r rhain isod:

**LlesPMG2 – Cynllun llwybr clir wedi ei gytuno ar gyfer plant mewn gofal –** Perfformiad yma wedi bod 100% bob blwyddyn ers 2013, ac mae'r ffigwr yma wedi parhau ar gyfer eleni, gyda 97 o bobl ifanc gyda chynllun llwybr mewn lle.

**SCC/041(a) – Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant fu'n berthnasol a chanddynt gynlluniau llwybr yn ôl yr angen –** Perfformiad yma wedi'i gynnal ar 100% eto eleni. Yn genedlaethol, roedd y ffigwr yma yn 91.2% yn 2014/15. Nid yw ffigyrau cenedlaethol wedi eu cyhoeddi ar gyfer 2015/16 eto, ond mae Gwynedd yn y safle cyntaf ar hyn o bryd.

**Diogelu1 – Cyfradd y plant a gafodd eu trafod mewn goruchwyliaeth, lle rhoddwyd ystyriaeth i niwed sylweddol -** Wedi cynnal y perfformiad ar 100% eto eleni. Gan fod y gwaith yma wedi gweithio'n dda yn Arfon, mae'n fwriad ymestyn i dimau plant Dwyfor a Meirionnydd yn 2016/17, ac i Derwen (y gwasanaeth sy'n gweithio gyda phlant anabl a'u teuluoedd a'r Tim 16+ar ôl hynny.

Ceir rhai mesurau sydd heb berfformio cystal, ac mae'r Aelod Cabinet yn awyddus i'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd weithio ymhellach i ystyried lle gellir gwella a goresgyn rhwystrau gyda rhai ohonynt:

**SCC/025 – Canran yr ymweliadau statudol a phlant sydd wedi derbyn gofal oedd fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a'i cynhaliwyd yn unol a'r rheoliadau –** Perfformiad 2015/16 yn 87% o'i gymharu ag 89% y llynedd. Mae'r adran wedi cadarnhau bod yr ymweliadau wedi digwydd, ond mewn rhai sefyllfaoedd, nid ydynt yn cael eu cofnodi o fewn yr amserlen briodol. Mae'r adran yn ystyried ffordd o sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei gofnodi, ac yn cadw llygad ar hynny

**CSP3 – Canran o gynnydd a wnaed gan deuluoedd yn dilyn ymyrraeth Tim o Amgylch y Teulu (ar gyfartaledd) -** Mae'r ffigwr yma wedi'i nodi fel 25.3%. Mae'r ganran wedi lleihau oherwydd natur y teuluoedd mae'r tîm yn gweithio gyda hwynt. Mae anghenion y teuluoedd yn llawer mwy cymhleth ac yn uwch yn y continwwm o angen sy'n golygu delio llawer iawn llai gydag achosion ymyrraeth gynnar. Rwyf hefyd wedi gofyn i'r tîm ystyried mesurau eraill i fesur effaith y gwaith yma, fel rwyf eisoes wedi'i nodi wrth drafod

prosiect P9 Sicrhau ystod o wasanaethau ataliol ar gyfer grwpiau o blant a phobl ifanc bregus Gwynedd

**SCC/024 - Canran y plant sy’n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a chanddynt Gynllun Addysg Bersonol o fewn 20 diwrnod ysgol i dderbyn gofal neu ymuno ag ysgol newydd yn ystod y flwyddyn** - Mae’r ffigwr yma yn 37.9% o’i gymharu â 82.1% y llynedd.

Bydd rhai o’r mesurau sydd wedi eu hadrodd yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn newid yn sgîl y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, sydd yn weithredol ers 6 Ebrill 2016. Byddwn hefyd yn adrodd ar fesurau newydd o ganlyniad i hyn.

## 5.2 Gofal

**Y Cynghorydd Gareth Roberts**
Mae pwrpas y gwasanaethau Oedolion wedi ei gytuno sef ‘Helpu fi fyw fy mywyd fel dwi eisiau’, ac mae gwaith yn mynd rhagddo er mwyn sicrhau bod trefniadau mewn lle i ddal y wybodaeth sy’n dweud a yw’r gwasanaeth yn cyflawni hynny neu beidio.

Rhan annatod o’r pwrpas hwn, ac yn greiddiol i wasanaethau Gofal, yw’r angen i sicrhau bod y defnyddwyr yn ddiogel. Llwyddwyd, o’r holl atgyfeiriadau amddiffyn oedolion sydd wedi’u cwblhau yn ystod y flwyddyn, llwyddo i reoli’r perygl 99% o’r amser **(SCA/019)**.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf un o’r prif faterion yr adroddwyd arno ydi sefydlogrwydd cartrefi nyrsio ar draws Gwynedd. Mae’r sefyllfa yn amlygu pa mor ansefydlog yw’r sector ac yn cadarnhau’r angen i gynnig atebion mor fuan â phosib. Mae’r gyfradd oedi wrth drosglwyddo o ysbytai am resymau gofal cymdeithasol wedi dirywio’n sylweddol eleni **(SCA/001)** - cynnydd o 1.05 yn 2014/15 i 2.45 yn 2015/16. Ymddengys fod yr oedi yn fwy o broblem yn y cyswllt gydag Ysbytai Tywyn a Dolgellau na unrhyw le arall yn y sir h.y. O’r 30 achos yn ystod y flwyddyn mae 16 o’r rheini yn ymwneud â’r ysbytai hyn. Er hyn, o gymharu â Chymru gyfan, mae perfformiad Gwynedd yn parhau’n dda (ar sail ffigyrau drafft, Gwynedd sy’n perfformio'r 6 gorau yng Nghymru). Mae’r perfformiad hwn yn cynrychioli diffygion cyffredinol y system o ran galw uchel ar yr ysbytai, diffyg gwlâu yn y gymuned a hefyd prinder capasiti o ran gweithwyr proffesiynol a gofalwyr cartref mewn rhai ardaloedd penodol o Wynedd (Ar sail dadansoddiad dechreuol mae 66% o’r rhesymau dros Wynedd o ganlyniad i resymau gofal cartref yn benodol).

Yn dilyn o hyn mae'r mesur **SCA/007** yn 'adolygu cynlluniau gofal' ac yn dangos dirywiad o 85% yn 2013/14 i 79% erbyn 2015/16. O ddadansoddi'r ffigwr hwn ymhellach fesul ardal, gwelir bod perfformiad Meirionnydd yn 68% o gymharu ag Arfon sy'n 91%. Credaf fod y dirywiad hwn yn amlygu eto'r prinder capasiti amlwg mewn rhai ardaloedd ac o ganlyniad wedyn y blaenoriaethu sydd wedi gorfod digwydd. Mae'r gwasanaeth, ar y cyd hefo partneriaid, yn ceisio ymateb i'r heriau hyn.

Ar nodyn mwy positif mae gweddill y mesurau sydd yn **Atodiad 1 (OED003, OED019, SCA002a** a **SCA002b)** yn awgrymu fod y gwasanaeth ar y trywydd cywir. Er enghraifft, mae gostyngiad i weld yng nghyfran y bobl sydd yn derbyn cefnogaeth draddodiadol yn y gymuned a hefyd yn ein cartrefi preswyl. Mae hyn yn awgrymu o bosib ein bod eleni yn dibynnu llai ar ofal traddodiadol o gymharu â'r blynyddoedd cynt. I gefnogi hyn mae twf graddol hefyd yn y defnydd o daliadau uniongyrchol **(OEDO19)** sydd wrth gwrs yn hybu ac yn grymuso unigolion i fyw bywydau fel y maent hwy eisiau ei fyw.

## 6.0 Casgliad

6.1 Gwelir cynnydd cadarn ar y prosiectau trawsnewidiol. Mae perfformiad y mesurau yn unol â'r disgwyl, gyda datblygu mesurau newydd yn tystiolaethu fod gwasanaethau yn rhoi mwy o bwyslais ar bobl Gwynedd.

## 7.0 Argymhelliad

7.1 Nodi a derbyn yr adroddiad.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Dim i'w ychwanegu i'r adroddiad.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

* = Ffigwr is yn welliant

# Atodiad 1- Mesurau Perfformiad

**Mesurau Plant a Phobl Ifanc** (Y Cynghorydd Mair Rowlands)

| **Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd** | | **2012/13** | **2013/14** | **2014/15** | **Cyfeiriad Uchelgais** | **2015/16 Gwybodaeth Ddiweddaraf** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Diogelu 7 | Canran o gynadleddau achos lle bu glywed llais/ barn y plenty (ac eithrio plant o dan 7 oed) | - | 81% | 83% | Cynnal | 85% |
| Lles PMG1 | Cynllun Trosiannol wedi ei gytuno ar gyfer plant anabl yn 16 oed | - | 100% | 100% | Cynnal | 100% |
| Lles PMG 2 | Cynllun llwybr clir wedi ei gytuno ar gyfer plant mewn gofal | - | 100% | 100% | Cynnal | 100% |
| SCC/004 | Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn | - | 4.9% | 6.2% | Cynnal | 7.7% |
| SCC/030 (a) | Canran y gofalwyr ifanc y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwybodol ohonynt a gafodd eu hasesu | - | 100% | 100% | Cynnal | 100% |
| SCC/041(b) | Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol sydd wedi cael cynghorydd personol wedi'i ddyrannu iddynt | - | 100% | 100% | Cynnal | 100% |
| SCC/024 | Canran y plant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a chanddynt Gynllun Addysg Bersonol o fewn 20 diwrnod ysgol i dderbyn gofal neu ymuno ag ysgol newydd yn ystod y flwyddyn | - | 86.5% | 82.1% | Gwelliant | 37.9% |
| SCC/025 | Canran yr ymweliadau statudol a phlant sy'n derbyn gofal oedd yn fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a'u cynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | - | 83.7% | 89% | Gwelliant | 87% |
| SCC/033 (f) | Canran y bobl ifanc oedd yn arfer derbyn gofal ac mae'r awdurdod mewn cysylltiad â nhw, ac yn gwybod eu bod yn derbyn addysg, hyfforddiant neu sy'n gweithio pan yn 19 oed | - | 66.7% | 52.9% | Gwelliant | 75% |
| SCC/041 (a) | Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol, a chanddynt gynlluniau llwybr yn ôl yr angen | - | 100% | 100% | Cynnal | 100% |
| Diogelu 1 | Cyfradd y plant a gafodd eu trafod mewn goruchwyliaeth, lle rhoddwyd ystyriaeth i niwed arwyddocaol | - | 100% | 100% | Cynnal | 100% |
| BC01 | Asesiad SOGS (Schedule of Growing Skills) 2 oed canran plant Dechrau'n Deg yn cyrraedd eu norm neu yn uwch nai norm datblygiadol | - | - | - | Cyfeiriad i'w osod | 66% |
| BC02 | Asesiad SOGS 3 oed Canran Plant Dechrau'n Deg yn cyrraedd eu norm neu yn uwch nai norm datblygiadol | - | - | - | Cyfeiriad i'w osod | 60% |
| BC03 | Canran presenoldeb plant sy'n 2 oed yn Dechrau'n Deg | - | - | - | Cyfeiriad i'w osod | 84% |
| BC04 | Nifer o'r pecynnau cymorth uwch rhiantu sy'n arwain at deithio pellter cadarnhaol | - | - | - | Cyfeiriad i'w osod | 65% |

* = Ffigwr is yn welliant

| Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd | | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | Cyfeiriad Uchelgais | 2015/16 Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Diogelu 2 | Cyfradd yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno I Gynadleddau Achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau | - | - | - | Cyfeiriad i'w osod | 97% |
| CPS3 | Canran o gynnydd a wnaed gan deuluoedd yn dilyn ymyrraeth y Tîm o Amgylch y Teulu (ar gyfartaledd) | - | - | - | Cyfeiriad i'w osod | 25.3% |

**Sylwadau**

**Diogelu 7** - addasiadau i'w gwneud i dempled Adroddiad y Gweithiwr Cymdeithasol ar gyfer cynadleddau amddiffyn plant. Fydd hyn yn sicrhau fod barn y plentyn yn cael ei gynnwys yn glir yn y gynhadledd.

**Lles PMG1** - Dim ond un plentyn anabl (yn 16 oed ) mewn gofal sydd wedi ei adnabod yn ystod y flwyddyn. Mae'r plentyn yn agored i Dîm Derwen ac mae cynllun trosiannol ar ei gyfer.

**Lles PMG2** - cynnal perfformiad. 97 o bobl ifanc cymwys gyda Chynllun Llwybr mewn lle.

**SCC/004** - Perfformiad o fewn y targed. 16 o blant wedi bod mewn o leiaf tri lleoliad yn ystod y flwyddyn.

**SCC/030 (a) -** cynnal perfformiad.

**SCC/041 (b)** - cynnal perfformiad.

**SCC/024** - Gwelliant yn chwarter 4 gyda 15 o gynlluniau addysg bersonol wedi eu gwneud o fewn 20 diwrnod ysgol. Meysydd gwella wedi eu hadnabod gan y Swyddog Mesur a'r Swyddogion Addysg fydd yn eu galluogi i gyd-weithio'n fwy effeithiol wrth gasglu data.

**SCC/033 (f)** - Cohort bychan yn y flwyddyn gyda 16 o bobl ifanc oedd gynt mewn gofal ac yn cael eu pen-blwydd yn 19 oed. Roedd 3 yn gweithio llawn amser, 2 mewn addysg uwchradd llawn amser. 7 mewn addysg llawn amser a 4 yn ddi-waith.

**SCC/041 (a)** cynnal perfformiad. 97 o bobl ifanc cymwys gyda Chynllun Llwybr mewn lle

**Diogelu 1** - hwn yn cael ei ymestyn i dimau plant Dwyfor / Meirionnydd erbyn chwarter 1 ac i dîm Derwen a thîm 16+ yn chwarter 2.

**BC01** Data Tymor3 Cefndir - 52 o blant wedi eu hasesu o fewn y ffrâm amser -35 wedi cyrraedd eu norm neu uwch. 9 o blant 1 o dan eu norm = 17%. 8 o blant mwy nag un sgôr o dan eu norm = 15%. Sioned wedi trafod gyda rheolwr cyfrif Dechrau'n deg am bosibilrwydd o greu mesurydd lleol fydd yn adrodd os yw ymyrraeth dechrau'n deg wedi gwneud gwahaniaeth i'r plentyn. Mae cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer Mis Mai ar gyfer swyddogion data i drafod hwn ymhellach. Y gobaith yw y byddent yn creu mesurydd fydd yn cael ei gasglu ar draws y Gogledd.

**BC02** Data tymor 3 Cefndir - 46 o blant wedi eu hasesu o fewn y ffrâm amser - 23 wedi cyrraedd eu norm neu uwch. 14 o blant 1 o dan eu norm = 30%. 9 o blant mwy nag un sgôr o dan eu norm = 20%. Sioned wedi trafod gyda rheolwr cyfrif Dechrau'n deg am bosibilrwydd o greu mesurydd lleol fydd yn adrodd os yw ymyrraeth dechrau'n deg wedi gwneud gwahaniaeth i'r plentyn. Mae cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer Mis Mai ar gyfer swyddogion data i drafod hwn ymhellach. Y gobaith yw y byddent yn creu mesurydd fydd yn cael ei gasglu ar draws y Gogledd.

* = Ffigwr is yn welliant

**BC03** Data tymor 3.

**BC04** Data tymor 3 - Nifer y pecynnau oedd yn arwain at bellter cadarnhaol yn y tymor ydi 8 – ond mae hyn yn cyfateb I 40% ohonynt (20 o becynnau wedi eu trefnu).

**CPS3** Mae canran y cynnydd wedi'i leihau. Oherwydd natur y teuluoedd rydym yn gweithio gyda hwy wedi mynd yn llawer mwy cymhleth ac yn uwch yn y continwwm o angen e.e. achos atom oedd wedi bod yn agored yn ddi-stop i Dîm Plant ers 2009. Ymdrinnir llawer llai gydag achosion sydd angen ymyrraeth gynnar, ac yn hytrach ymdrinnir gydag achosion sydd wedi bod yn destun pryder i sawl asiantaeth ers sawl blwyddyn. Yn yr achosion hyn, bu'n rhaid eu cyfeirio at y Tîm Plant ynglŷn â materion Diogelwch Plant. Mae'r tîm yn delio llawer mwy gydag achosion oedd yn arfer cael gwasanaeth o dan Adran 17 Deddf Plant 1989.

**Mesurau Addysg** (Y Cynghorydd Gareth Thomas)

| Cyf. | Mesur – Diffiniad | 2012-13 (Blwyddyn Addysgol 11-12) | 2013-14 (Blwyddyn Addysgol 12-13) | 2014-15 (Blwyddyn Addysgol 2013-14) | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf (Blwyddyn Addysgol 2014-15) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| EDU/008a | Nifer o waharddiadau parhaol yn ysgolion cynradd yn y flwyddyn academaidd | 0 | 0 | 0 | Bodlon gweld gostyngiad | 3 |
| EDU/ 008bN | Nifer o ddisgyblion a waharddwyd yn barhaol yn yr uwchradd yn ystod y flwyddyn academaidd | 14 | 4 | 4 | Cynnal | 3 |
| EDU/16a | Canran presenoldeb yn ysgolion cynradd yn y flwyddyn academaidd | 94.59 | 94.33 | 95.07 | Cynnal | 95 |
| EDU/16b | Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd yn y flwyddyn academaidd | 94.24 | 93.38 | 94.24 | Gwelliant | 94.60 |
| DANS06 | Canran disgyblion 16 oed sydd yn ennill Dangosydd Pynciau Craidd (Gradd C neu uwch mewn Cymraeg/ Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth) | 53.2 | 57.35 | 60.5 | Gwelliant | 62.4 |
| DANS07 | Canran disgyblion 16 oed sy'n ennill trothwy lefel 1 (5 gradd A*-G TGAU) | 93.1 | 97.09 | 97.2 | Gwelliant | 97.9 |
| DANOS 08 | Canran disgyblion 15 oed sydd wedi ennill trothwy lefel 2 (5 gradd A*-C TGAU) neu gyfatebol | 75.1 | 81.5 | 87.7 | Cynnal | 88.9 |
| DGD17 | Canran y bobl ifanc 16- 18 oed nad ydynt mewn addysg , gwaith neu hyfforddiant | - | 3.00 | 1.70 | Gwelliant | 1.8% |
| EDU/004 | Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd | 83.0 | 85.40 | 89.11 | Gwelliant | 91.3% |
| EDU/006 ii | Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Asesiad Athrawon yn y Gymraeg (iaith Gyntaf) ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 | 86.1 | 82.5 | 81.20 | Gwelliant | 83.2% |
| EDU/011 | Cyfartaledd y sgôr pwyntiau ar gyfer y disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdodau lleol | 525.4 | 578.20 | 616.00 | Gwelliant | 617.2 |

* = Ffigwr is yn welliant

| Cyf. | Mesur – Diffiniad | 2012-13 (Blwyddyn Addysgol 11-12) | 2013-14 (Blwyddyn Addysgol 12-13) | 2014-15 (Blwyddyn Addysgol 2013-14) | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf (Blwyddyn Addysgol 2014-15) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Edu/017 | Canran y disgyblion 15 oed ar 31ain Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd y trothwy Lefel 2+ yn cynnwys gradd A*-C TGAU mewn Cymraeg mamiaith neu Saesneg a Mathemateg | 55.0 | 58.0 | 61.1 | Gwelliant | 63.3 |
| GY06 | Canran y disgyblion enillodd lefel 3 da neu uwch yn CA2 (7-11 oed) a gafodd asesiad athro yn y Gymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd CA3 (11-14 oed) | - | 95.60 | 94.10 | Cynnal | 95.4 |



**<u>Sylwadau</u>**

**EDU/008a** Am y tro cyntaf mae rhai o ysgolion cynradd Gwynedd wedi gwahardd yn barhaol. Yn ystod y flwyddyn gwelwyd 3 gwaharddiad parhaol. Mae nifer o waharddiadau penodol wedi codi yn ogystal i 83. Fe welwyd 21 o ysgolion cynradd yn gwahardd yn ystod y flwyddyn. Mae diffyg darpariaeth arbenigol yn ffactor yn y cynnydd yma. Yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn cychwyn darpariaeth unedau arbenigol o fewn ysgolion er mwyn cynnal y disgyblion mwyaf dwys yn ymddygiadol ac yn emosiynol.

**EDU/008bN** Mae nifer gwaharddiadau parhaol wedi gostwng i 3 yn ystod y flwyddyn. Yn ystod flwyddyn nesaf byddwn yn cynnal adolygiad o'r defnydd a wneir o'r gyllideb gynhwysiad yn y sector uwchradd. Yn ogystal byddwn yn cychwyn darpariaeth o'r newydd ar gyfer cynnal disgyblion sydd â phroblemau ymddygiadol neu emosiynol dwys yng nghyfnod allweddol 3.

**EDU/016a** Yn ystod blwyddyn addysgol 14/15 bu i bresenoldeb disgyblion o fewn y sector gynradd ostwng 0.1% i 95%. Yn genedlaethol bu i'r ffigwr gynyddu o 0.1% i 94.9%. Mae presenoldeb ysgolion cynradd Gwynedd wedi disgyn o'r 5ed safle yn 13/14 i gydradd 8fed uchaf drwy Gymru. Mae nifer yr ysgolion sydd â phresenoldeb uwch na'r canolrif o gymharu â theuluoedd prydau ysgol am ddim wedi disgyn o un ac mae 53% o ysgolion perfformio yn is na'r canolrif. Mae 8 o ysgolion yn chwartel isaf am y 3 blwyddyn yn olynol. Mae'r ysgolion yma yn cael eu targedu er mwyn gwella eu presenoldeb Mae 15 ysgol wedi llwyddo i aros yn y chwartel cyntaf dros dreigl tair blynedd. Yn 14/15 llwyddodd 26 ysgol i gyrraedd y chwartel uchaf.

**EDU/16b** Yn ystod blwyddyn addysgol 2014/15 bu i bresenoldeb disgyblion o fewn y sector uwchradd gynyddu 0.4% i 94.6%. Yn genedlaethol bu i'r ffigwr gynnydd 0.2% i 93.8%.
Mae presenoldeb ysgolion uwchradd Gwynedd wedi codi o'r 4ydd safle yn 13/14 i gydradd 2il uchaf drwy Gymru.

**DANS06** Yn gyffredinol, mae perfformiad cymharol Gwynedd wedi bod yn gyson dda yn y mwyafrif helaeth o'r prif ddangosyddion. 3ydd safle yn genedlaethol.

**DANS07** Safle cyntaf yn genedlaethol.

**DANS08** Cydradd 5ed safle yn genedlaethol.

**DGD17** Ffigyrau swyddogol Llywodraeth Cymru parthed y grŵp NEET yng Ngwynedd ar gyfer 2015 yw 1.8% sydd yn gyfanswm o 24 o bobl ifanc.

**EDU/004** Safle 1af yn genedlaethol. Mae'r data yn cadarnhau fod perfformiad ysgolion Gwynedd yn gyson dda iawn yng Nghyfnod Allweddol 3.

* = Ffigwr is yn welliant

**EDU/006ii** Cynnydd o 2%.

**EDU/011** Mae dangosyddion perfformiad allweddol ym mhob cyfnod allweddol yn gwella erbyn hyn, ac yn cymharu'n ffafriol ag awdurdodau lleol (ALlau) tebyg.

**EDU/017** 5ed safle yn genedlaethol. Mae'r Awdurdod a GwE wedi adnabod Saesneg a mathemateg fel meysydd sydd yn peri pryder yn ein hysgolion uwchradd. Mae GwE wedi penodi arbenigwyr yn y meysydd hyn i weithio'n rhanbarthol, ac mae swydd athro ymgynghorol mathemateg (sydd yn cael ei hariannu ar y cyd rhwng Yr Awdurdod a GwE) wedi'i llenwi (i ddechrau ar 1 Mehefin 2016) er mwyn cyfarch anghenion lleol yn y maes.

**GY06** Cynnydd o 1.3%.

## **Mesurau Gofal** (Y Cynghorydd Gareth Roberts)

| Cyf. | Mesur – diffiniad | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | Cyfeiriad Uchelgais | 2015/16 Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **OED003** | Galluogi - Canran o achosion sydd wedi derbyn cyfnod o alluogi sy'n gadael heb becyn gofal | 46% | 54% | 45% | Gwelliant | 64% |
| **OED019** | Nifer y defnyddwyr gwasanaethau oedolion sy'n derbyn taliadau uniongyrchol | - | 104 | 121 | Gwelliant | 135 |
| **SCA/001** | Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75+ oed. MESUR CENEDLAETHOL | 1.16 | 1.55 | 1.05 | Gwelliant | 2.42 |
| **SCA/002 a** | Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) Sy'n cael cymorth i fyw gartref fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed a throsodd. MESUR CENEDLAETHOL | 47 (4.7%) | 46 (4.6%) | 45 (4.5%) | Gwelliant* | 44 (4.4%) |

* = Ffigwr is yn welliant

| Cyf. | Mesur – diffiniad | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | Cyfeiriad Uchelgais | 2015/16 Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **SCA/002 b** | Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth. MESUR CENEDLAETHOL | 25<br><br>(2.5%) | 26<br><br>(2.6%) | 24<br><br>(2.4%) | Gwelliant* | 23<br><br>(2.3%) |
| **SCA/002 b LLEOL** | Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth ac eithrio rhai sy'n hunan ariannu. LLEOL | - | 20<br><br>(2%) | 18<br><br>(1.8%) | Gwelliant* | 17<br><br>(1.7%) |
| **SCA/007** | Canran y cleientiaid a chynllun gofal ar 31 Mawrth, y dylai eu cynlluniau gofal fod wedi'u hadolygu a gafodd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn | 77% | 85% | 83% | Cynnal | 79% |
| **SCA/019** | O'r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion sydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, y canran lle mae'r perygl wedi'i reoli (gan eithrio'r rhai sydd wedi gwrthod ymyrraeth) LLEOL | - | - | - | Gwelliant | 99% |



**Sylwadau**

**OED003 -** Perfformiad yn well na'r disgwyl ac o bosib yn adlewyrchu'r newid sydd wedi bod o ran ceisio sicrhau nad ydym yn cyfeirio achosion anaddas i dderbyn cefnogaeth Galluogi.

**OED019 -** Hwn yn fesurydd Cytundeb Canlyniadau ac wedi cwrdd â'r targed blynyddol. Mae'r cynnydd graddol sydd wedi bod dros y blynyddoedd diwethaf o bosib yn adlewyrchu'r ymdrech o fod yn ceisio arfogi unigolion i fyw bywydau yn fwy annibynnol os yn bosib.

**SCA/001 -** Mae'r gyfradd oedi wrth drosglwyddo o ysbytai am resymau gofal cymdeithasol wedi dirywio'n sylweddol eleni - cynnydd o 1.05 yn 2014/15 i 2.45. Ymddengys fod yr oedi yn fwy o broblem yn y cyswllt gydag Ysbyty Tywyn a Dolgellau na unrhyw le arall yn y Sir h.y. O'r 30 achos yn ystod y flwyddyn mae 16 o rheini yn ymwneud a'r ysbytai hyn. Er hyn, o gymharu â Chymru gyfan, perfformiad Gwynedd yn parhau'n dda (ar sail ffigyrau drafft, Gwynedd yw'r 6ed awdurdod gorau). Ar sail dadansoddiad dechreuol mae 66% o'r rhesymau dros oedi o ganlyniad i broblemau Gofal Cartref yn benodol.

**SCA/002a -** Perfformiad y mesur yma yn unol â hyn a ddisgwylir ac yn mynd i'r cyfeiriad cywir o gymharu â'r blynyddoedd cynt. Mae'r mesur yma yn eithaf traddodiadol yn ôl y gwasanaethau sy'n cael eu cyfrif, ac eleni fydd y flwyddyn olaf y byddwn yn adrodd arno'n

genedlaethol.

**SCA/002b -** Perfformiad y mesur yma yn unol â hyn a ddisgwylir ac yn mynd i'r cyfeiriad cywir o gymharu â'r blynyddoedd cynt - gyda chyfradd is o bobl hyn yn cael eu lleoli o fewn cartrefi gofal. Dyma'r flwyddyn olaf i hwn gael ei gasglu yn genedlaethol, ond er gwendidau yn y mesur, mae'n ddefnyddiol i ni weld os ydym yn lleoli llai o bobol mewn preswyl fel cyfradd o'r boblogaeth.

**SCA/002b (lleol) -** Perfformiad y mesur yma yn unol â hyn a ddisgwylir ac yn mynd i'r cyfeiriad cywir o gymharu â'r blynyddoedd cynt. Mae'r fersiwn hwn yn un lleol ac yn wahanol i'r un cenedlaethol gan ei fod yn eithrio hunan-arianwyr.

**SCA/007 -** Perfformiad anghyson ar draws y sir wedi achosi llithriad. Meirionydd - 59.7%, Dwyfor 76.3%, Arfon 87.6% ac Anableddau Dysgu yn 67.2%. Y dirywiad yn ystod 2015/16 yn amlygu eto'r prinder capasiti amlwg mewn rhai ardaloedd o'r Sir.

**SCA/019 -** Perfformiad ar hyn o bryd yn 99% ond ni fydd y ffigwr yn derfynol. Yn ystod y flwyddyn cafwyd 185 achos i gyd. 176 o'r rheini wedi eu rheoli, 7 wedi gwrthod, 1 wedi tynnu'n ôl ac 1 arall ble nad yw'r cyfeiriad wedi ei reoli - ond sy'n derbyn sylw er mwyn cadarnhau os mai diffygion data sy'n gyfrifol yntau fod yr achos heb ei reoli'n effeithiol.

ATODIAD 2 – DATA AROLYGIADAU YSGOLION GWYNEDD (Ers Ionawr 2015)

| Ysgol | Sector | Dyddiad Arolygiad | Cwestiwn Allweddol 1 | Cwestiwn Allweddol 2 | Cwestiwn Allweddol 3 | Perfformiad Presennol | Rhagolygon Gwella | Dilyniant>Sefyllfa gyfredol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Coedmawr | Cynradd | Gwanwyn 2015 | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Monitro Estyn |
| Dolgellau | Cynradd | Gwanwyn 2015<br>Gwanwyn 2016 | Digonol | Digonol | Anfoddhaol | Digonol | Anfoddhaol | Mesurau Arbennig<br>Allan o'r categori |
| Bro Plenydd | Cynradd | Gwanwyn 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod |
| Tanygrisiau | Cynradd | Gwanwyn 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Ffridd y Llyn | Cynradd | Gwanwyn 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Traeth | Cynradd | Gwanwyn 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod |
| Llanaelhaearn | Cynradd | Haf 2015 | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Monitro Estyn |
| Llanrug | Cynradd | Haf 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod |
| Llanelltyd | Cynradd | Haf 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod |
| Beddgelert | Cynradd | Haf 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod |
| Hirael | Cynradd | Haf 2015 | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Monitro Estyn |
| Morfa Nefyn | Cynradd | Hydref 2015 | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Monitro Awdurdod |
| Foelgron | Cynradd | Hydref 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Garndolbenmaen | Cynradd | Hydref 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Pont y Gof | Cynradd | Hydref 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Cymerau | Cynradd | Gwanwyn 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod |
| Nefyn | Cynradd | Gwanwyn 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Manod | Cynradd | Gwanwyn 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Craig y Deryn | Cynradd | Gwanwyn 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Llanllechid | Cynradd | Gwanwyn 2016 | Da | Da | Rhagorol | Da | Rhagorol | Dim dilyniant |
| Waunfawr | Cynradd | Haf 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilynaint |
| Dyffryn Nantlle | Uwchradd | Gwanwyn 2015 | Anfoddhaol | Digonol | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Mesurau Arbennig |
| Gader | Uwchradd | Gwanwyn 2015 | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Gwelliant Sylweddol |
| Syr Hugh Owen | Uwchradd | Gwanwyn 2016 | Digonol | Da | Da | Digonol | Da | Monitro Estyn |

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 27 Medi 2016 |
| **TEITL** | Materion Perfformiad Penodol |
| **AELODAU CABINET** | Y Cynghorydd Mair Rowlands a'r Cynghorydd Gareth Thomas |
| **PWRPAS** | Ymateb yr Aelod Cabinet Plant, Pobl Ifanc a Hamdden a'r Aelod Cabinet Addysg i faterion penodol ynglŷn â pherfformiad |

**Gofynnwyd cwestiynau penodol gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ymlaen llaw i'r Aelod Cabinet Plant, Pobl Ifanc a Hamdden a'r Aelod Cabinet Addysg. (Nid oedd cwestiynau penodol i'r Aelod Cabinet Oedolion ac Iechyd)**

**Cafwyd yr ymatebion ysgrifenedig canlynol gan yr Aelod Cabinet Plant, Pobl Ifanc a Hamdden; a'r Aelod Cabinet Addysg.**

**1 Mesurydd SCC/024 - Canran y plant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a chanddynt Gynllun Addysg Bersonol o fewn 20 diwrnod ysgol i dderbyn gofal neu ymuno ag ysgol newydd yn ystod y flwyddyn**

**<u>Cwestiwn gan y Cynghorydd Beth Lawton, Cadeirydd Pwyllgor Craffu Gwasanaethau</u>**

Mae'r perfformiad yn dangos dirywiad sylweddol o 82% yn 2014-15 I 37% yn 2015-16.

Nodir gennych fod '*meysydd gwella wedi'u hadnabod gan y Swyddog Mesur a'r Swyddogion Addysg fydd yn galluogi i gydweithio'n fwy effeithiol wrth gasglu data.*'

Mae'r Aelodau'n falch o weld eich bod yn cynllunio i wella'r perfformiad, ac yn awyddus i gael mwy o fanylion am y perfformiad siomedig a'r cynlluniau i wella'r perfformiad.

Gofynnir i'r **Aelod Cabinet Addysg a'r Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc** ymateb ar wahân i'r pwyntiau canlynol, os gwelwch yn dda.

- Esboniwch y rheswm/rhesymau am y dirywiad.
- Beth a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn 2015-16 i gyfarch y dirywiad?
- Beth yw'ch cynlluniau i gyfarch y dirywiad yn ystod 2016-17

**<u>Ymateb gan y Cynghorydd Mair Rowlands, Aelod Cabinet Plant, Pobl Ifanc a Hamdden</u>**

Hyd at 2015-16 bu i ganran y plant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a chanddynt Gynllun Addysg Bersonol o fewn 20 diwrnod ysgol i dderbyn gofal neu ymuno ag ysgol newydd yn ystod y flwyddyn fod yn gyson uchel (86.5% 2013-14, 82.1% 2014-15).

Yn ystod tymor yr haf 2015 bu i strwythur staffio'r gefnogaeth i blant mewn gofal o fewn yr adran addysg newid. Bu dryswch am gyfrifoldeb pwy oedd hysbysu ysgolion am yr angen i

lunio cynlluniau unigol a hefyd pwy oedd yn eu casglu a'u gwirio. Fe gododd y mater yn y Panel Rhiantu Corfforaethol a chafodd yr adran Addysg a Phlant a Chefnogi Teuluoedd gyfarwyddyd i gydweithio'n agosach ar wella'r dangosydd a sicrhau ansawdd y Cynlluniau Addysg Bersonol.

Yn ystod y flwyddyn cytunwyd fod swyddog addysg yn ymgymryd ar ddyletswydd o hysbysu ysgolion Gwynedd am yr angen i lunio cynlluniau unigol ynghyd a sicrhau fod y cynlluniau yma'n cael ei dychwelyd o fewn 20 diwrnod. Lle bo disgybl yn cael ei leoli'n all sirol mae'r swyddog addysg plant mewn gofal yn sicrhau'r un drefn, ond ar adegau mae'n fwy o her derbyn y cynlluniau yma gan ysgolion yn all sirol yn amserol.

Rwyf yn falch o weld cynnydd sylweddol yn y canran o blant mewn gofal a chanddynt Gynllun Addysg Bersonol o fewn 20 diwrnod ar ddiwedd 2015/16, roedd y perfformiad yn isel iawn ar 37.9%. Rwy'n falch o ddweud bod y ffigwr wedi codi i 72.7% (Gorffennaf 2016). Yn ystod 2016-17 rydym yn rhagweld y bydd y ganran yn dychwelyd i'r ffigyrau a welwyd cyn tymor yr haf 2015. Mae'r swyddog addysg yn monitro'r ffigwr yn wythnosol. Bydd yr adran addysg a gwasanaethau plant a phobl ifanc yn parhau i fonitro'r ffigwr yn chwarterol.

**Ymateb gan y Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Addysg**

Hyd at 2015-16 bu i ganran y plant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a chanddynt Gynllun Addysg Bersonol o fewn 20 diwrnod ysgol i dderbyn gofal neu ymuno ag ysgol newydd yn ystod y flwyddyn fod yn gyson uchel.

Yn ystod tymor yr haf 2015 bu i strwythur staffio'r gefnogaeth i blant mewn gofal newid. Bu dryswch am gyfrifoldeb pwy oedd hysbysu ysgolion am yr angen i lunio cynlluniau unigol a hefyd pwy oedd yn eu casglu a'u gwirio.

Yn ystod y flwyddyn cytunwyd fod swyddog addysg yn ymgymryd â'r ddyletswydd o hysbysu ysgolion Gwynedd am yr angen i lunio cynlluniau unigol ynghyd â sicrhau fod y cynlluniau yma'n cael ei dychwelyd o fewn 20 diwrnod. Lle bo disgybl yn cael ei leoli'n all sirol mae'r swyddog addysg plant mewn gofal yn sicrhau'r un drefn.

Yn ystod 2016-17 yr ydym yn rhagweld y bydd y ganran yn dychwelyd i'r ffigyrau a welwyd cyn tymor yr haf 2015. Mae'r swyddog addysg yn monitro'r ffigwr yn wythnosol. Bydd yr adran addysg a gwasanaethau plant a phobl ifanc yn parhau i fonitro'r ffigwr yn chwarterol.

---

**2 Mesurydd EDU/008a – Nifer o waharddiadau parhaol yn ysgolion cynradd yn y flwyddyn academaidd**

**Cwestiwn gan y Cynghorydd Beth Lawton, Cadeirydd Pwyllgor Craffu Gwasanaethau**

Mae'r perfformiad yn dangos dirywiad sylweddol o 3 gwaharddiad am y tro cyntaf yn ystod Blwyddyn Addysgol 2014-15.

Nodir gennych ' *Mae diffyg darpariaeth arbenigol yn ffactor yn y cynnydd yma. Yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn cychwyn darpariaeth unedau arbenigol o fewn ysgolion er mwyn cynnal y disgyblion mwyaf dwys yn ymddygiadol ac yn emosiynol*.'

Mae'r Aelodau'n falch o weld eich bod yn cynllunio i wella'r perfformiad, ac yn awyddus i gael mwy o fanylion am y perfformiad siomedig a'r cynlluniau i wella'r perfformiad.

Gofynnir i'r **Aelod Cabinet Addysg** ymateb i'r pwyntiau canlynol, os gwelwch yn dda.

- Esboniwch y rheswm/rhesymau am y dirywiad.
- Beth a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn addysgol 2014-15 i gyfarch y dirywiad?
- Beth oedd y perfformiad ar gyfer y flwyddyn addysgol 2015-16?

**<u>Ymateb y Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Addysg</u>**

Bu i uned gyfeirio disgyblion cynradd gau yn ystod 2014-15 yn dilyn honiadau amddiffyn plant. Oherwydd hyn nid oedd opsiynau ar gyfer lleoli'r disgyblion yma am gyfnodau byr fyddai fel arfer wedi lleihau'r siawns o waharddiadau parhaol.

Oherwydd natur yr ymchwiliad amddiffyn plant mae'n parhau i fod yn anodd gwneud unrhyw newidiadau parhaol i'r gwasanaeth cynnal ymddygiad cynradd.

Yn ystod y flwyddyn addysgol 2014-15 lleolwyd nifer o ddisgyblion a fyddai'n arferol wedi bod o fewn darpariaeth uned yn ôl o fewn ysgolion prif lif. Gwnaethpwyd hyn gyda chymorth ychwanegol ar ffurf cymorthyddion dosbarth. Ar gyfer mwyafrif y disgyblion a oedd o fewn yr uned gyfeirio bu i'r gefnogaeth yma lwyddo gyda'r disgyblion yn integreiddio'n llwyddiannus.

Yn ystod 2015-16 sefydlwyd fforwm cynnal ymddygiad er mwyn cyfeirio gwaith yr athrawon a chymorthyddion arbenigol. Bu i nifer o gyfeiriadau newydd ac achosion i'w trafod yn fforwm yma godi i 93, cyn disgyn i 60 ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.

Ar gyfer y flwyddyn addysgol 2015-16 bu i nifer y gwaharddiadau parhaol disgyn yn ôl i 0 .

---

**3 Gwasanaethau Ataliol I Blant a Phobl Ifanc Bregus (P9)**

**<u>Cwestiwn gan y Cynghorydd Beth Lawton, Cadeirydd Pwyllgor Craffu Gwasanaethau</u>**

Gofynnir i'r **Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc a Hamdden** rannu manylion y *Rhaglen Asesiad Anghenion* gyda'r Aelodau.

**<u>Ymateb gan y Cynghorydd Mair Rowlands, Aelod Cabinet Plant, Pobl Ifanc a Hamdden</u>**

Pwrpas y prosiect yma yw gosod cyfeiriad a sefydlu blaenoriaethau ar gyfer agenda ataliol yng Ngwynedd, gan weithio yn amlasiantaethol er mwyn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ein hymdrechion yn gwneud y pethau cywir yn y llefydd cywir.

Mae'r Adran Plant a Theuluoedd wedi ffurfio Grŵp Tasg amlasiantaethol i arwain ar y gwaith gan ymateb i'r asesiad anghenion a bydd y cyfarfod cyntaf yn cymryd lle ar yr 21ain o Fedi (fe rown adroddiad llafar yn y cyfarfod ar y 27ain) . Y grŵp yma fydd yn gyfrifol am roi cyfeiriad i'r gwaith a llunio cynllun gweithredu. Un rhan bwysig o waith y Grŵp Tasg a'r cynllun gweithredu fydd edrych ar ail-gomisiynu gwasanaethau gyda'r rownd nesaf o arian Teuluoedd yn Gyntaf.

Mae Ymyrraeth gynnar yn rhan greiddiol o gynllunio tymor hir

*"Breaking the inter-generational cycle of dysfunction and underachievement is the greatest prize that Early Intervention can offer"* – (Graham Allen *Early Intervention Next Steps* Ionawr 2011)

**CYFLWYNIAD**

## 1. Diffinio Atal ac Ymyrryd yn Fuan

**1.1.** Atal

Mae modd diffinio atal ar wahanol lefelau e.e. atal rhywbeth rhag digwydd yn y cychwyn cyntaf neu atal plentyn rhag cael ei roi yn y system gofal. Yn gyffredinol, gall atal fod yn ddull neu weithgaredd sy'n ceisio gostwng neu rwystro problemau penodol neu ragweladwy rhag digwydd ac annog canlyniadau neu ymddygiadau a ddymunir.

**1.2.** Ymyrryd yn fuan

Caiff y rhan fwyaf o blant eu magu yn eu teuluoedd gan gael gofal a'r anogaeth a'r cyfeiriad cywir sydd yna'n esgor ar ganlyniadau da wrth iddynt dyfu i fyny. Mae yno blant eraill sy'n byw mewn teuluoedd y mae angen ychydig o gefnogaeth arnynt ond nid digon i gwrdd â'r meini prawf i gael ymyrraeth y gwasanaethau cymdeithasol. Efallai nad oes gan y teuluoedd hyn yr hyder neu'r wybodaeth i chwilio am gefnogaeth i gynorthwyo i ddatrys eu problemau felly mae eu problemau'n gwaethygu ac, mewn rhai achosion, yn arwain at y gwasanaethau cymdeithasol yn ymyrryd. Bydd adnabod y teuluoedd hyn yn gynnar a rhoi iddynt y gefnogaeth y mae ei hangen arnynt yn gostwng y perygl hwn o broblemau'n gwaethygu. Ymyrryd yn fuan yw hyn, oherwydd caiff y teulu eu cefnogi i rwystro'u problemau rhag gwaethygu a'u cynorthwyo i gael at gefnogaeth a datblygu'r gallu i wrthsefyll problemau'r dyfodol fel nad ydynt yn datblygu a gorfod defnyddio gwasanaethau mwy costus sy'n gysylltiedig ag ymyraethau'r gwasanaethau cymdeithasol.

**1.3.** At ddibenion y ddogfen hon, caiff atal ac ymyrryd yn fuan eu diffinio fel a ganlyn:

"ymyrryd yn gynnar neu cyn gynted ag sy'n bosib er mwyn mynd i'r afael â phroblemau a gyfyd i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd neu gyda phobl sydd mewn mwyaf o berygl o ddatblygu problemau." Grasping the Nettle: early intervention for children, families and communities - Y Ganolfan dos Ragoriaeth a Chanlyniadau

## 2. Pwrpas ac Amcanion

Asesiad o anghenion yw hwn sy'n ymwneud ag atal ac ymyrryd yn fuan ar gyfer plant a'u teuluoedd. Bydd yn rhoi argymhellion o'r hyn sydd ei angen i ychwanegu at wasanaethau atal ac ymyrryd yn fuan yng Ngwynedd a datblygu hyn.

Diben yr asesiad o anghenion yw nodi

- Darpariaeth gyfredol
- Meysydd angen
- Bylchau mewn darpariaeth gwasanaeth
- Yr hyn y dylem fod yn ei gyflawni ac argymhellion ynghylch sut i wneud hyn

Bydd y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gymorth gyda gwaith datblygu strategaeth Atal ac Ymyrryd yn Fuan i Wynedd gan lunio cynllun tymor hir ar gyfer gwasanaethau ataliol mewn partneriaeth â'r trydydd sector a phartneriaid statudol.

## 3. Deddfwriaeth

Gweithredir ar ddau ddarn allweddol o ddeddfwriaeth sy'n gwneud ymyrryd yn fuan ac atal yn ofyn statudol. Isod ceir crynodeb o feysydd allweddol y Deddfau

### 3.1. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf)

Mae'r Ddeddf yn ymwneud ag unigolion o bob oed, mae'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n arfer swyddogaethau dan y ddeddf i hyrwyddo llesiant pobl y mae angen gofal a chefnogaeth arnynt a gofalwyr y mae angen cefnogaeth arnynt. Cyfeirir at hyn fel 'y ddyletswydd llesiant'. Ymhlith y rhai sy'n 'arfer swyddogaethau' dan y Ddeddf mae Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac asiantaethau statudol eraill. Mae'r Ddeddf yn pwysleisio bod angen gweithio gyda phobl i sicrhau eu llesiant a'u hatal rhag bod angen gofal a chefnogaeth.

Diffinnir llesiant fel:

- Iechyd corfforol a meddyliol a llesiant emosiynol
- Gwarchodaeth rhag camdriniaeth ac esgeuluster
- Addysg, hyfforddiant a hamdden
- Perthynas ddomestig, deuluol a phersonol
- Cyfraniad a wneir i gymdeithas
- Sicrhau hawliau
- Llesiant cymdeithasol ac economaidd
- Llety addas i fyw ynddo
- Datblygiad corfforol, meddyliol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol (Plant yn unig)
- Llesiant fel y caiff y gair hwnnw ei ddehongli at ddibenion Deddf Plant 1989. (Plant yn unig)

Dyma egwyddorion sylfaenol y Ddeddf:

- **Llais a rheolaeth -** rhoi'r unigolyn a'i anghenion wrth galon ei ofal, a rhoi iddo lais a rheolaeth wrth ddod i ganlyniadau sy'n ei gynorthwyo i gael llesiant.

- **Atal ac ymyrryd yn fuan-** cynyddu gwasanaethau ataliol yn y gymuned er mwyn lleihau i'r eithaf ar achosion o angen critigol yn gwaethygu.

- **Llesiant -** cefnogi pobl i gyflawni eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chefnogaeth.


- **Cyd-gynhyrchu -** annog unigolion i gymryd mwy o ran yng ngwaith llunio a chyflawni gwasanaethau

- **Cydweithredu** – partneriaeth gref yn gweithio rhwng sefydliadau

Ceir ffocws clir ar ailgydbwyso cefnogaeth o'r ymyrraeth fwy costus a dwys i atal ac ymyrryd yn fuan. Bydd lefelau uwch o wasanaethau atal yn y cymunedau yn lleihau i'r eithaf ar anghenion sy'n gwaethygu i fod ar lefel gritigol.

Yn y diagram isod gwelir lle mae'r Ddeddf yn bwriadu i wasanaethau fod yn gweithio. Fel y gwelir, mae'r llinell ymhellach ymlaen yn y sbectrwm gofal.

**Diagram 1: Sbectrwm Gofal a Chefnogaeth**




Mae'n gwneud newidiadau arwyddocaol i'r modd y bydd plant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi, gan flaenoriaethu atal ac ymyrryd yn fuan sydd bellach yn ddyletswydd statudol. O'r herwydd, mae'n diddymu nifer o gyfreithiau a chanllawiau blaenorol sy'n ymwneud â gofal a chefnogaeth gan ei ddisodli yn y Ddeddf. Yn sgil hyn, Nid yw Rhan 3 Deddf Plant 1989 'Cefnogaeth Awdurdod Lleol i Blant a'u Teuluoedd' yn berthnasol mwyach gan ei bod bellach wedi'i hymgorffori yn y Ddeddf.

Mae'r fframwaith statudol newydd yn cynnwys tair prif elfen sydd;

- Yn y ddeddf ei hun,
- Yn y rheoliadau a wneir dan y Ddeddf ac
- Mewn codau ymarfer a chanllawiau statudol ategol.

Gweithredir ar y Ddeddf 6 Ebrill 2016. Bydd goblygiadau sylweddol i'r Awdurdod mewn perthynas â gweithredu'r Ddeddf er mwyn sicrhau fod y newidiadau i waith cyflawni'r gwasanaethau'n cwrdd â gofynion y Ddeddf.

**3.2. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** (Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol)

Rhydd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus penodol i gyflawni'r nodau 'llesiant'. Mae iddi hefyd elfen atal a bydd yn disgwyl y bydd cyrff cyhoeddus yn gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd i roi ansawdd dda i fywydau cenedlaethau'r dyfodol. Mae disgwyl fod y sector cyhoeddus yn ystyried yr effaith tymor hir ar y penderfyniadau a wnânt.

Dyma'r nodau llesiant sydd i'w cyflawni:

- Cymru ffyniannus - yn ymwneud ag ystyried newid hinsawdd, addysg, yr economi a chyflogaeth
- Cymru gadarn - gwella amgylcheddau naturiol bioamrywiol yn cefnogi cadernid cymdeithasol, economaidd ac ecolegol gyda'r gallu i addasu a newid
- Cymru iachach – gwneud y mwyaf o les corfforol a meddyliol pobl
- Cymru fwy cyfartal - Cymdeithas sy''n ei gwneud yn bosib i bobl gyflawni eu potensial waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau
- Cymru cymunedau cydlynol – Cymunedau deniadol, hyfyw, diogel ac wedi'u cysylltu'n dda
- Cymru ac iddi ddiwylliant bywiog a Chymraeg llewyrchus – Cymdeithas sy'n annog ac yn gwarchod dull o weithredu'n gydgysylltiedig o ran diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg
- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang - yn ystyried a yw'r pethau y mae'n eu gwneud yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i lesiant byd-eang.

Wrth ymgymryd â'u dyletswyddau, mae disgwyl y bydd y cyrff cyhoeddus yn gweithio mewn cydweithrediad y tu mewn i'w gwasanaeth a'r tu allan iddo yn ogystal â sicrhau y byddir yn dwyn i mewn bobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant.

Mae'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy'n datgan sut mae sefydliadau'n cyflawni eu dyletswyddau dan y Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Er mwyn dangos eu bod wedi defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ceir pum peth y mae angen i gyrff cyhoeddus eu hystyried. Dyma nhw:

- **Tymor hir** – Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i gwrdd ag anghenion tymor hir hefyd
- **Atal** – Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu gynorthwyo cyrff cyhoeddus i gwrdd â'u hamcanion
- **Integreiddio** – Ystyried sut y gallai amcanion llesiant y corff cyhoeddus gael effaith ar bob un o'r nodau llesiant, eu hamcanion neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill
- **Cydweithredu** – Cydweithredu gydag unrhyw berson arall (neu ag unrhyw rannau o'r corff ei hun) a allai gynorthwyo'r corff i gwrdd â'i anghenion llesiant
- **Dwyn i mewn** – Pwysigrwydd dwyn i mewn bobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant a sicrhau fod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu

Bellach gweithredir ar Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol o Ebrill 2016 ac mae elfennau atal, integreiddio a chydweithredu'n rhedeg law yn llaw â Gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithaso a Llesiant (Cymru) 2014.

**4. Sylfaen Tystiolaeth**

Mae cryn ymchwil o'r Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol sy'n tystio i fanteision ymyrryd yn fuan. Cydnabyddir hefyd fod y manteision cost hefyd yn sylweddol well na gwasanaethau sy'n ymyrryd yn hwyrach gan beri mwy o ymyraethau costus.

Gall ymyrraeth ddechrau cyn geni plentyn a bydd angen iddi barhau hyd oni bydd y plentyn yn oedolyn. Dadleua Graham Allen er y gallai ymyrryd yn fuan cyn tair oed pan fo'r ymennydd yn datblygu fod â'r effaith fwyaf effeithiol, rhaid i ni sicrhau fod ymyraethau ar gael o 0 – 18 er mwyn torri cylchoedd o drafferthion sy'n pontio'r cenedlaethau:

*'The 0–18 cycle needs to be addressed over and over again until the repetition of dysfunction from one generation to another is finally broken.'*[1]

*'Early Intervention breaks the all too common cycle in which people who grow up with dysfunctional behaviours and lifestyles transmit them to their children, who, in turn, transmit them to their grandchildren. Early Intervention offers a real chance to break this destructive pattern and of raising children to become good parents and carers in turn. Breaking the inter-generational cycle of dysfunction and underachievement is the greatest prize that Early Intervention can offer.'*[2]

Yn ei hadroddiad blynyddol yn 2014/15 mae Prif Swyddog Meddygol Cymru wedi gwneud '1000 diwrnod cyntaf' bywyd plentyn yn flaenoriaeth wrth gyflwyno 'sylfaen gref ar gyfer cenedlaethau heddiw ac yfory'. Mae'r flaenoriaeth wedi'i seilio ar dystiolaeth y gall cael pethau'n iawn yn 1000 diwrnod cyntaf bywyd plentyn dorri'r cysylltiad rhwng tlodi a chanlyniadau bywyd gwael. Mae'r 1000 diwrnod yn ymestyn o'r cyfnod cenhedlu i ben-blwydd y plentyn yn ddwyflwydd oed gan mai hwn yw'r cyfnod y mae ymennydd y plentyn yn datblygu gyflymaf gan dyfu o 25% o faint ei ymennydd yn oedolyn ar ei enedigaeth i 75% o faint ei ymennydd yn oedolyn erbyn y bydd yn cael ei ben-blwydd yn ddwyflwydd oed[3]. Mae'r hyn sy'n digwydd yn y ddwy flynedd gyntaf yn cael effaith sylweddol ar ddatblygiad sgiliau gwybyddol, sgiliau cymdeithasol a gwrthsefyll.

Bydd yr hyn y mae plentyn yn mynd trwyddo yn gynnar yn ei fywyd yn cael effaith ar ei iechyd, yn gymdeithasol ac yn emosiynol yn y dyfodol. Yn ddiweddar, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynnal astudiaeth Gymreig yn seiliedig ar dros 2000 o oedolion yn byw yng Nghymru gan edrych ar y Profiadau Niweidiol a gawsant yn ystod Plentyndod (PNP) a'r effaith y mae'r rhain wedi'u cael ar eu hiechyd a'u hymddygiad yn hwyrach ymlaen. Yr hyn yw PNP yw profiadau sy'n digwydd yn ystod plentyndod sy'n brifo plentyn neu'n cael effaith arno trwy'r amgylchedd y mae'n byw ynddo. Dyma'r PNP y rhoddir ystyriaeth iddynt yn yr adroddiad

- Cam-drin rhywiol
- Cam-drin corfforol
- Cam-drin geiriol

[1] Early Intervention: Next Steps – Graham Allen MP Ionawr 2011 Pennod 1.
[2] Ibid
[3] Adroddiad Blynyddol 2014/15 Prif Swyddog Meddygol Cymru – Iachach, Hapusach, Tecach

- Trais domestig
- Rhieni'n gwahanu
- Salwch meddwl (rhiant neu rywun sy'n byw ar yr aelwyd)
- Camddefnyddio alcohol a chyffuriau
- Rhywun oedd yn byw ag o bellach yn y carchar

Canfuwyd mai'r gwaeth oedd y canlyniadau mewn bywyd yn hwyrach ymlaen, po fwyaf o PNP a gafwyd:

*'Children who experience stressful and poor quality childhoods are more likely to adopt health-harming behaviours during adolescence which can themselves lead to mental health illnesses and diseases such as cancer, heart disease and diabetes later in life.*

*Experiencing ACEs means individuals are more likely to perform poorly in school, more likely to be involved in crime and ultimately less likely to be a productive member of society*

*….children of those affected by ACEs are at increased risk of exposing their own children to ACEs….Consequently, preventing ACEs in a single generation or reducing their impact on children can benefit not only those individuals but also future generations across Wales.'*[4]

Bydd rhoi cefnogaeth ar draws yr ystod oedran yn galluogi ac yn cefnogi plant a phobl ifanc i wneud dewisiadau bywyd gwell ac yn cael effaith ar eu rôl yn y dyfodol fel rhieni.

Mae manteision cymdeithasol sylweddol i ymyrryd yn fuan, er enghraifft, o ran gwelliant mewn ymddygiad, llai o droseddu treisgar, cyrhaeddiad addysgol uwch, gwell cyfleoedd cyflogaeth a rhiantu mwy cyfrifol ar y genhedlaeth nesaf. Os byddwn yn parhau i ymyrryd yn hwyrach, bydd y gost yn parhau i gynyddu i awdurdodau lleol, yr heddlu, iechyd, y system farnwrol (llysoedd, carchardai ac ati) a bydd y cylch o ganlyniadau gwael sy'n pontio'r cenedlaethau'n parhau. Mae ymyrryd yn fuan yn fuddsoddiad fydd yn arbed ar ymyraethau mwy costus yn hwyrach ymlaen.

## 5. Mapio Darpariaeth Gyfredol

Mae'r ddarpariaeth gyfredol yng Ngwynedd i blant a theuluoedd yn amrywiol ac yn croesi amrywiol wasanaethau ac asiantaethau o awdurdod lleol, iechyd a'r trydydd sector. Mae'r ddarpariaeth gyfredol wedi'i mapio ac mae manylion llawn y gwasanaethau a'r ddarpariaeth berthnasol ar gael yn Atodiad 1.

## 6. Yr Arfer Effeithiol Gyfredol

[4] 'Adverse Childhood Experiences and their impact on health harming behaviours in Welsh adult population': Astudiaeth Gymreig ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, Iechyd Cyhoeddus Cymru 2015

Yn seiliedig ar dystiolaeth o gyflawni'r gwasanaethau cyfredol a ddarperir, amlinellir isod grynodeb o arfer effeithiol. Mae'r elfennau o'r gwasanaethau hyn yn i blant a theuluoedd allweddol gael cefnogaeth lwyddiannus.

### 6.1. Gweithio'n amlasiantaethol a Rhannu Gwybodaeth

Wrth roi cefnogaeth i deuluoedd, mae gweithio'n amlasiantaethol a rhannu gwybodaeth yn mynd law yn llaw. Wrth weithio gyda'i gilydd a rhannu gwybodaeth am y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu neu'n gallu ei ddarparu i deuluoedd, mae asiantaethau'n sicrhau nad oes dyblygu ac nad yw teuluoedd yn cael eu llethu gan nifer o wahanol wasanaethau'n gweithio gyda nhw'r un pryd.

6.1.1. Mae Teuluoedd yn Gyntaf wedi llwyddo i gyflawni cefnogaeth amlasiantaethol trwy:

Y Gofyn am Gonsortia - Roedd gwaith comisiynu ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau weithio gyda'i gilydd mewn consortia wrth ymateb i dendrau. Darparwyr yn gweithio mewn consortia gyda darparwr arweiniol sy'n dosbarthu cyfeiriadau i'r consortia'n gweithio gyda'i gilydd i roi cefnogaeth a rhannu gwybodaeth. Mae hyn wedi arwain atynt yn creu perthynas weithio dda na fyddai, o bosib, wedi datblygu, heb fod mewn consortia.

Panel Neilltuo - Cyfarfodydd pob pythefnos gydag arweinyddion consortia a Gyda'n Gilydd i drafod a neilltuo cyfeiriadau. Rhennir gwybodaeth am deuluoedd i sicrhau y darperir y gwasanaeth mwyaf priodol a gŵyr bob asiantaeth pwy sy'n gweithio gyda'r teulu a pha bryd.

Cyfarfodydd adolygu - cynhelir cyfarfodydd adolygu gyda'r teulu a'r gwasanaethau sy'n gweithio gyda nhw i drafod cynnydd. Gŵyr pawb ym mha gyfnod y mae'r gefnogaeth a sut mae'r teulu'n dod yn ei flaen. Mae teuluoedd wedi gweld gwerth i'r cyfarfodydd hyn gan y teimlant eu bod wedi'u grymuso ac yn gallu cyfrannu.

6.1.2. Tîm Amlasiantaethol yn cynnwys iechyd, yr awdurdod lleol a gwasanaethau'r trydydd sector yw Dechrau'n Deg, yn gweithio gyda'i gilydd ac yn gallu cael at gefnogaeth berthnasol o fewn y rhaglen yn haws.

6.1.3. Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd:

Tîm amlasiantaethol yn cynnwys staff iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol sydd wedi'u cydleoli ac yn rhoi arbenigedd i gynorthwyo teuluoedd a chydweithwyr.

Maent yn gallu rhannu gwybodaeth a neilltuo'r aelod o'r tîm mwyaf priodol i weithio gyda theulu'n seiliedig ar anghenion y teulu.

6.1.4. Mae Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid wedi sefydlu panel amlasiantaethol i drafod a rhannu gwybodaeth sy'n ymwneud â phobl ifanc sydd mewn perygl o beidio â bod mewn Addysg, Cyflogaeth neu hyfforddiant, o'r enw 'Panel Ymgysylltu Pobl Ifanc Ôl 16'. Partneriaeth amlasiantaethol yw'r panel a ddatblygwyd i adnabod y bylchau a'r rhwystrau sy'n atal pobl ifanc rhag mynd i addysg, cyflogaeth a/neu hyfforddiant.

Mae'r Panel Ymgysylltu 16+ yn rhannu gwybodaeth yn unol â'r protocol rhannu gwybodaeth leol sydd wedi'i gymeradwyo gan WASPI a'i lofnodi gan yr holl bartneriaid allweddol.

Mae gan y panel enghreifftiau o arfer ac effaith dda o ran adnabod y gefnogaeth / ddarpariaeth iawn i bobl ifanc sydd â rhwystrau lluosog trwy weithio'n gydlynol i sicrhau canlyniadau. Mae pob partner yn rhagweithiol wrth ddilyn i fyny pwyntiau gweithredu a adnabuwyd yn eu sefydliad ac yn cefnogi'r dull o weithredu'n amlasiantaethol. Mae'r holl adnoddau'n statudol ac yn ychwanegol at dasgau dydd i ddydd

Rhannu gwybodaeth - mae'r Panel Ymgysylltu 16+ yn rhannu gwybodaeth yn unol â'r protocol rhannu gwybodaeth leol sydd wedi'i gymeradwyo gan WASPI a'i lofnodi gan yr holl bartneriaid allweddol.

6.1.5. Mae gan TRAC dîm o staff amlasiantaethol sydd wedi gallu cwrdd ag anghenion pobl ifanc yn yr ysgol y mae angen eu cefnogaeth arnynt fel nad ydynt yn cael eu hatal rhag mynd i addysg, cyflogaeth a/neu hyfforddiant.

Panel amlasiantaethol sy'n cyfarfod i adnabod y rhai hynny sy'n mynd yn eu blaenau i gael cefnogaeth Trac, sy'n cynnwys gwasanaethau perthnasol sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd i leihau dyblygu.

**6.2. Adnabod yn fuan**

Mae adnabod yn fuan yn allweddol i roi cefnogaeth yn fuan i atal materion rhag gwaethygu a sicrhau eu bod yn datblygu'n llwyddiannus un ai fel teulu neu fel plant yn datblygu i gael y canlyniadau gorau i'w dyfodol.

Mae arfer effeithiol yn ei lle yn y rhaglenni/prosiectau a ganlyn:

6.2.1. Mae gan TRAC system adnabod yn fuan benodol i adnabod pobl ifanc ym mlynyddoedd 7 i 13 sydd mewn perygl o beidio â mynd i addysg, cyflogaeth a/neu hyfforddiant. Unwaith y maent wedi'u hadnabod cânt eu trafod yn y panel amlasiantaethol i adnabod y rhai hynny sy'n mynd yn eu blaenau i gael cefnogaeth Trac.

6.2.2. Mae gan Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid system adnabod yn fuan a ddatblygwyd gan y Cydlynwyr Ymgysylltu a Datblygu o chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru a adwaenir fel dull proffilio dysgwyr (DPD). Mae'r DPD yn darparu data ar ddysgwyr sydd mewn perygl o beidio â mynd i addysg, cyflogaeth a/neu hyfforddiant. unwaith y byddant yn 16. Mae hyn yn ei gwneud yn bosib iddynt flaenoriaethu adnoddau a chefnogaeth briodol ar gyfer y dysgwyr a adnabuwyd er mwyn lleihau'r risg o beidio â mynd i addysg, cyflogaeth a/neu hyfforddiant.

6.2.3. Mae Dechrau'n Deg yn darparu gwasanaethau i bob plentyn hyd at bedair oed sy'n byw yn ardaloedd mwy difreintiedig y sir. Trwy ddarparu'r gwasanaeth hwn yn yr ardaloedd mwy difreintiedig mae'n rhoi gwasanaethau i deuluoedd a allai fod yn cael trafferthion un ai cyn iddynt ddechrau neu wrth iddynt ddechrau.

6.2.4. Mae Tîm Atal y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi gweithio gyda phobl ifanc sydd wedi'u hadnabod fel pobl sydd mewn perygl o wynebu'r system cyfiawnder ieuenctid neu sydd yn y system am y tro cyntaf. Maent yn dîm

amlsgiliau sy’n gweithio gyda’r person ifanc i’w arallgyfeirio rhag mynd i’r system cyfiawnder troseddol yn y dyfodol.

### 6.3. Gweithiwr Pwrpasol

Mae bod â pherson y gall y teulu, y plentyn neu’r person ifanc greu perthynas ag o ac ymddiried ynddo wedi bod yn elfen allweddol o’r gefnogaeth a ddarperir. Gweithredwyd hyn yn:

6.3.1. Teuluoedd yn Gyntaf gyda chydlynydd wedi’i neilltuo i’r teulu er mwyn cynnal yr asesiad gyda nhw, datblygu eu cynllun a chydlynu’r gwasanaeth y maent yn ei gael. Mae teuluoedd wedi gweld gwerth yn rôl y cydlynydd fel pwynt cyswllt sengl os oes ei angen arnynt i’w cefnogi a’u cynghori trwy broses y Tîm o Amgylch y Teulu.

6.3.2. Mae’r tîm Trothwy Gofal wedi bod yn llwyddiannus wrth ddefnyddio gweithiwr teulu pwrpasol sydd wedi’i neilltuo i weithio’n ddwys gyda nhw am hyd at wyth wythnos ar sail un i un. Mae gan y tîm yr amser i greu perthynas gyda’r teulu gan ddod i’w hadnabod a chreu ymddiriedaeth sy’n cynorthwyo i allu adnabod beth yw anghenion y teulu a gweithio gyda nhw i ddatrys materion a gwella eu sgiliau.

6.3.3. Mae gan y tîm amlasiantaethol Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd weithiwr sydd wedi’i neilltuo i’r teulu i roi cefnogaeth ddwys yn chwe wythnos gyntaf y ddarpariaeth. Mae’r gweithiwr, fel yn y tîm Ymyl Gofal, yn gallu creu perthynas dda gyda’r teulu, yn deall y gefnogaeth sy’n ofynnol iddynt a gweithio gyda nhw i wella’u sefyllfa.

6.3.4. Defnyddia Trac rôl gweithiwr allweddol i weithio gyda’r person ifanc ac yr adnabuwyd bod angen cefnogaeth arno. Mae’r gweithiwr allweddol yn gweithio gyda’r unigolyn ac yn datblygu cefnogaeth benodol gydag o i gwrdd â’i anghenion penodol o. Mae hyn yn gweithio’n dda gyda phobl ifanc gan fod ganddynt anghenion unigol na roddwyd, o bosib, sylw iddynt mewn grŵp.

6.3.5. Darpara Teulu Ni wasanaethau hyblyg un i un gan ‘fydi’ teulu yn y cartref. Roeddynt yn gallu treulio amser gyda’r teulu, yn gweithio gyda nhw i adnabod eu hanghenion a chwrdd â nhw lle bo modd e.e. mynd i grwpiau, cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol.

### 6.4. Gweithio gyda’r Teulu Cyfan

Mae rhoi cefnogaeth i’r teulu cyfan yn allweddol i lwyddiant wrth ymyrryd yn fuan gan na fydd gweithio gydag un aelod yn cael yr effaith lawn.

6.4.1. Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn cyflawni Tîm o amgylch y Teulu trwy Gyda’n Gilydd gan weithio gyda’r teulu cyfan a nodi cryfderau pob aelod a’r hyn y dymunant ei newid. Yn seiliedig ar hyn, bydd y Tîm o amgylch y Teulu yn rhoi’r gefnogaeth yn ei lle un ai fel teulu neu fel unigolion gan sicrhau eu bod wedi’i chydlynu.

6.4.2. Mae’r tîm Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd a Throthwy Gofal hefyd yn gweithio gyda’r teulu cyfan gan weithio gyda’r rhieni a’r plentyn / person ifanc i’w cadw gyda’i gilydd neu i ddychwelyd plentyn / person ifanc i uned deuluol. Wrth weithio gyda’r teulu cyfan, sicrheir y cefnogir bob elfen o’r

teulu i wella eu hamgylchiadau.

6.4.3. Mae Trac yn gweithio gyda'r person ifanc ond, lle bo angen, bydd yn gweithio gyda'r teulu i sicrhau y caiff y gwaith a wneir gyda'r person ifanc ei atgyfnerthu yn y cartref.

### 6.5. Pwynt Mynediad Sengl

Mae bod â phwynt mynediad sengl ar gyfer cefnogaeth yn bwysig i deuluoedd ac ymarferwyr fel eu bod yn gwybod lle gallant fynd am wybodaeth a chefnogaeth os bydd gofyn.

6.5.1. Mae gan Deuluoedd yn Gyntaf bwynt mynediad sengl i'w gwasanaethau trwy Gyda'n Gilydd sy'n cydlynu'r cyfeiriadau a'r neilltuo trwy'r panel dyrannu.

6.5.2. Mae gan Trac a Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid ill dau banelau lle byddant yn trafod y bobl ifanc yr adnabuwyd eu hanghenion. Er nad yw hwn yn bwynt cyswllt, mae'n banel sengl lle caiff yr holl bobl ifanc eu trafod gan amlasiantaethau.

## 7. Bylchau mewn gwasanaeth

Mae cyflawni Teuluoedd yn Gyntaf dros y tair blynedd diwethaf wedi arwain at gasglu data a gwybodaeth sylweddol sy'n ymwneud â theuluoedd sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth ac anghenion y teuluoedd hynny. O'r herwydd, rydym mewn sefyllfa lawer gwell i allu adnabod pa wasanaethau sy'n ofynnol i gwrdd â'u hanghenion ac ymyrryd yn fuan. Ynghyd â gwybodaeth gan ddarparwyr Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol adnabuwyd rhai bylchau ac anghenion.

### 7.1. Cymorth iechyd meddwl lefel isel

Mae Gyda'n Gilydd wedi adnabod bod angen cymorth gydag iechyd meddwl lefel isel. Mae gan nifer o'r teuluoedd y maent wedi gweithio â nhw riant ag anghenion iechyd meddwl lefel isel sy'n ymwneud yn bennaf â phoen meddwl ac iselder. Oherwydd nad yw'r anghenion ar lefel sy'n eu gwneud yn gymwys am wasanaethau iechyd meddwl oedolion, nid ydynt yn gallu cael y cymorth perthnasol.

**Y Ddarpariaeth gyfredol**:

Darpara Mind (elusen iechyd meddwl) rai gwasanaethau a ddefnyddir i gefnogi rhai rhieni ac mae'r gwasanaethau cwnsela a ddarperir gan GISDA wedi bod yn effeithiol ond mae'r ddau'n gyfyngedig. Mae Barnardos yn darparu Ymwybyddiaeth ofalgar i rieni yng Ngwynedd. Mae rhai rhieni wedi bod i sesiynau rhiantu gofalgar sydd wedi llwyddo i wella'r berthynas rhwng rhiant a phlentyn.

Tystiolaeth o iechyd meddwl rhieni ar blant:

Dengys gwybodaeth o astudiaeth a gynhaliwyd gan Scie [5] sy'n ymwneud ag iechyd meddwl rhieni ei fod yn debygol y bydd 9 i 10% o ferched a 5 to 6 % o ddynion yn rhieni â phroblemau iechyd meddwl; gyda phoen meddwl ac iselder ysbryd yr anhwylderau meddyliol mwyaf cyffredin. Nododd yr astudiaeth hefyd o arolygon cenedlaethol fod unig rieni'n fwy tebygol o fod â phroblemau iechyd meddwl gyda

[5] Research reviews on prevalence, detection and interventions in parental mental health and child welfare Scie Gorffennaf 2009

mamau ifanc yn fwy tebygol na rhai hŷn o fod â phroblemau iechyd meddwl.

Mae adroddiad Scie hefyd yn cyfeirio at fodel sy'n awgrymu fod cyswllt mewn o leiaf dair ffordd rhwng iechyd meddwl a lles meddyliol plant ac oedolion mewn teulu lle bo gan riant broblemau iechyd meddwl:

- Gall problemau iechyd meddwl rhieni gael effaith andwyol ar ddatblygiad ac, mewn rhai achosion, ar ddiogelwch plant
- Gall tyfu i fyny gyda rhiant â salwch meddyliol gael effaith negyddol ar y modd y mae person yn addasu i fod yn oedolyn, yn cynnwys croesi'r bont i fod yn rhiant
- Gall plant, yn enwedig felly'r rhai hynny ag anawsterau emosiynol, ymddygiadol neu gorfforol gronig, gyflymu neu waethygu afiechyd meddwl yn eu rhieni/gofalwyr.

O gofio hyn, mae'n bwysig sicrhau fod rhieni â phroblemau iechyd meddwl yn cael cymorth perthnasol i sicrhau nad yw eu plant yn datblygu problemau iechyd meddwl eu hunain ac, felly, yn parhau'r effaith sy'n pontio'r cenedlaethau o iechyd meddwl gwael.

**Datblygu'r gwasanaeth**:

Mae bywydau llawer o'r rhieni y mae angen cymorth arnynt yn anhrefnus oherwydd materion eraill megis dyled, materion tai, diweithdra fydd yn cyfrannu at iechyd meddwl gwael. O'r herwydd, mae angen i'r ymyraethau fod yn gyfannol yn y modd yr ymdrinnir â'r materion hyn, gan fod â phecyn o gymorth sy'n cynnwys ymdrin ag iechyd meddwl.

Ar hyn o bryd, mae Gyda'n Gilydd yn rhoi'r cymorth cyfannol i deuluoedd trwy asesiad manwl a chytunir ar gynllun gweithredu gyda'r teulu o ran sut y rhoddir y gefnogaeth. Mae'r gefnogaeth ar gyfer rhiantu, materion ariannol, tai ac ati ar gael i deuluoedd, sy'n mynd rhan o'r ffordd i wella sefyllfaoedd. Fodd bynnag, mae angen bod â gwasanaeth sy'n benodol ar gyfer datrys problemau iechyd meddwl.

Er mwyn sicrhau y darperir y gwasanaethau mwyaf effeithiol, argymhellir adolygu anghenion iechyd meddwl rhieni a'u dwyn i mewn i lunio gwasanaethau'n seiliedig ar eu hanghenion. Nodwch beth sydd wedi gweithio'n dda gyda rhieni sydd wedi cael cefnogaeth Gyda'n Gilydd a gwasanaethau lleol eraill a beth sydd ddim, bydd hyn o gymorth i ddatblygu'r gwasanaeth. Nodwch beth sy'n ofynnol o ran datblygu'r gweithlu fel bod modd i'r gweithlu sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd fod yn hyderus wrth adnabod, cefnogi a chyfeirio rhieni gydag iechyd meddwl lefel isel.

## 7.2. Cefnogaeth i bobl ifanc yn eu harddegau

Mae gan bobl ifanc yn eu harddegau anghenion gwahanol oherwydd amryfal amgylchiadau o'u datblygiad i newidiadau yn amgylchedd y cartref. Gall rhiantu gynorthwyo i gefnogi teuluoedd i ymdrin ag ymddygiadau a deall eu plant, ond mae angen mwy. Yn seiliedig ar adborth gan ddarparwyr mae angen gwasanaethau eraill yn benodol i gefnogi anghenion bobl ifanc yn eu harddegau. Yn eu plith, mae:

- Cymorth iechyd meddwl yn enwedig felly'n ymwneud â hunan-niweidio
- Newidiadau mewn amgylchiadau teulu lle cyflwynir llys-riant newydd gyda phlant hŷn yn tueddu i wneud iddo deimlo'n ynysig gan arwain at berthynas y teulu'n torri i lawr

- Ymddygiad y mae modd ei gysylltu â rhiantu yn ystod y blynyddoedd cyntaf, oedi/materion gyda'r datblygiad heb eu hadnabod e.e. cyfathrebu, oedi gydag iaith a lleferydd, pwysau gan gyfoedion, cyflyrau sydd heb eu diagnosio, megis awtistiaeth ac ADHD.

**Y Ddarpariaeth gyfredol**:

Mae gwasanaethau ar gael trwy GISDA sy'n ymwneud â chwnsela, tai a chyflogaeth a chyda Y Bont trwy Deuluoedd yn Gyntaf sy'n darparu gwasanaeth cyfryngu a chynadledda grŵp i'r teulu. Mae'r ddau wasanaeth hyn yn dibynnu ar arian gyda'r **elfen Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei hariannu tan 2017.**

**Datblygu'r gwasanaeth**:

Er y bydd y gwasanaethau trwy Deuluoedd yn Gyntaf yn cefnogi rhai pobl ifanc yn eu harddegau, mae angen ymyrraeth a chefnogaeth arall i gwrdd â'r anghenion a adnabuwyd yn llawn. Bydd gweithredu fel corff amlasiantaethol sy'n cynnwys ysgolion, iechyd, darpariaeth ieuenctid a darparwyr cyfredol y trydydd sector yn elfen allweddol ar gyfer cefnogi pobl ifanc yn eu harddegau.

Mae gwasanaethau sy'n cefnogi pobl ifanc yn eu harddegau sy'n debygol o beidio â mynd i addysg, cyflogaeth a/neu hyfforddiant. yn cael eu gweithredu gan TRAC a'u datblygu trwy Opus.

Oherwydd profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, bydd cymorth i rai pobl ifanc yn eu harddegau'n anodd gan y bydd eu hymddygiad a'u hemosiwn eisoes wedi'u pennu. Fodd bynnag, mae cyfle i weithio gyda nhw i ostwng effaith y profiadau cynnar hyn fel eu bod yn dod yn rhieni gwell. Mae angen datblygu gwasanaethau a chefnogaeth i roi sylw i'r materion hyn, a hynny mewn ymgynghoriad â phobl ifanc a gwasanaethau perthnasol yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau y caiff yr anghenion eu deall.

## 8. Anghenion a adnabuwyd

Adnabuwyd gwybodaeth yn ymwneud ag anghenion teuluoedd yn gyntaf yn sgil dadansoddi'r rheswm dros gyfeirio At Deuluoedd yn Gyntaf dros y tair blynedd diwethaf. Trafodwyd y meysydd a nodwyd ymhellach gyda darparwyr a'r tîm Gyda'n Gilydd er mwyn cael dealltwriaeth well o'r anghenion penodol. Adnabuwyd meysydd eraill o angen hefyd yn ystod trafodaeth gyda darparwyr.

### 8.1. Oedi gydag iaith a lleferydd

Tynnwyd sylw at oedi gydag iaith a lleferydd yn broblem i blant sy'n dod i mewn i ofal plant Dechrau Deg yn dair oed. Er bod cerrig milltir datblygiadol plant yn cael eu monitro nid yw oedi yn eu hiaith a'u lleferydd wastad yn cael ei adnabod ac nid yw i'w weld hyd oni byddant yn mynd i ofal plant neu i'r ysgol. Wrth adnabod yr oedi yn yr iaith a'r lleferydd yn y cyfnod hwn, golyga y bydd angen cymorth ar y plentyn i

ddal i fyny gyda phlant eraill. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth y byddant ar yr un lefel â'u cyfoedion yn bump oed os gallant gael cefnogaeth yn fuan.

**Y Ddarpariaeth gyfredol**:

Mae gan Dechrau'n Deg eisoes adnoddau i fedru adnabod a chefnogi plant sy'n oedi gyda'u hiaith a'u lleferydd, a'u rhieni. Fodd bynnag, mae mwy y mae angen ei wneud i gefnogi'r gwaith hwn yn cynnwys sut mae cynnal hwn wedi 2017 pan fo disgwyl i arian Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf ddod i ben.

Mae ymwelwyr iechyd yn gwirio datblygiad plant ac os adnabyddir problemau gyda'u hiaith a'u lleferydd mae modd eu cyfeirio at y gwasanaethau therapi iaith a lleferydd. Yng Nghymru gweithredir y Rhaglen Plentyn Iach yn 2016 sy'n cynnwys mwy o wirio dwys gan ymwelwyr iechyd. Fodd bynnag, bydd nifer yr ymwelwyr iechyd cyfredol a'r angen i recriwtio mwy yn broblem wrth weithredu'r rhaglen.

Tystiolaeth effaith oedi gydag iaith a lleferydd:

Nid yw disgwyl tan bydd plant yn dechrau'r ysgol i ddatblygu eu hiaith a'u lleferydd yn opsiwn gan fod hyn yn llawer rhy hwyr iddynt fedru dal i fyny gyda'u cyfoedion. Felly, mae adnabod ac ymyrryd yn fuan i sicrhau fod rhieni/gofalwyr yn datblygu iaith a lleferydd eu plant yn elfen bwysig o atal anawsterau yn y dyfodol.

*'If a child does not benefit from early intervention, there are multiple risks - of lower educational attainment, of behavioural problems, of emotional and psychological difficulties, of poorer employment prospects, challenges to mental health and, in some cases, of a descent into criminality'*[6].

Bydd y perygl o beidio ag ymyrryd yn fuan yn arwain at fwy o anghenion cymhleth wrth i'r plentyn ddatblygu gan arwain at ganlyniadau costus i wasanaethau cyhoeddus. Gall methu adnabod a chywiro oedi gydag iaith a lleferydd gael effaith sylweddol ar ddyfodol plentyn gyda 50% o ddynion ifanc yn y carchar ag anawsterau cyfathrebu all wreiddio o oedi gydag iaith a lleferydd yn ogystal ag o anawsterau eraill.

**Datblygu'r gwasanaeth**:

Mae angen ystyried sut gall defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol trwy weithio ar y cyd yn well a datblygu'r gweithlu'n well adnabod oedi gydag iaith a lleferydd a chefnogi ymarferwyr iechyd i ddarparu ymyraethau effeithiol i blant a'u rhieni.

Mae'r adran addysg eisoes wedi datblygu proses ar gyfer adnabod a chefnogi plant sy'n oedi ac sydd ag anawsterau gyda'u hiaith a'u lleferydd. Mae angen adnabod sut gall addysg, iechyd, darparwyr gofal plant a gwasanaethau cefnogi weithio gyda'i gilydd yn well i gefnogi'r gwaith hwn i sicrhau canlyniadau da i blant a phobl ifanc.

### 8.2. Rhiantu

Adnabyddir rhiantu'n gyson yn faes angen wrth gyfeirio at wasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf.

---

[6] The Bercow Report, A Review of Services for Children and Young People (0-19) with Speech, Language and Communication Needs 2008

**Y Ddarpariaeth gyfredol**:

Mae ystod o ymyraethau seiliedig ar dystiolaeth ar gael i ddatblygu sgiliau rhiantu a chânt eu cyflawni gan Deuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a gwasanaethau eraill y trydydd sector.

Teulu Ni ddarparodd yr elfen gefnogi i deuluoedd gyda 'bydi' yn gweithio gyda'r teulu a phecyn penodol wedi'i deilwrio ar eu cyfer nhw gan ddibynnu ar eu hanghenion cefnogi. At hyn, roedd Teulu Ni'n medru cael at gefnogaeth briodol arall yr oedd modd cyfeirio ati os oedd gofyn. Roeddynt hefyd yn defnyddio'r adnoddau cymunedol lleol i gyflwyno teuluoedd i weithgareddau cymunedol oedd ar gael iddynt, gyda nifer ohonynt yn rhad ac am ddim.

**Datblygu'r gwasanaeth**:

Mae angen edrych ar riantu yn ehangach; does neb yn cael ei eni'n rhiant gyda'r sgiliau a'r wybodaeth i fod yn 'rhiant perffaith'. Bydd yr hyn yr ydym yn ei brofi gan ein rhieni ein hunain wrth i ni dyfu yn cael effaith ar sut y byddwn ni'n rhiantu. Os yw'r profiadau hynny wedi bod yn negyddol mae'n creu cylch o riantu gwael sy'n pontio'r cenedlaethau gan gael effaith ar ddatblygiad emosiynol a chymdeithasol plentyn. Mae mwy o ymyraethau a all gefnogi rhieni yn ychwanegol at y rhaglenni sydd ar gael.

Yn ôl 'Canllawiau Rhianta yng Nghymru [7]':

'Gan barhau i roi pwyslais cryf ar y canlyniadau cadarnhaol y bwriedir eu sicrhau ar gyfer y plant ac adlewyrchu eu hawliau, dylid darparu cefnogaeth i famau, tadau a gofalwyr a fydd yn:

- gwella sgiliau rhianta cadarnhaol i reoli ymddygiad yn fwy effeithiol a hybu sgiliau cymdeithasol, hunan-barch a hunanddisgyblaeth y plant;
- gwella'r berthynas rhwng rhieni a'r plentyn a'r berthynas rhwng y ddau riant;
- datblygu agweddau cadarnhaol a dyheadau;
- cryfhau dealltwriaeth rhieni o ddatblygiad plant a meithrin eu gallu i fod yn fwy ymatebol i anghenion eu plant er mwyn hybu eu datblygiad a'u lles cymdeithasol, emosiynol a gwybyddol;
- rhoi mwy o hyder i rieni yn eu swyddogaeth rianta; a
- gwella sgiliau rhieni a rhoi mwy o hyder iddynt o ran darparu amgylchedd dysgu cadarnhaol gartref a chefnogi eu plant gyda'u dysgu'

Mae gofyn cael amrywiol raddau o gefnogaeth rhiantu, o waith grŵp i waith un i un i fwy o gefnogaeth cyfoedion anffurfiol lle gall rhieni gefnogi'r naill a'r llall. Dylid seilio'r cyflawni nid yn unig ar yr ymyraethau seiliedig ar dystiolaeth ond hefyd ar arfer dda leol a chenedlaethol y gwelwyd eu bod yn effeithiol.

Rhaid ystyried cyflawni rhiantu mewn modd cydlynol er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o amryfal ddarparwyr gwaith darparu rhiantu yng Ngwynedd.

### 8.3. Ymddygiad plant

Bydd gan y rhesymau y tu ôl i ymddygiad plant gysylltiad cryf â rhiantu gydag ymlyniad yn cael ei weld yn fater i nifer. I rai plant ni chaiff eu hymddygiad ei

[7] Rhianta yng Nghymru: Canllawiau ar ymgysylltiad a chymorth, Medi 2014

adnabod hyd oni byddant yn yr ysgol a dyma yw'r profiad o rai o'r achosion Gyda'n Gilydd. Nid yw hyn yn golygu bod yr ymddygiad yn ganlyniad i bresenoldeb yn yr ysgol. Mae'n debygol ei fod wedi bod yno cyn hyn ond heb ei gydnabod fel problem yn y cartref.

**Y Ddarpariaeth gyfredol**

Un o'r meysydd sydd wedi'i amlygu fel problem yw ymlyniad sy'n digwydd yng nghyfnodau cynnar iawn bywyd plentyn. Tylinir babanod, rhywbeth sy'n gwella'r ymlyniad rhwng y rhiant a'r baban ac a gyflawnir gan Deuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg. Mae rhai o'r rhaglenni rhiantu seiliedig ar dystiolaeth hefyd yn ymdrin ag ymlyniad, ond mae angen mwy fel elfen ataliol.

Tystiolaeth effaith ymyrryd yn fuan ar ymddygiad plenty

Ymyrryd yn y blynyddoedd cynnar yw'r allwedd i fynd i'r afael â phroblemau ymddygiadol ac ymlyniad, yn enwedig o cyn yr enedigaeth hyd at dair oed. Dangosodd tystiolaeth fod ymennydd plant yn ffurfio ac yn datblygu cyn eu geni ac yn ystod deunaw mis cyntaf eu hoes (gweler y cyfeiriad uchod at adroddiad blynyddol y Prif Swyddog Meddygol). Mae'r hyn sy'n digwydd yr adeg hon yn cael effaith ar eu datblygiad emosiynol. Pe nad yw plentyn yn cael ei symbylu'n synhwyrol, yn gymdeithasol ac yn emosiynol briodol gan y rhiant/gofalwr, mae'n debygol y bydd ganddo ymlyniad ansicr sy'n arwain at ganlyniadau gwael, megis:

'*elevated levels of perpetrating domestic violence, higher levels of alcohol and substance misuse and multiple sexual partners*'[8]

**Datblygu'r gwasanaeth**

Mae ymyraethau effeithiol yn y cyfnod amenedigol (y cyfnod yn syth cyn yr enedigaeth ac ar ei hôl) trwodd i deirblwydd oed yn hanfodol i sicrhau cyfleoedd a chanlyniadau bywyd gwell i blant wrth iddynt dyfu i fod yn oedolion. Bydd gwario yn y cyfnod hwn yn atal canlyniadau gwael a chostau uwch yn hwyrach ymlaen.

Bydd ychwanegu at y gwaith amlasiantaethol gyda gweithwyr proffesiynol iechyd a blynyddoedd cynnar (yn statudol ac yn y trydydd sector) a'i wella yn hanfodol i gyflawni canlyniadau gwell a thorri cylchoedd o dlodi a rhiantu gwael sy'n pontio'r cenedlaethau.

## 9. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**Yr hyn y dylem fod yn ei gyflawni**


Rhydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf) atal ac ymyrryd yn fuan ar dir statudol. Mae llesiant yn cynnal y system gyfan ac mae atal ac ymyrryd yn fuan yn chwarae rôl allweddol wrth annog llesiant. Mae'r dyletswyddau'n berthnasol i'r byrddau iechyd lleol a chyrff cyhoeddus eraill ac nid i'r Awdurdod Lleol yn unig.

O'r herwydd, mae'r argymhellion isod yn rhoi ystyriaeth i elfennau perthnasol y Ddeddf sy'n gysylltiedig â'r anghenion a adnabuwyd i sicrhau ei bod wedi'i gwreiddio yng ngwaith datblygu atal ac ymyrryd yn fuan yng Ngwynedd.

[8] Early Intervention: Next Steps Graham Allen MP 2011

## 9.1. Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (GCC) - A17 y Ddeddf

Caiff gwybodaeth, cyngor a chymorth eu cyflawni ar wahanol lefelau fel y nodir yn y diagram isod:




Bydd darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth yn allweddol i'w gwneud yn bosib i deuluoedd gael at wybodaeth am wasanaethau sydd ar gael a chael cefnogaeth lle bo angen. Mae sut y caiff hwn ei gyflawni'n bwysig ac er mai dyletswydd yr awdurdod lleol yw sicrhau fod y ddarpariaeth ar gael, nid oes rhaid iddynt ddarparu holl elfennau'r gwasanaeth.

Adnabu'r argymhellion yn yr adolygiad o'r gwasanaethau cymdeithasol bod angen 'un drws ffrynt' a mynediad at wasanaethau i blant mewn angen. Dylai hwn gyfrannu at ofynion y Ddeddf mewn perthynas â GCC.

Bydd angen i waith datblygu a darparu GCC ystyried anghenion a bylchau'r gwasanaeth a adnabuwyd i gefnogi teuluoedd a gweithio gydag iechyd a sefydliadau eraill sy'n bartneriaid i sicrhau fod y wybodaeth a'r cymorth ar gael iddynt. Wrth ddatblygu'r gwasanaeth, bydd yn bwysig y rhoddir sylw i'r wybodaeth a'r cyngor o ran iddynt fod ar gael, cael mynediad atynt a rhwyddineb eu defnyddio i'r bobl leol sy'n defnyddio'r gwasanaethau

## 9.2. Atal ac Ymyrryd yn Fuan - A15 y Ddeddf Gwasanaethau Ataliol

Yn ôl y Ddeddf rhaid i'r Awdurdod Lleol 'provide or arrange for the provision of a range and level of services which it considers will achieve the purposes…' Ymhlith y dibenion mae:

- hyrwyddo magwraeth plant gan eu rhieni, lle bo hynny'n gyson â llesiant plant;
- gostwng yr angen am

    - achosion ar gyfer gofal neu orchmynion goruchwylio dan Ddeddf Plant 1989
    - achosion troseddol yn erbyn plant,
- annog plant i beidio â chyflawni trosedd;

Mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol adnabod partneriaid perthnasol allweddol a gweithio gyda nhw i gyflawni gwasanaethau atal ac ymyrryd yn fuan.

Mae'r Ddeddf yn pwysleisio fod atal yn ehangach na'r gwasanaethau cymdeithasol. Rhaid i bob maes awdurdod lleol e.e. tai, hamdden, gwasanaeth ieuenctid ac addysg a byrddau iechyd lleol weithredu'n ataliol fydd o gymorth i gyflawni atal ac ymyrryd yn fuan. Bydd hefyd yn bwysig i ddwyn i mewn y sector gwirfoddol i gyflawni gwasanaethau gan eu bod yn bartner pwysig wrth gyflawni gwasanaethau atal ac ymyrryd yn fuan.

O ystyried nifer yr asiantaethau y mae modd iddynt gael eu dwyn i mewn i gyflawni gwaith atal ac ymyrryd yn fuan, mae angen sicrhau fod gwasanaethau wedi'u cydlynu. Felly, yn ogystal â bod â gwasanaethau neu ymyraethau effeithiol, mae darpariaeth amlasiantaethol neu integredig yn allweddol wrth gyflawni.

## 10. Argymhellion

Er mwyn sicrhau y caiff gwaith atal ac ymyrryd yn fuan ei gyflawni'n effeithiol gwneir yr argymhellion a ganlyn:

**10.1. Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth - Pwynt Mynediad Sengl** Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol datblygu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth. Er mwyn sicrhau fod hyn yn effeithiol, dylai'r gwasanaeth fod ar gael drwy bwynt mynediad sengl. Bydd hyn yn cynorthwyo teuluoedd, plant a phobl ifanc i allu cael at wybodaeth a chefnogaeth yn gynt gan orfod galw un rhif yn unig. Rhaid i'r 'enw' a roddir i'r gwasanaeth fod yn 'groesawus' fel bod y bobl sy'n cysylltu â'r gwasanaeth yn teimlo ei fod yn eu cynorthwyo ac yn eu cefnogi.

### 10.2. Gweithio'n amlasiantaethol

Mae gweithio'n amlasiantaethol wedi profi i fod yn effeithiol gydag asiantaethau a staff yn rhannu gwybodaeth, teuluoedd yn cael gwasanaethau perthnasol ar yr adeg gywir heb eu dyblygu.

Wrth gomisiynu a datblygu gwasanaethau i gwrdd â'r anghenion a'r bylchau a adnabuwyd, dylai gweithio'n amlasiantaethol ar draws adrannau llywodraeth leol, gwasanaethau'r trydydd sector a chyhoeddus eraill fod yn ofyn allweddol er mwyn parhau gyda'r arfer gyfredol a gwella arni. Bydd yn ofyn clir wrth gomisiynu i sicrhau fod protocolau rhannu gwybodaeth yn eu lle i gefnogi gweithio'n amlasiantaethol a rhannu gwybodaeth.

### 10.3. Cydlynu Gwasanaethau

Mae angen ychwanegu at arfer a'i datblygu o ddarpariaeth gyfredol e.e.Tîm o Amgylch y Teulu a Trac, gyda gweithiwr neu gydlynydd allweddol sy'n gweithio'n bwrpasol i'r teulu/person ifanc a gall greu perthynas gyda nhw a'u hymgysylltu yn y gefnogaeth. Mae bod â pherthynas y mae modd ymddiried ynddi yn gwella cyfleoedd ymgysylltu a gwella yn sefyllfa'r teulu/person ifanc. Wrth gomisiynu a datblygu gwasanaethau i gwrdd â'r bylchau a'r anghenion a adnabuwyd, bydd hyn yn elfen allweddol gan y bydd llawer o'r bylchau/anghenion yn dibynnu ar ei gilydd yn y gefnogaeth a roddir i deuluoedd e.e. cefnogaeth iechyd meddwl i fam y mae angen cymorth arni gydag ymddygiad plentyn.

## 10.4. Cynllunio Strategol a Chynaliadwyedd

Mae'r rhan fwyaf o raglenni a adnabuwyd fel rhai sy'n rhoi cefnogaeth i deuluoedd yn dibynnu ar arian grant, gyda rhai ohonynt yn dod i ben yn 2017, eraill yn hwyrach ymlaen. Rhaid rhoi ystyriaeth i hyn wrth ddatblygu gwasanaethau a chynnal darpariaeth y gwasanaeth cyfredol fel risg. Bydd cynaliadwyedd mewn gwasanaethau ac ystyried gwasanaetha'n cael eu gwreiddio i wasanaethau craidd a datblygu'r farchnad yn allweddol a rhaid datblygu blaenraglen waith er mwyn adnabod risgiau a rheoli'r gwaith cynllunio cefnogaeth i deuluoedd yn strategol.

## 10.5. Manteision Busnes - Mesur Cost a Budd

Argymhellir bod gwaith dadansoddi cost a budd yn cael ei gynnwys yn y broses er mwyn datblygu gwasanaethau ymyrryd yn fuan yn y dyfodol. Bydd hyn o gymorth wrth adnabod ac asesu manteision yr opsiwn, yn seiliedig ar y canlyniadau y bwriedir eu cyflawni o gymharu â galw yn y dyfodol am wasanaethau statudol neu aciwt. Yn ei thro, mae modd defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro effaith y gwasanaeth yn seiliedig ar y gost a'r budd cychwynnol. Os nad yw'r gwasanaeth yn rhoi'r canlyniad a ddisgwylir, mae modd ei addasu neu roi'r gorau iddo. Gweler Atodiad 2 am Astudiaeth Achos yng Nghwynedd.

Atodiad 1

**DARPARU'R GWASANAETH**

**Y ddarpariaeth gyfredol**

Isod ceir braslun o'r ddarpariaeth ymyrryd yn fuan sydd yn ei lle yng Ngwynedd dan y penawdau a ganlyn:

- Rhaglenni Cenedlaethol
- Darpariaeth yr awdurdod lleol
- Darpariaeth y trydydd sector

**Rhaglenni Cenedlaethol**

Caiff pob un o'r rhaglenni isod eu hariannu gan grant Llywodraeth Cymru a ddaw i ben ddiwedd Mawrth 2017. Gan ddibynnu ar ganlyniad etholiad Mai 2016 a'r penderfyniadau a wneir wedi hynny, efallai y bydd effaith ar ddyfodol y rhaglenni.

**Teuluoedd yn Gyntaf**

Rhaglen Llywodraeth Cymru yw Teuluoedd yn Gyntaf sydd â'r nod o ostwng tlodi plant yng Nghymru trwy gefnogaeth gydlynol fuan i deuluoedd yn seiliedig ar weithredu fel Tîm o amgylch y Teulu gyda chefnogaeth gwasanaethau a gomisiynir. Sefydlodd Gwynedd Dîm o amgylch y Teulu a adwaenir fel 'Gyda'n Gilydd' yn 2012 a chomisiynu gwasanaethau'n seiliedig ar angen a adnabuwyd ar y pryd.

Mae modd i deuluoedd sy'n cydnabod bod gofyn cefnogaeth ychwanegol arnynt ond nad ydynt yn cwrdd â meini prawf y gwasanaethau cymdeithasol gael eu cyfeirio at Gyda'n Gilydd gan weithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw neu drwy gyfeirio eu hunain. Nid oes modd darparu'r gwasanaeth heb ganiatâd y teulu ac mae ar gael ym mhob ardal o Wynedd. Pwynt mynediad sengl yw Gyda'n Gilydd yn gweithredu'n gydlynol gyda theuluoedd sy'n cwrdd â'r meini prawf (gweler Atodiad 1) ac y mae angen cefnogaeth arnynt gan fwy nag un gwasanaeth (wedi'i chydlynu trwy'r Tîm o amgylch y Teulu) neu'n cyfeirio am un gwasanaeth lle bo'n briodol.


Ffordd o weithio yw Tîm o amgylch y Teulu sy'n cefnogi'r teulu cyfan yn sgil asesiad manwl sy'n ystyried eu cryfderau a'u hanghenion. Cynhelir yr asesiad ar ffurflen Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd a gwblheir gyda'r teulu.

Mae Gyda'n Gilydd wedi derbyn 1879 o gyfeiriadau ers dechrau yn 2012 gyda 90% o'r teuluoedd a gyfeirir yn cael gwasanaeth un ai wedi'i gydlynu gan y Tîm o amgylch y Teulu neu gan un gwasanaeth. Cyfeirir teuluoedd o bob ardal yng Ngwynedd gyda 90% o'r teuluoedd yn byw y tu allan i 10% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig.

Caiff y cynnydd y mae teulu'n ei wneud yn seiliedig ar y cymorth a roddir ei fonitro, a hynny o'r asesiad i bryd y caiff yr achos ei gau trwy 'offeryn pellter a deithiwyd'. Mae'r teulu'n rhoi sgôr i'w hunain ar gyfer pob un o'r mannau yn yr asesiad ac yna caiff hyn ei wneud unwaith eto ar ddiwedd yr ymyraethau. Mae hyn yn mesur pa mor dda y mae'r teulu'n datblygu, yn seiliedig ar yr ymyraethau sydd yn eu lle.

Comisiynwyd y Ganolfan Ymyrryd yn Fuan seiliedig ar Dystiolaeth, ym Mhrifysgol Bangor i gynnal gwerthusiad annibynnol gyda sampl o deuluoedd a gafodd ymyraeth gan y Tîm o amgylch y Teulu. Bydd yr astudiaeth yn sefydlu'r hyn yr oedd teuluoedd yn ei feddwl o'r gwasanaethau a gawsant ac a yw effeithiau'r rhaglen yn rhai tymor hir ac wedi gwneud gwahaniaeth ystyrlon i'w bywydau, gan ganolbwyntio ar gryfhau cadernid teulu. Ym Mawrth 2015, cwblhawyd yr adroddiad cyntaf ac adolygwyd y wybodaeth am y 'pellter a deithiwyd' oedd yn ymwneud â deunaw teulu gan gymharu eu sgôr cychwynnol, y sgôr ar y diwedd a'r sgôr chwe mis wedi hynny. Ar y diwedd, adroddodd 16 o'r 18 teulu welliant gyda dau yn dangos dim newid. Chwe mis ar ôl gorffen, roedd 10 o'r teuluoedd wedi adrodd bod gwelliant parhaus.

**Graff 1: Sgôr gyfartalog Grŵp Uned Teulu ar draws Ardaloedd o'r dechrau i chwe mis wedi'r gorffen**




Noder: Caiff y pwyntiau eu labelu fel: 1 - 'Llawer o Broblemau, 2 -'Ychydig o Broblemau, 3 - 'Iawn', 4- 'Mynd yn Eithaf Da and 5 - 'Mynd yn Hynod Dda.

Gofynnwyd i deuluoedd hefyd oeddynt wedi cael profiad oedd yn peri straen ers eu cau i Gyda'n Gilydd. Roedd 18 o'r teuluoedd wedi profi digwyddiad o'r fath gyda 15 yn adrodd eu bod wedi ymdopi'n well na'r arfer a/neu wedi cael yn ôl i drefn yn gynt yn sgil y gwasanaeth gan Gyda'n Gilydd.

Dengys canlyniadau'r ymchwil a'r cyfnod dilyn i fyny fod yr ymyraethau wedi gwella sefyllfa a chadernid y teulu gyda'r rhan fwyaf yn dweud eu bod wedi parhau i wella ac wedi ymdopi'n well gyda sefyllfaoedd heriol wedi'r ymyrraeth.

Nododd adborth y teuluoedd eu bod yn teimlo'n fwy cadarn a bod y teulu'n gweithio'n well gyda'i gilydd oherwydd y gefnogaeth yr oeddynt wedi'i chael. Ymhlith rhai o'r gwelliannau mae:

- Mwy o hyder gyda - siarad â gwasanaethau ar y ffôn, sgiliau coginio, trin arian, mynd allan, rhiantu a chwarae gyda'u plant
- Gwell iechyd meddwl - trwy ostwng straen neu bryderon yr oedd ganddynt
- Gofyn am gymorth - roedd teuluoedd yn sylweddoli ei fod yn iawn gofyn am gymorth lle cyn yr ymyrraeth roeddynt wedi gweld hyn yn anodd

At hyn, roedd teuluoedd yn gweld gwerth yn y modd roedd gwasanaethau'n cael eu cyflawni gan ei weld yn anffurfiol ond yn strwythuredig ac yn hawdd cael ato. Roedd y teuluoedd yn gweld gwerth yn y gefnogaeth i'r teulu cyfan ac yn y cyfarfodydd gyda'r holl asiantaethau gyda'i gilydd yn ogystal â bod â llais yn y cyfarfodydd. Gwerthfawrogwyd hefyd amseriad yr ymyraethau ac roedd y teuluoedd o'r farn bod hyn yn atal mwy o broblemau mwy cymhleth rhag datblygu.

Wedi cyfarfod â rhai teuluoedd yn ddiweddar oedd wedi derbyn gwasanaeth gan Gyda'n Gilydd ac wedi comisiynu gwasanaethau, roedd yr isod yn gweld gwerth yn y gwasanaethau:

- Roedd teulu oedd ynghynt yn agored i'r gwasanaethau cymdeithasol o'r farn eu bod wedi elwa o'r gefnogaeth barhaus gan Gyda'n Gilydd, roeddynt yn teimlo fod eu hyder a'u perthynas wedi gwella. Dywedodd y tad ei fod yn well gyda Gyda'n Gilydd gan eich bod 'yn ei wneud i chi eich hun' oherwydd eu bod yn chwarae mwy o ran ym mha gefnogaeth yr oedd ei hangen arnynt a pha bryd.

- Roedd mam sengl a'i merch oedd wedi bod yn cael trafferth cael gwasanaeth i'w merch wedi'u cyfeirio at Gyda'n Gilydd fel y cam olaf. Roedd yn teimlo ei bod wedi cael y gefnogaeth yr oedd ei hangen arni wedi i Gyda'n Gilydd gydlynu cefnogaeth rhwng addysg a gwasanaethau cefnogi eraill ac, o'r herwydd, roedd y berthynas rhyngddi hi a'i merch wedi gwella'n sylweddol. Dywedodd ei bod wedi ceisio popeth ac nid oedd yn gwybod i le arall i droi. 'Nid yw'n rhywbeth y gallwch fynd at y meddyg yn ei gylch' oedd y ffordd yr oedd hi'n teimlo'.

Yn gyffredinol, mae'n ymddangos o adborth fod teuluoedd yn elwa o'r ymyrraeth fuan a roddir trwy Gyda'n Gilydd. Er nad yw'n sampl cynrychioladol o bawb sy'n cael gwasanaeth, yr arwydd yw bod teuluoedd yn cael profiad cadarnhaol, gyda'r rhan fwyaf o'r rhai hynny yr aethpwyd ar eu holau wedi chwe mis yn parhau i wneud yn dda.

Nid oes ffordd o gadarnhau cost a budd y gwasanaeth ymyrryd yn fuan gan nad yw'n bosib bod yn bendant beth fyddai'n digwydd yn y dyfodol i'r teuluoedd dan sylw. Fodd bynnag, dengys amcangyfrif bras yn seiliedig ar yr ymyraethau a ddarperir gan Gyda'n Gilydd ynghyd â gwasanaethau eraill arbediad cost tebygol. Gweler Atodiad 2 am esiampl o un teulu.

Arfer dda

- Mae bod ag un pwynt cyswllt a gweithio'n gydlynol gyda theuluoedd wedi bod yn nodwedd allweddol o gyflawni Tîm o amgylch y Teulu.

- Mae gweithio gyda teuluoedd fel cyfanwaith wedi bod yn fuddiol gan fod cryfderau ac anawsterau teulu fel cyfanwaith yn cael eu hadnabod a'u hasesu.

- Mae'r gwaith i ddwyn i mewn y teulu yn y broses gyfan o asesu i adnabod eu cynllun gwaith a bod â llais wedi bod yn sylweddol effeithiol. O'r gwerthusiad cenedlaethol a chyfweliadau lleol gyda theuluoedd maent yn teimlo eu bod wedi ymgysylltu ac y caiff cefnogaeth ei rhoi ar yr adeg iawn a phan y byddan nhw'n barod.

- Mae gweithio'n asiantaethol rhwng asiantaethau sy'n gweithio gyda'r teulu wedi bod o fantais sylweddol. Gŵyr pawb pwy sy'n gweithio gyda'r teulu pa gyfnod mae'r

gefnogaeth arni a sut mae'r teulu'n datblygu, trwy rannu gwybodaeth a chyfarfodydd adolygu rheolaidd mae hyn wedi bod yn effeithiol iawn.

**Dechrau'n Deg (2016/17 £2,223,900)**

Mae Dechrau'n Deg yn rhoi cefnogaeth i Deuluoedd sydd â phlant hyd at bedair oed sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o Gymru. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar adnabod angen ac ymyrryd yn fuan gyda hawl i'r pedwar prif bennawd a ganlyn:

- Gwasanaeth ymwelydd iechyd gwell
- Gofal plant yn rhad ac am ddim, rhan-amser ac o ansawdd uchel i blant bach 2-3 oed.
- Mynediad at gefnogaeth rhiantu
- Cefnogaeth ar gyfer iaith, lleferydd a chyfathrebu

Mae Dechrau'n Deg ar gael yn y wardiau a ganlyn yng Ngwynedd:

- Glancegin (Bangor),
- Marchog 1 a 2 a Maesincla (Caernarfon),
- Wardiau Peblig a Chadnant,
- Wardiau Maenofferen a Diffwys (Blaenau Ffestiniog),
- Gerlan (Bethesda)
- Talysarn,
- Llanllyfni a Chlynnog a
- De Dolgellau

Mae 900 o blant wedi elwa o'r gwasanaeth yn 2014/15. Dangosir uchod y gwasanaethau sydd ar gael a bydd teuluoedd wedi defnyddio un neu fwy o'r gwasanaethau hynny. Dangosir fod y canlyniadau i blant yn gadarnhaol o'r gefnogaeth a roddir gyda chanran uchel o blant yn cyrraedd eu cerrig milltir datblygiadol yn ddwyflwydd ac yn dair oed. Mae hefyd ganran uwch o blant wedi'u cofnodi ar gofrestr ysgolion yn dair oed o gymharu ag mewn ardaloedd nad ydynt yn rhai Dechrau'n Deg.

Mae gwerthusiad cenedlaethol o'r gwasanaeth wedi dangos fod plant wedi gwella o ran eu cyfathrebu a'u hymddygiad tra bo gan rieni fwy o hyder wrth ymdrin ag ymddygiad eu plentyn, maent yn rhyngweithredu mwy gyda'u plentyn e.e. trwy chwarae a darllen. Mae hyn yn cael effaith ar ddatblygiad y plentyn ac mae'r rhyngweithrediad rhwng plentyn a'i riant/gofalwr yn gwella'r elfen ymlyniad a maethu. Mae hyn yn hynod bwysig i ddatblygiad y plentyn yn y dyfodol gan y gallai cael dim ymlyniad na meithrin arwain at anawsterau yn hwyrach ymlaen ym mywyd y plentyn wrth iddo fynd trwy ei arddegau a dod yn oedolyn.

Mae gwaith cyflawni'r rhaglen hon yn y blynyddoedd cynnar yn unol â thystiolaeth o waith ymchwil sy'n dangos fod ymyrraeth ar ei fwyaf effeithiol pan fo'r ymennydd yn datblygu. Mae cydrannau gwaith cyflawni Dechrau'n Deg gydag ymweliadau iechyd dwys a'r rhaglenni rhiantu sydd ar gael yn ddechrau da i blant wrth i rieni ddatblygu a gwella eu sgiliau rhiantu a'u hymlyniad gyda'u plentyn.

Mae Dechrau'n Deg yn ddarpariaeth sy'n dibynnu ar 'gôd post' sy'n golygu na fyddai rhai teuluoedd sydd y tu allan i ardal y côd post yn cael y gwasanaethau. Yng Ngwynedd, rhoddwyd ystyriaeth i hyn yn ystod y broses gomisiynu i Deuluoedd yn Gyntaf ac, yn sgil hyn, comisiynwyd gwasanaeth tebyg i flynyddoedd cynnar i weithio gyda theuluoedd oedd y tu allan i'r ardaloedd Dechrau'n Deg ac yr oedd angen cefnogaeth arnynt. Mae nifer o'r cyfeiriadau trwy Deuluoedd yn Gyntaf wedi bod ar gyfer y gwasanaeth hwn ac ymdrinnir â'r rhan fwyaf o achosion a'u cau o fewn deuddeng mis.

Arfer dda:

- Darparu gofal plant am ddim -
    - Nododd ysgolion fod plant sydd wedi cael gwasanaethau Dechrau'n Deg yn fwy parod ar gyfer ysgol
    - Wedi ei gwneud yn bosib i rai rhieni gael y ddarpariaeth na fyddent o bosib wedi'i chael oherwydd cyfyngiadau ariannol
    - Nododd rhieni bod eu plentyn yn fwy hyderus, yn gallu rhyngweithredu gydag eraill ac wedi dysgu sut i rannu
- Gwasanaeth ymwelydd iechyd dwys yn creu perthynas agored dda gyda'r rhiant oedd yn gyfforddus yn trafod anawsterau gyda'r ymwelydd iechyd e.e. y drefn gyda mynd i'r gwely. Hefyd, roedd rhieni'n fwy tebygol o gymryd mantais o wasanaethau eraill.
- Mae rhaglenni rhiantu'n ei gwneud yn bosib i rieni ymdrin ag ymddygiad eu plentyn.

**Cymunedau'n Gyntaf**

Rhaglen sy'n mynd i'r afael â thlodi gan ganolbwyntio ar y gymuned yw Cymunedau'n Gyntaf ac mae'n gweithio yn y 10% ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru, yn seiliedig ar Fynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru. Yr ardaloedd yng Ngwynedd yw Talysarn, Cadnant a Pheblig a Marchog.

Bydd y blaenoriaethau ar gyfer y rhaglen yn newid o gymunedau Iachach, Ffyniannus a Dysg a'r brif flaenoriaeth ar gyfer y rhaglen wrth iddi fynd yn ei blaen yw cyflogadwyedd ac mae cynlluniau cyflawni wrthi'n cael eu datblygu. Mae'r rhaglen yn agored i bob ystod oedran sy'n byw yn yr ardaloedd a nodwyd.

**Cefnogi Pobl**

Mae Cefnogi Pobl yn rhoi cefnogaeth sy'n ymwneud â thai i bobl fregus fel bod modd iddynt fyw mor annibynnol ag sy'n bosib. Nod y gwasanaeth yw atal problemau trwy roi cefnogaeth mor fuan â phosib i ostwng y galw ar wasanaethau statudol. Nodau'r rhaglenni yw:

- Cynorthwyo pobl fregus i fyw mor annibynnol ag sy'n bosib trwy sicrhau fod gwasanaethau Cefnogi Pobl yn galluogi, a datblygu annibyniaeth person yn hytrach na sefydlu dibyniaeth tymor hir h.y. 'gwneud gyda' ac nid 'gwneud i'.
- Atal problemau neu roi cymorth cyn gynted ag sy'n bosib er mwyn gostwng y galw ar wasanaethau eraill megis iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol.
- Cynorthwyo pobl i ddiogelu a chynnal eu cartref trwy gynorthwyo i wneud y mwyaf o incwm pobl, gwella eu hyder a'u sgiliau a'i gwneud yn bosib iddynt ymgysylltu â rhaglenni ehangach er mwyn cael hyfforddiant a chyfleoedd gwaith.
- Sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel a gyflawnir mor effeithlon ac effeithiol ag sy'n bosib trwy sefydliadau sy'n cynllunio ac ariannu gwasanaethau a'r rhai hynny sy'n eu darparu yn cydweithio â'i gilydd.
- Darparu cefnogaeth seiliedig ar angen
- Hyrwyddo cydraddoldeb a gostwng anghyfartaleddau
- Rhoi pobl wrth galon y rhaglen

Mae Cefnogi Pobl Gwynedd yn comisiynu ac yn ariannu nifer o ddarparwyr i gefnogi pobl fregus i osgoi digartrefedd. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys gwasanaethau penodol i deuluoedd a phobl ifanc.

**Gwasanaethau yng Nghyngor Gwynedd**

**Gwasanaethau Cymdeithasol - Plant a Theuluoedd**

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn darparu gwasanaeth sy'n gwarchod plant a allant fod mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeuluster. Mae anghenion teuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn gymhleth ac yn cynnwys plant mewn angen, plant y mae angen eu gwarchod a phlant sy'n derbyn gofal. Mae lefel y cymhlethdod yn dibynnu ar fath yr ymyrraeth a ddarperir i deuluoedd.

Dengys ystadegau mai camdriniaeth neu esgeuluster yw'r prif resymau dros blant gael gwasanaethau statudol yng Ngwynedd. Isod nodir y prif faterion sydd yn gyson wedi ymwneud â'r ymyraethau:

- Rhieni'n camddefnyddio sylweddau neu alcohol
- Afiechyd meddyliol rhiant
- Camdriniaeth ddomestig

Mae materion eraill sydd wedi dod i'r wyneb yn ddiweddar yn cynnwys cam-fanteisio'n rhywiol ar blentyn gydag adroddiad o gynnydd sylweddol yn yr ychydig fisoedd diwethaf. Er bod hwn yn faes y mae'r Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol yn rhoi sylw iddo, mae cyfle i ystyried camau ataliol o ran y mater hwn trwy addysg a chodi ymwybyddiaeth.

Mae nifer y plant mewn angen wedi cynyddu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf o 245 yn 2011 i 295 yn 2014. Fodd bynnag, mae nifer yr ailgyfeiriadau at y gwasanaethau cymdeithasol wedi gostwng yn sylweddol o 807 yn 2011/12 i 369 yn 2014/15.

Cynhaliwyd adolygiad o wasanaethau plant yn 2012 'o un pen i'r llall' a arweiniodd at wneud a chymeradwyo argymhellion ar gyfer **tîm** '**ymyl gofal'**. Mae'r tîm wedi'i sefydlu ac mae'n cynnwys gweithiwr cymdeithasol yn rheolwr y tîm, gweithiwr allweddol a gweithwyr cyswllt teulu. Sefydlwyd y tîm i

- Atal plant a phobl ifanc rhag mynd i ofal
- Dychwelyd plant gartref o fewn yr wyth wythnos gyntaf o fod mewn gofal
- Symud o ddarpariaeth gwasanaeth dwys i ofal maeth a gofalwyr maeth cefnogi

Maent yn gweithio'n ddwys ar sail un i un gyda theuluoedd hyd at wyth wythnos a llwyddwyd i atal cost sylweddol o £379,500 yn 2015/16 (er Mehefin, felly nid blwyddyn lawn). Mae'r mwyafrif o'r gost a arbedwyd wedi dod o ddychwelyd plant o leoliadau preswyl dwys cost uchel yn ogystal â rhai yn dychwelyd adref o ofal.

Rhaid rhoi ystyriaeth i argymhellion eraill yn yr adolygiad wrth ddatblygu'r strategaeth Ymyrryd yn Fuan ac Atal i'r Awdurdod. Yn enwedig felly, y 'drws ffrynt sengl', mynediad at wasanaethau a thîm amlasiantaethol gan fod y rhain yn elfennau allweddol sy'n cysylltu â gofynion y Ddeddf.

Arfer dda

- Gweithwyr pwrpasol gyda sgiliau i ymgysylltu â'r teulu a gweithio'n ddwys â nhw ar sail un i un am hyd at wyth wythnos gan fod gyda'r teulu'n rheolaidd yn ystod yr wythnos.
- Mae gan y tîm yr amser i greu perthynas gyda'r teulu gan ddod i'w hadnabod a chreu ymddiriedaeth sy'n cynorthwyo i allu adnabod beth yw anghenion y teulu a gweithio gyda nhw i ddatrys problemau a gwella eu sgiliau.

**Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd**

Gwasanaeth statudol yw Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd yn cynnwys tîm amlasiantaethol yn ymestyn dros Wynedd a Môn ac sy'n gweithio gyda rhieni a'r teulu estynedig yn fuan cyn i blant fod mewn perygl o fynd i ofal. Gwneir hyn trwy ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y teulu fel bod modd i rieni wella eu sgiliau rhiantu. Mae'r tîm yn gweithio gyda'r teulu mewn dau gam - y cam cyntaf yw cefnogaeth ddwys am hyd at chwe wythnos. Wedi gwerthusiad o'r mannau yr arbrofwyd â nhw dangoswyd gwelliant cadarnhaol sylweddol i deuluoedd yn sgil yr ymyrraeth ddwys. Mae ymyrraeth yr ail gam yn parhau am ddeuddeng mis ar lefel is o gefnogaeth ond dangoswyd fod y gwelliannau'n cael eu cynnal yn ystod yr adeg hon.

Mae'r tîm yn cynnwys gweithiwr cymdeithasol ymgynghorol, tri arbenigwr ymyrraeth teulu sy'n weithiwr cymdeithasol, nyrs iechyd meddwl a nyrs ysgol. Yn y flwyddyn ddiwethaf, maent wedi gweithio gyda 30 o deuluoedd ac wedi gweld cynnydd mewn cyfeiriadau gan arwain at gadw rhestr aros ar brydiau.

Yn ôl adborth y gwerthusiad:

*'Roedd llawer o deuluoedd yn croesawu'r dull o weithredu lle rhoddir y teulu wrth galon gwasanaeth y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd ac roeddynt yn gweld hyn yn ffordd llawer mwy o effeithiol o weithio na'r gefnogaeth draddodiadol yr oeddynt wedi'i chael yn y gorffennol. Yn gyffredinol, roedd gweithredu fel teulu yn agor y llinellau cyfathrebu rhwng aelodau'r teulu ac yn eu cynorthwyo i ddeall ac empatheiddio gyda'r naill a'r llall. I lawer o deuluoedd, roedd yr empathi a'r ddealltwriaeth hon yn parhau y tu draw i oes y rhaglen ac roedd mewn cyferbyniad llwyr â sut oedd pethau cyn oeddynt ymwneud ârhaglen y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd.'*

Mae llawer o'r teuluoedd ar lefel gritigol o angen ac mae gofyn cefnogaeth sylweddol arnynt. O'r herwydd, mae gallu ymgysylltu â'r teuluoedd i gael gwelliannau'n ganlyniad cadarnhaol.

Mae'r Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd ynghyd â'r Tîm Ymyl Gofal yn adnodd gwerthfawr i'r gwasanaethau Plant a Theuluoedd sydd â'r posibilrwydd o wneud arbedion sylweddol trwy ostwng nifer y plant mewn gofal neu ddychwelyd plant o leoliadau drud y tu allan i'r sir i'r ardal leol.

Arfer dda

- Fel yr uchod gyda'r tîm ymyl gofal maent yn gallu gweithio gyda'r teulu'n ddwys a rhoi cefnogaeth i wella'u sefyllfa.
- Tîm amlasiantaethol a all roi arbenigedd i gefnogi teuluoedd a chydweithwyr
- Mae teuluoedd yn teimlo'u bod yn rhan o'r broses ac yn teimlo bod ganddynt rywfaint o fewnbwn i'r gefnogaeth

**Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Fframwaith**

Nod y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yw gostwng nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae chwe rhan i'r fframwaith, sydd wedi'u profi i fod yn effeithiol wrth gynyddu gwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid pan gânt eu gweithredu gyda'i gilydd fel rhan o strategaeth. Dyma nhw:

- Adnabod yn fuan,
- Broceriaeth well a chydlynu cefnogaeth yn well;
- Gwaith tracio a throsglwyddo cryfach o ran pobl ifanc;
- Sicrhau fod y ddarpariaeth yn cwrdd ag anghenion pobl ifanc;
- Canolbwyntio ar sgiliau cyflogadwyaeth a chyfleoedd am gyflogaeth ymhlith pobl ifanc; a
- Mwy o atebolrwydd

Mae awdurdodau lleol wedi cael cyfrifoldeb y rôl o arwain ar weithredu'r Fframwaith, gan weithio'n agos gyda Gyrfaoedd Cymru, gwasanaethau ieuenctid, ysgolion, darparwyr hyfforddiant i'r rhai hynny sy'n 16 neu'n hŷn a phartneriaid eraill. Mae'r Rheolwr Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yng Ngwynedd yn atebol am sicrhau fod cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru a chynllun strategol yr awdurdod lleol (meysydd allweddol) yn cael eu gweithredu a'u monitro'n effeithiol.

Nod cyffredinol y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yw gostwng:

- Nifer y bobl ifanc oed 16 i 18 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant i 9% erbyn 2017
- Cyfran y bobl ifanc oedran 19 i 24 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yng Nghymru ac sy'n berthnasol i'r Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd erbyn 2017.

Sut ydym yn cymharu â Chymru ar lefel leol?

Data blwyddyn 11:

Mae'r siart yn dangos y canlyniadau gan arolwg blynyddol Gyrfaoedd Cymru o'r holl bobl ifanc a adawodd ysgolion a gynhaliwyd yng Nghymru sy'n edrych ar gyrchfannau hyd at ddiwedd mis Hydref o bob blwyddyn. Mae canlyniadau'r arolwg hwn yn rhoi amcangyfrif o nifer y bobl ifanc 16 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yng Ngwynedd a Chymru.

| | **2007** | **2008** | **2009** | **2010** | **2011** | **2012`** | **2013** | **2014** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwynedd | 4.4 | 5.7 | 4.2 | 3.6 | 3.6 | 3.0 | 2.4 | 1.7 |
| Cymru | 6.9 | 7.1 | 5.7 | 5.4 | 4.4 | 4.2 | 3.7 | 1.7 |

Dengys y data fod y bobl ifanc sy'n gadael ysgol, yn gyffredinol, yn ymgysylltu'n llwyddiannus â'u cyrchfan cyntaf wedi blwyddyn 11 - gallai hyn fod yn effaith y gefnogaeth a'r ddarpariaeth gywir cyn 16, adnabod dysgwyr ac ymyrryd yn fuan yn gywir yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth.

Pobl Ifanc 16-24:

Mae'r data'n dangos y canlyniad data Haen 5 Gyrfaoedd Cymru o ymgysylltu a datblygu pobl ifanc 16-18 a Data Chwilwyr Gwaith ar gyfer y grwpiau 18-24 trwy NOMIS a'r Adran dros Waith a Phensiynau. Mae'n dangos y cynnydd yn nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg/hyfforddiant na chyflogaeth yng Ngwynedd. Mae data haen 2 data hefyd yn cyfeirio at bob person ifanc nad yw'n barod / ar gael i gyflogaeth/addysg/hyfforddiant oherwydd ei rwystrau lluosog. Mae hon yn faes allweddol y mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn rhoi sylw iddo yng Ngwynedd o ran ymgysylltu ieuenctid - y gefnogaeth iawn, y ddarpariaeth iawn.

**Nifer yn haen 1-5 dros 12 mis (Mai 2015)**

| **Haen 1** | **Haen 2** | **Haen 3** | **Haen 4** | **Haen 5** |
|---|---|---|---|---|
| **128** | 80 | 365 | 498 | 1597 |

Nododd papur ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Medi 2013) *Young People not in Education, Employment or Training* fod ymchwiliad 2010 y Pwyllgor Menter a Dysgu i mewn i'r pwnc wedi casglu: '<u>nid oes prinder dyhead na strategaethau I bobl ifanc yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, ond mae angen mwy o weithredu effeithiol ar y llawr</u>' ac '<u>mae'n hynod bryderus fod y system yn methu cymaint o'n pobl ifanc</u>'. Argymhellodd y pwyllgor hefyd y dylid canolbwyntio llawer mwy ar y grŵp oedran 16 - 25 ehangach gan fod y strategaethau hyd yn hyn wedi canolbwyntio ar yr oedran 16 -18.

Mae'r effaith o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant hefyd yn gysylltiedig gyda ffurfiau hwyrach o anfantais a chanlyniadau lles gwael. Yn eu plith mae:

- Pyliau rheolaidd o ddiweithdra ôl-18;
- Pan fyddir mewn cyflogaeth, llai o ddiogelwch swydd a chyfraddau cyflog is (tangyflogaeth);

Cyfuno'r ddau uchod - cyfnodau byr o dangyflogaeth gyda chyfnodau o ddiweithdra - mewn cylchoedd o fod i mewn ac allan o waith;

- Bod yn feichiog yn eu harddegau a rhiantu'n gynnar;
- Troseddu cyson gan ieuenctid gan arwain at ddedfrydau yn y carchar;
- Tai ansicr a digartrefedd;
- Problemau iechyd meddwl a chorfforol;
- Defnyddio cyffuriau anghyfreithlon a marw'n gynt.

Gan ddefnyddio dull gweithredu Prifysgol Efrog, gwaith ymchwil Cole (2010), os yw'r grŵp cyfredol hwn yn parhau i fod yn grŵp o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, byddai'r gost ariannol i'r sector cyhoeddus yn unig yn £60 miliwn yng Ngwynedd.

Beth mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn ei gynnig i bobl ifanc?

Mae dau gynnig newydd i bobl ifanc trwy'r fframwaith:

- Y cyntaf yw neilltuo pwynt cyswllt sengl (gweithiwr arweiniol) i'r bobl ifanc mewn mwyaf o berygl er mwyn cynorthwyo i sicrhau y rhoddir cefnogaeth mewn modd cydgysylltiedig a chydlynol ac sy'n gweithio i gwrdd â'u hanghenion. Mae Gwynedd yn rhoi sylw i hyn trwy'r Panel Ymgysylltu Pobl Ifanc Ôl 16.

- Yr ail yw datblygu Gwarant Ieuenctid rhagweithiol a chadarnhaol fydd yn gymorth i sicrhau fod gan bob person ifanc fynediad at le addas i ddysgu ôl 16.

Arfer dda yn y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid:

1. System Adnabod yn Fuan

Mae'r Cydlynwyr Ymgysylltu a Datblygu o chwe awdurdod lleol gogledd Cymru wedi gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu a gweithredu offeryn proffilio dysgwyr rhanbarthol sy'n rhoi data sylfaenol ar ddysgwyr sydd mewn perygl o beidio â mynd i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant wedi iddynt gyrraedd 16.

Nod yr offeryn proffilio dysgwyr yw:


- Adnabod dysgwyr sydd mewn perygl o ddatgysylltu yn 16;
- Blaenoriaethu adnoddau a chefnogaeth ar gyfer dysgwyr a adnabuwyd;
- Neilltuo Gweithiwr Allweddol;
- Adnabod bylchau mewn darpariaeth / cefnogaeth;

- Cefnogaeth darged mewn dangosyddion penodol e.e. presenoldeb; Plant sy'n Derbyn Gofal;

- Tracio datblygiad dysgwyr sy'n cael cefnogaeth/darpariaeth a mesur yr effaith yn erbyn dangosyddion;

- Sicrhau cysondeb yn y modd y caiff dysgwyr eu hadnabod;

Mae'r offeryn proffilio dysgwyr yn fyw ar draws y rhanbarth ac yn adnabod y dysgwyr sydd mewn perygl o beidio â mynd i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant mewn naw dangosydd allweddol. Mae'r offeryn hwn yn defnyddio system sgorio ac yn neilltuo dysgwyr i "fandiau" lliw. Mae'r system fandio'n ei gwneud yn bosib i Gydlynwyr Ymgysylltu a Datblygu/Awdurdodau Lleol/Ysgolion adnabod dysgwyr sydd mewn perygl o ddatgysylltu sydd, yn ei dro, yn blaenoriaethu adnoddau/cefnogaeth/darpariaeth.




2. Panel Ymgysylltu Pobl Ifanc Ôl 16

   - Partneriaeth amlasiantaethol yw'r panel a ddatblygwyd i adnabod y bylchau a'r rhwystrau sy'n rhwystro pobl ifanc rhag mynd i addysg, cyflogaeth a/neu hyfforddiant. Mae gan y Panel rôl allweddol yng nghyd-destun tracio pobl ifanc (16-18 oed) sydd yn haen 1/2 categori peidio â mynd i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn ogystal â thrafod pobl ifanc sydd mewn perygl o beidio â mynd i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae gan y Panel hefyd rôl yn cefnogi grŵp rheoli'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid i weithio ar y cynllun gweithredu lleol.

   - Mae'r Panel Ymgysylltu 16+ yn rhannu gwybodaeth yn unol â'r protocol rhannu gwybodaeth sydd wedi'i gymeradwyo gan WASPI a'i lofnodi gan yr holl bartneriaid allweddol.

   - Ymhlith aelodau'r panel mae'r sector statudol, Gyrfaoedd Cymru, Canolfan Byd Gwaith yn ogystal â darparwyr y trydydd sector.

   - <u>Nod cyffredinol y panel yw</u> - adnabod gweithwyr / sefydliad allweddol fydd yn gweithio gyda phobl ifanc / yn datblygu pecynnau cefnogi a darpariaeth addas i ailymgysylltu pobl ifanc / hyrwyddo gwaith rhannu gwybodaeth rhwng y prif asiantaethau / adnabod cyfleoedd i wasanaethau / sefydliadau weithio gyda'i

gilydd i wella gwaith ailymgysylltu pobl ifanc ar lefel leol/ trafod bylchau mewn darpariaeth leol a chynnig argymhellion/syniadau. Ceisio barn pobl ifanc ar unrhyw ddatblygiadau/ darpariaeth a gwrando ar lais yr unigolyn / monitro ac adolygu i ba raddau mae nifer y bobl ifanc sy'n ddi-waith yn gostwng.

- Mae gan y panel enghreifftiau o arfer ac effaith dda o ran adnabod y gefnogaeth/ddarpariaeth iawn i bobl ifanc sydd â rhwystrau lluosog trwy weithio'n gydlynol i sicrhau canlyniadau. Mae'r holl bartneriaid yn rhagweithiol i ddilyn i fyny pwyntiau gweithredu a adnabuwyd yn eu sefydliad ac yn cefnogi'r dull o weithredu'n amlasiantaethol. Mae'r holl adnoddau'n statudol ac yn ychwanegol at y tasgau dydd i ddydd. Mae'r panel yn gweithredu ac yn cyflawni ei waith gan roi ei gleient wrth galon yr hyn y mae'n ei wneud.

**Trac 11 - 19 yn seiliedig ar ysgol ( Cronfa Gymdeithasol Ewrop - £2 filiwn 2015-2018)**

Cynllun newydd yw Trac sy'n gweithredu strategaethau atal mewn ysgolion a chymunedau i gefnogi grwpiau bregus o blant a phobl ifanc. Mae'r cynllun yn ymateb i'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid sydd â'r nod o ostwng nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Mae cynllun Trac yn gweithio gydag ysgolion i dargedu disgyblion ym mlynyddoedd 7 i 13 sydd wedi'u hadnabod fel rhai sy'n debygol o adael addysg. Nod y gwaith yw cymell, codi hyder a hunan-barch disgyblion gan godi eu dyheadau er mwyn gostwng y perygl iddynt beidio â mynd i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Mae'r gefnogaeth a ddarperir yn benodol i gwrdd ag anghenion y disgyblion sy'n gweithio gyda gweithiwr allweddol sy'n rhoi cefnogaeth briodol. Gwneir gwaith efo'r teulu hefyd i sicrhau y caiff y gefnogaeth yn yr ysgol ei chynnal yn y cartref hefyd. Bydd gan y rhan fwyaf o bobl ifanc a gefnogir anghenion cymhleth yn gysylltiedig â:

- Problemau cymdeithasol ac emosiynol
- Iechyd meddwl
- ymddygiad
- hyder a hunan-barch isel
- cymhelliant isel

Adnabyddir pobl ifanc trwy system adnabod yn fuan benodol a ddatblygir ar gyfer bob ysgol ac a drafodir yna mewn panel i adnabod y rhai hynny sy'n datblygu i gael cefnogaeth Trac. Mae'r panel yn cynnwys gwasanaethau perthnasol sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd i ostwng gwaith dyblygu.

Yn rhan o dîm y staff mae:

- Gweithiwr cymdeithasol addysgol
- Gweithiwr iechyd meddwl

- Gweithiwr ieuenctid
- Gweithiwr presenoldeb
- Gweithiwr iechyd a chwarae
- Mynediad at wasanaeth gan GISDA a gomisiynwyd i weithio gyda phobl ifanc

Bu 231 o gyfeiriadau gyda 190 wedi'u derbyn hyd yn hyn. O ardal Meirionydd y daw'r ganran uchaf o ddisgyblion a gyfeirir.

Arfer dda

- Mae gan bobl ifanc gefnogaeth benodol sy'n cwrdd â'u hanghenion unigol yn hytrach nag mewn grŵp ac, i rai, caiff y teulu hefyd eu cefnogi i sicrhau y caiff y gefnogaeth ei chynnal yn y cartref hefyd.
- Gweithio'n amlasiantaethol a rhannu gwybodaeth
- Adnabod pobl ifanc yn fuan trwy system adnabod yn fuan
- Cymysgedd da o sgiliau staff sy'n gallu cefnogi pobl ifanc

**Ad-Trac 16 - 24**

Bydd AD-TRAC 16-24 yn gweithredu fel partneriaeth amlasiantaethol i gefnogi pobl ifanc 16-24 sydd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant i ymgysylltu. Y nod yw ei gwneud yn bosib i bobl ifanc, fregus gyflawni eu potential dysgu ac economaidd llawn trwy ddarparu cefnogaeth ychwanegol, unigoledig a dwys er mwyn sicrhau fod ganddynt y sgiliau a'r hyder i fynd i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant; a gostwng niferoedd y bobl ifanc yng ngogledd Cymru nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant

Dadansoddiad Lleol a Grŵp Targed:

Gyda'r prosiect hwn bydd modd i'r awdurdod lleol roi cefnogaeth / darpariaeth ychwanegol i bobl ifanc 16-24, sydd y grŵp anos i'w cynorthwyo, sydd â rhwystrau lluosog ac nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, Byddir yn mynd i'r afael â hyn trwy wasanaethau effeithiol 'Cadw mewn Cysylltiad a chydweithio yn yr awdurdod lleol, gan gysylltu â phartneriaid allweddol. Nod y prosiect fydd cael 400 o bobl ifanc i waith dros dair blynedd.

Er mwyn gostwng rhagor ar nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, bydd AD-TRAC 16-24 yn:

- Targedu pobl ifanc 16-24 sydd yn y categori dim mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, nad ydynt yn barod i/gallu ymgysylltu mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (Haen 2)
- Targedu pobl ifanc 16-24 nad ydynt yn ymgysylltu â gwasanaethau prif lif trwy waith cynnal uniongyrchol (Haen 1)
- Targedu'r rhai sy'n Gadael Gofal ôl 16.

- Targedu pobl ifanc 16-24 sy'n wybyddus i Gyrfaoedd Cymru a Byd Canolfan Gwaith ac sy'n economaidd anweithgar, fod bynnag bydd yn ychwanegol at wasanaethau prif lif (Haen 3)

- Datblygu strategaeth gynnal 'Cadw mewn cysylltiad' er mwyn targedu'r grŵp 'cudd' o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Mae dadansoddiad diweddar o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yng Ngwynedd wedi nodi fod ganddynt ystod o rwystrau a ffactorau lluosog sy'n eu hatal rhag mynd i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Ymhlith y rhain mae hyder isel, hunan-barch isel, dim cymhelliant na chefnogaeth gan rieni, problemau iechyd meddwl a llesiant, dim sgiliau bywyd a ffordd o fyw sy'n gyffredinol anhrefnus. Mae hon yn thema gyffredin ar draws yr holl grwpiau a adnabuwyd. Byddwn hefyd yn gweithio gyda phobl ifanc 16-24 sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a dengys dadansoddiad o ddata Haen 2 mai dyslecsia/dyspracsia/ADHD/Asperger ac anawsterau dysgu cymedrol i isel yw'r anghenion dysgu ychwanegol mwyaf cyffredin.

Bydd y prosiect hefyd yn gweithio'n agos gyda darparwyr lleol i dargedu pobl ifanc y gwyddys eu bod yn gadael darpariaeth statudol yn gynnar, ac adnabod pobl ifanc trwy'r panel Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid ôl 16, lle bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda sefydliadau statudol a'r trydydd sector a allai fod â gwybodaeth am bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda phartneriaid allweddol i weithredu'r prosiect yn llwyddiannus, yn enwedig felly gynghorydd yr Adran dros Waith a Phensiynau a'r gefnogaeth/ddarpariaeth Iechyd Meddwl a Llesiant trwy Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.

**Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid**

Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid dros Wynedd a Môn yn gwneud gwaith atal gyda phobl ifanc rhwng 8 ac 17 oed i'w hatal rhag troseddu lle mae perygl iddynt wneud hynny ac atal y rhai sydd wedi troseddu rhag troseddu'r eilwaith. Maent yn gweithio gyda'r heddlu, y gwasanaethau cymdeithasol, addysg, CAMHS ac maent ganddynt dîm gydag amryfal sgiliau, gweithiwr cymdeithasol, ymyrraeth riantu, gweithiwr cefnogi/allweddol.

Mae gan lawer o'r bobl ifanc a gefnogir broblemau gyda chamddefnyddio canabis ac mae gan lawer broblemau cyfathrebu oherwydd problemau gyda'u hiaith a'u lleferydd. Oherwydd y problemau hyn, mae gan lawer o'r bobl ifanc hyn broblemau rheoli tymer sy'n arwain at wrthdaro.

Dechreuodd cynllun newydd ym Mai 2014 o'r enw Biwro Cyfiawnder Ieuenctid sydd â'r nod o arallgyfeirio pobl ifanc rhag cael collfarnau troseddol. Mae'r cynllun wedi cael ychydig o ganlyniadau da i bobl ifanc gan eu cadw rhag aildroseddu/mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol.

Mae'r nifer sy'n mynd i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf wedi bod yn gostwng dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf a bu gostyngiad pellach o 56 yn 2013/14 i 38 yn 2014/15 sy'n galonogol.

Arfer dda

Mae cael y tîm ymyrryd yn gynnar wedi bod o gymorth i gefnogi nifer o'r bobl ifanc sydd mewn perygl o fynd i'r system cyfiawnder ieuenctid neu sydd yno am y tro cyntaf. Mae gan y tîm sgiliau amrywiol ac yn gallu gweithio gyda phobl ifanc a rhieni.

**Addysg**

**Pecyn 25**

Mae'r prosiect hwn yn ymwneud â gweithio gyda phobl ifanc mewn ysgolion uwchradd sydd â phroblemau emosiynol ac ymddygiadol ac nad ydynt, am wahanol resymau, yn gallu ymgysylltu mewn addysg ffurfiol.

Cynigir i'r bobl ifanc a adnabuwyd 25 awr o addysg fel bod modd iddynt gael TGAU yn y tri phwnc craidd. Mae'r cynllun yn gweithio gyda'r gwasanaethau eraill megis TRAC, colegau, Gyrfaoedd Cymru ac mae'r bobl ifanc hefyd yn cael y cyfleoedd i gael profiad gwaith ac mae gan bob un weithiwr allweddol.

Er Ionawr 15 rhoddwyd i ddisgyblion gefnogaeth trwy Pecyn 25 ac, yn sgil hyn, mae wyth yn astudio tuag at dri phwng TGAU gyda dau yn cymryd dau bwnc ychwanegol.

**Anghenion Addysgol Arbennig a'r gwasanaeth cynhwysiant**

Mae'r broses ar gyfer cefnogi plant ag anghenion addysgol arbennig sy'n ymwneud ag iaith a lleferydd yn newid gyda haen newydd yn cael ei weithredu er mwyn adnabod angen a chefnogi plant yn unol â hynny. Mae'r dull gweithredu hwn wedi'i ddatblygu er mwyn sicrhau y caiff y rhai â'r anghenion gwirioneddol eu cefnogi'n amserol o fewn yr uned iaith a lleferydd ond bod y rhai hynny ag anghenion is hefyd yn cael cefnogaeth mewn ysgolion.

Mae gan Swyddogion Lles Addysg hefyd rôl i sicrhau fod plant yn mynd i'r ysgol ac y cânt gefnogaeth i wneud hynny. Maent yn gweithio gyda'r ysgolion, y plant a'r rhieni i sicrhau fod y plant yn cael yr addysg y maent yn ei haeddu.

**Plas Pawb**

Mae Plas Pawb yn darparu gwasanaethau Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf a hefyd yn rhedeg crèche i blant o dri mis oed i oedran ysgol. Cynigir grantiau gofal plant i deuluoedd trwy gydlynwyr Gyda'n Gilydd er mwyn i blant fynd i Gylch Meithrin yn ddwyflwydd oed.

Mae'r gwasanaethau a ddarperir yn y ganolfan yn dibynnu ar grantiau trwy **Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf sydd, ill dau, yn dod i ben ym Mawrth 2017.**

**Y Gwasanaeth Ieuenctid**

Mae'r gwasanaethau ieuenctid yng Ngwynedd yn gweithio gyda gwasanaethau addysg ac yn y gymuned er mwyn adnabod y rhai hynny y gallai bod angen cefnogaeth arnynt ac yn darparu gweithgareddau yn y gymuned i blant a phobl ifanc fynd iddynt. Maent yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc rhwng 11 a 25 i ddatblygu eu sgiliau trwy amryfal gynlluniau e.e. gwobrau Dug Caeredin.

## Y Ddarpariaeth Iechyd

### Ymwelwyr Iechyd

Mae ymwelwyr iechyd yn wasanaethau cyffredin ac mae ganddynt rôl unigryw i gefnogi teuluoedd ar y cyfle cyntaf pan gaiff plentyn ei eni. Mae ymwelwyr iechyd yn gallu creu perthynas gyda'r rhiant/rhieni trwy'r ymweliadau a chaiff datblygiad y plentyn ei fonitro. Mae'r ymwelydd iechyd yn gallu cyfeirio'n briodol pe ceid unrhyw broblemau sy'n peri pryder.

Rhwng 300 a 400 o deuluoedd yw llwyth gwaith cyffredin ymwelwyr iechyd. Maent yn rhoi cefnogaeth i rieni'n seiliedig ar eu gwybodaeth a'u sgiliau ond hefyd gyda hyfforddiant ychwanegol sy'n ymwneud â:

- Rhiantu gan ddefnyddio'r rhaglenni Solihul ac 'Blynyddoedd Rhyfeddol'
- Ymyrraeth fer ar gyfer rhoi'r gorau i ysmygu
- Codi pwysau fel problem
- Cysgu - hyfforddiant millpond

Mae'r gefnogaeth a ddarperir i deuluoedd yn dibynnu ar eu hanghenion a bydd angen mwy o gefnogaeth ddwys ar y rhai hynny ag anghenion uwch. Mae ymwelwyr iechyd yn gyson wedi bod y cyfeirwyr uchaf i Deuluoedd Cyntaf yng Ngwynedd ers y cychwyn cyntaf sy'n galonogol gan fod teuluoedd yn amlwg yn cael eu hadnabod a'u cefnogi'n fuan.

Mae problemau wedi'u hadnabod o amgylch iselder ysbryd wedi genedigaeth a hunan-barch isel a chaiff y rhain sylw trwy ddatblygu gwaith grŵp.

Bydd Rhaglen Plentyn Iach Cymru - gwasanaeth ymwelwyr iechyd dwys - yn dod i Gymru yn 2016. Bydd y gwasanaeth yn ei gwneud yn ofynnol recriwtio mwy o staff gan y bydd y gwasanaeth yn cynnwys mwy o ymweliadau â theuluoedd.

### Nyrsys Ysgol

Mae nyrsys ysgol yn allweddol i hyrwyddo, gwella a gwarchod iechyd a lles plant a phobl ifanc oed ysgol i sicrhau eu bod yn cael yr iechyd gorau posib.

Yng Ngwynedd, mae nyrsys ysgol wedi cyflawni'r gwasanaethau a ganlyn:

- Ymyrraeth fer i alcohol i blant ysgol oed 15/16 yn sgil llawer o'r grŵp oedran hwn yn mynd i'r adran damweiniau ac argyfwng wedi iddynt yfed llawer iawn o alcohol
- Tymhorau ar gyfer twf yn ymwneud â phrofedigaeth a cholled
- Cynllunio teulu

Mae ganddynt hefyd glinig galw heibio wythnosol ym mhob un ysgol uwchradd. At hyn, maent yn darparu cysylltiad i deuluoedd gyda gwasanaethau CAMHS lle gwneir cyfeiriad.

Ysgolion Iach

Lansiwyd cynllun Llywodraeth Cymru 'Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru' yn 1999. Mae'r cynllun yn cymryd cyfrifoldeb am gynnal a hyrwyddo iechyd pawb sy'n 'dysgu, gweithio, chwarae a byw' ynddo trwy ddysgu disgyblion yn ffurfiol ynghylch sut i arwain bywydau iach a'i gwneud yn bosib iddyn nhw a staff gymryd rheolaeth dros agweddau o amgylchedd yr Ysgol sy'n cael dylanwad ar eu hiechyd. Mae'n hyrwyddo, gwarchod ac yn gwreiddio llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol ei gymuned trwy weithredu'n gadarnhaol[9].

**Gwasanaethau Trydydd Sector yng Ngwynedd**

Isod ceir detholiad o wasanaethau a gyflawnir gan y trydydd sector i ddarparu gwasanaeth ymyrraeth ac atal buan i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Lle gwyddys, mae gwybodaeth ar sut y cânt eu hariannu wedi'i chynnwys.

**GISDA**

Mae GISDA'n cynorthwyo pobl ifanc fregus rhwng 14 a 24 oed sy'n gweithio gyda nhw i ddatblygu eu sgiliau i fyw bywydau annibynnol. Cyflawnir nifer o brosiectau trwy amryfal ffrydiau ariannu sy'n canolbwyntio ar lety, cyflogaeth a chefnogaeth i rieni ifanc. Eu nodau yw:

- Cynnig cyfleoedd a sgiliau bywyd trwy ddarparu profiadau niferus i godi hyder, creu gwytnwch a sgiliau ymhlith pobl ifanc
- Sicrhau fod gan bobl ifanc y cyfle i wella eu hansawdd bywyd fel nad ydynt dan anfantais

Yn 2014/15 cefnogodd GISDA 376 o bobl gyda'r rhan fwyaf rhwng 18 a 21 oed. Hunangyfeiriadau oedd y rhan fwyaf o'r cyfeiriadau ond, fel arall, roedd 16% yn dod o'r gwasanaethau cymdeithasol a 10% o'r adran ddigartrefedd. Mae eu harian yn gymysgedd o roddion, lotri, amrywiol grantiau yn cynnwys awdurdod lleol.

Prosiect a ariannir gan y lotri yng Nghaernarfon, Blaenau Ffestiniog a Phwllheli yw'r gwasanaeth ar gyfer rhieni ifanc,'Rhieni Ifanc Ni'. Mae'n rhoi cefnogaeth i rieni ifanc yn ymwneud â rhiantu a gyflawnir mewn grŵp neu un i un, hefyd gefnogaeth gyda chyllidebu a chodi hyder. Daw y rhan fwyaf o gyfeiriadau gan Ymwelwyr Iechyd sy'n galonogol gan y gallant gyfeirio'n fuan er mwyn sicrhau fod rhieni ifanc yn cael y gefnogaeth yn fuan. Mae'r rhai hynny sydd wedi'u cefnogi gan y prosiect wedi nodi:

- Eu bod wedi gwella eu gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael yn eu cymuned
- Eu bod yn fwy hyderus i ymuno mewn gweithgareddau cymunedol
- Eu bod yn teimlo'n fwy hyderus a bod eu hiechyd corfforol a meddyliol wedi gwella
- Bod ganddynt berthynas well gyda'u plentyn

Mae hwn yn wasanaeth pwysig i rieni ifanc sy'n fregus ac a allai weld y byddai eu hanghenion yn gwaethygu heb gefnogaeth gan arwain at gefnogaeth fwy costus a dwys gan y gwasanaethau statudol. Mae'r gwasanaeth wedi gweithio gyda phum rhiant yr oedd eu plant ar y gofrestr amddiffyn plant ac mae tri o'r plant wedi dod oddi ar y gofrestr tra oedd y

[9] Iechyd Cyhoeddus Cymru http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/82249

rhieni'n gweithio gyda'r prosiect. Caiff y gwasanaeth hwn ei **ariannu tan ddiwedd Hydref 2016**.

Mae gan GISDA hefyd ddarpariaeth i bobl ifanc o'r enw 'Mentro Mlaen' sy'n eu cefnogi i symud ymlaen tuag at gyflogaeth trwy ddatblygu eu sgiliau a'u hyder. Rhan o'r gefnogaeth yw gwasanaeth therapiwtig sy'n cynorthwyo i leddfu straen a rhoi cefnogaeth i reoli tymer. Caiff y gwasanaeth ei ariannu trwy'r Lotri Fawr a daw i ben ddiwedd 2017.

Ceir hosteli i gefnogi sgiliau byw'n annibynnol sy'n ei gwneud yn bosib i bobl ifanc yna symud ymlaen i'w llety eu hunain. Hefyd y Caffi, sy'n rhoi profiad gwaith i bobl ifanc sy'n gweithio yn y caffi, yn ogystal â'r 'Fan Sgram' fan fwyd fasnachol.

**CAB**

Mae CAB yn sefydliad cenedlaethol. Yng Ngwynedd, rhoddant fynediad cyffredinol at gyngor a chymorth. Yn ogystal â hyn, maent hefyd yn rhan o'r gwasanaethau a gomisiynwyd i gefnogi teuluoedd trwy Deuluoedd yn Gyntaf.

Mae CAB yn darparu gwasanaeth gwerthfawr i deuluoedd trwy arian Teuluoedd yn Gyntaf gan roi cefnogaeth a chyngor ariannol yng nghyswllt dyled, budd-daliadau lles, trin arian a chefnogaeth i'r rhai sy'n dymuno dychwelyd i addysg/hyfforddiant a chyflogaeth.

Yn sgil y gefnogaeth a roddwyd i deuluoedd yng nghyswllt arian sy'n ymwneud â dyled, cafodd rhyw gymaint o ddyled ei dileu (£393519.92 yn 2014/15) a'i gostwng mewn achosion eraill a chytunwyd ar gynllun ad-dalu fforddiadwy. Yn sgil y gefnogaeth i'r rhai hynny sy'n ymwneud â budd-daliadau lles, mae teuluoedd wedi cael cyfanswm o £524459.54 yn ystod y flwyddyn 2014/15.

At hyn, mae CAB wedi gweld cynnydd yn nifer y teuluoedd y mae angen cefnogaeth gyfreithiol ychwanegol arnynt yng nghyswllt materion cyflogaeth a thai. Darparwyd hyn fel gwasanaeth gwerth ychwanegol yn ychwanegol at yr hyn a ddarperir dan y contract.

Mae teuluoedd hefyd wedi elwa o arian grant i'w cefnogi i allu cael hyfforddiant a fydd, yn ei dro, o gymorth i gael cyflogaeth neu, lle maent eisoes yn gweithio, i gynyddu eu hincwm.

Adborth y rhieni i'r gefnogaeth a roddwyd yng nghyswllt cefnogaeth ariannol yw eu bod yn gallu trin eu harian yn well, mae ganddynt ddealltwriaeth well o'u hawliau ac mae hyn wedi gwella eu hiechyd meddwl. Heb y gefnogaeth, byddai teuluoedd yn parhau i fod mewn dyled gan arwain at golli eu cartref, o bosib, methu â darparu bwyd a gwres i'r cartref gyda'r rhain i gyd yn arwain at straen a all waethygu a throi'n broblemau mwy cymhleth i blant sy'n byw dan amgylchiadau o'r fath.

**Barnardos**

Canolfan i'r teulu ym Mlaenau Ffestiniog yw Caban Bach Barnardos ac mae'n adnodd gwerthfawr i aelodau'r gymuned sy'n ei defnyddio. Mae gan Caban Bach feithrinfa economi cymysg ar y safle ac mae'n gallu darparu crèche symudol. Mae'r gwasanaeth cefnogi'r teulu'n darparu rhiantu seiliedig ar dystiolaeth a chefnogaeth benodol i'r teulu trwy'r cyfan o Ddwyfor a Meirionnydd. Y rhaglennu rhiantu a gyflawnir yw - cyfres lawn y rhaglenni

Blynyddoedd Rhyfeddol h.y. - Babi, Plentyn bach, Sylfaenol, Oed Ysgol, Uwch, Dysgu Gartref

'Nurture Links' - Rhieni'n Meithrin a Phos rhiantu

'Escape' a 'Parallel Lines'

Ymdrin ag ymddygiad plant ac ymdrin ag ymddygiad pobl ifanc yn eu harddegau

Ymwybyddiaeth ofalgar sydd wedi'i theilwrio ar gyfer rhieni

Rhoddir cefnogaeth un i un trwy ddefnyddio gwahanol ddulliau gweithredu megis dull gweithredu Solihull, 'Five to Thrive' a 'Tros Gynnal Plant'

Darperir hefyd gyrsiau coginio a chyllidebu. Gall rhieni gael achrediad Agored Cymru am eu gwaith.

Caiff y Gwasanaeth ei gomisiynu trwy Deuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg. Caban Bach yw'r Darparwr arweiniol i gonsortiwm Teuluoedd yn Gyntaf o wyth asiantaeth sy'n rhoi cefnogaeth i deuluoedd plant rhwng 5-25 oed ac edefyn anabledd Teuluoedd yn Gyntaf. Ariennir y gwasanaeth trwy gyllideb graidd Barnardos yn ogystal â'r arian grant o **Deuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg sydd, ill dau, yn dod i ben ym Mawrth 2017**.

**Teulu Ni (a gynhelir gan Barnardos)**

Gwasanaeth ymyrryd yn fuan, ataliol a gwirfoddol yw hwn i deuluoedd bregus yng Ngwynedd lle mae'r plentyn hynaf rhwng 5 a 10 oed. Nod y gwasanaeth yw atal anghenion teuluoedd y mae angen cefnogaeth ychwanegol arnynt rhag mynd yn fwy cymleth gan arwain at yr angen am ymyraethau mwy dwys a chostus.

Mae'r gwasanaeth wedi darparu gwasanaeth un i un hyblyg a gwerthfawr iawn i gyfanswm o 149 o deuluoedd am gyfnod, ar gyfartaledd, o naw mis. Rhoddwyd cefnogaeth yn y cartref i ategu gwaith Gyda'n Gilydd ac ychwanegu gwerth ato. Bydis teulu oedd yn rhoi'r gefnogaeth ac roeddynt yn gallu treulio amser gwerthfawr gyda'r teuluoedd yn gweithio gyda nhw i adnabod eu hanghenion a chwrdd â nhw. Rhoesant gefnogaeth i deuluoedd i allu mynd am apwyntiadau meddygol yn ogystal ag am wasanaethau eraill yn seiliedig ar eu hanghenion unigol megis dosbarthiadau rhiant, cyrsiau coginio a dyddiau allan. Mae gwerthusiad o'r gwasanaeth wedi'i gwblhau yn dangos yr elw cymdeithasol ar fuddsoddiad. Am bob £1 a fuddsoddir, crëir gwerth o £5.17[10].

Prosiect a ariannwyd gan y lotri oedd hwn a **ddaeth i ben ddiwedd Mawrth 2016.** Nid oes rhagor o arian ar gael i barhau â'r gwasanaeth.

Arfer dda

- Rhoddwyd cefnogaeth un i un yn y cartref er mwyn cefnogi gwaith y Tîm o amgylch y Teulu a gwasanaethau eraill.
- Bu'r teulu elwa o weithgareddau yr oedd modd iddynt eu cynnal ar ôl cefnogaeth gyda mwy o ymgysylltu yn y gymuned gan ei gwneud yn bosib iddynt wrthsefyll mwy.

[10] Social Return on Investment Evaluation of Teulu Ni 2016, Dr Adam Richards, Mantell Gwynedd

**Y Bont**

Mae Y Bont yn darparu ystod o wasanaethau sy'n rhoi cefnogaeth i blant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu gwahanu oddi wrth eu teuluoedd am amryfal resymau.

Ymhlith rhai o'r gwasanaethau a ddarperir mae cynadleddau grŵp teulu Cwlwm a ariennir trwy'r Gwasanaethau Cymdeithasol a Theuluoedd yn Gyntaf. Daw'r gwasanaeth â'r teulu, gan gynnwys y teulu ehangach, a'u ffrindiau at ei gilydd i drafod yr opsiynau am ofal a lles y plentyn yn y dyfodol. Mewn rhai achosion, gall olygu fod plentyn yn aros gartref ac yn byw gyda'i rieni.

Gwasanaeth arall a ddarperir yw gwasanaeth cyfryngu i bobl ifanc lle maent mewn perygl o fynd yn ddigartref oherwydd fod y teulu wedi torri i lawr neu fod problem gyda thenantiaeth. Mae hefyd yn cynorthwyo pobl ifanc sydd wedi gadael cartref i gael yn ôl mewn cysylltiad â'u teulu. Teuluoedd yn Gyntaf sy'n comisiynu'r gwasanaeth hwn er mwyn cefnogi pobl ifanc.

**Gweithredu dros Blant**

Mae Gweithredu dros Blant yn rhoi gwasanaeth Gofalwyr Ifainc yng Ngwynedd i blant sydd â chyfrifoldeb gofalu. Rhydd hyn ysbaid o'r cyfrifoldebau gofalu yn ogystal â chefnogaeth emosiynol a'r cyfle i gwrdd â gofalwyr ifainc eraill. Ariennir y gwasanaeth trwy Deuluoedd yn Gyntaf a Chyngor Gwynedd.

Atodiad 2

Mesur Cost a Budd – Astudiaeth Achos

Dengys profion cychwynnol o'r gwaith dadansoddi ar deuluoedd yng Ngwynedd sydd wedi'u cefnogi trwy Deuluoedd yn Gyntaf, ychydig o arbedion yn seiliedig ar y teuluoedd unigol; er y daw hyn gyda rhybudd fod y canlyniadau negyddol posib yn seiliedig ar ganlyniad tebygol yn hytrach na gwirioneddol.

**Astudiaeth Achos** Teulu'n cynnwys mam, tad a dau o blant - merch pedair oed a mab blwydd oed.

Roedd y teulu'n cael trafferth gyda thŷ anaddas oedd yn cael effaith ar iechyd y plentyn ifancach ac iechyd meddwl y fam. Problemau gyda dulliau rhiantu rhwng y ddau riant gan nad oedd y fam yn teimlo'r ymlyniad gyda'i phlentyn cyntaf oherwydd nad oedd yn hyderus yn y modd yr oedd yn rhiantu ac roedd hyn yn cael effaith ar eu perthynas ac ar ymddygiad y plentyn. Roedd y fam yn dioddef ag iselder ysbryd oedd yn cael effaith ar ei hiechyd meddwl a'i pherthynas gyda'i phlant ac nid oedd ganddi'r hyder i ymdrin â materion yn y cartref. Roedd problemau gyda datblygiad y plentyn ifancaf oedd yn cael effaith ar ei iechyd, yn bennaf oherwydd nad oedd y tŷ'n addas. Roedd problemau hefyd gyda chysgu.

**Gydag ymyraethau a roddir yn eu lle trwy Deuluoedd yn Gyntaf**:
Cydlynydd, Cefnogaeth rhaglen riantu, Teulu Ni, Gweithiwr chwarae, cwnsela, sesiwn o ymwybyddiaeth ofalgar, CAB, Ymwelydd iechyd a Nyrs Feithrin, roedd cost lawn yr ymyrraeth **oddeutu £7,500**

Pe na fyddai'r ymyraethau wedi'u rhoi yn eu lle, roedd perygl y byddai'r problemau'n gwaethygu i'r pwynt y byddai'n rhaid ymyrryd yn statudol yng nghyswllt y teulu. Gallai'r berthynas gyda'r ferch fod wedi gwaethygu i'r pwynt ei bod yn dod yn fwyfwy gelyniaethus ac yn her. Ni fyddai problemau gyda'r tŷ wedi'u datrys, gydag iechyd y plentyn yn gwaethygu ar gost i'r gwasanaethau iechyd, yn ogystal ag iechyd meddyliol y fam yn dirywio a'r fam angen rhagor o ymyrraeth feddygol arni. **Amcangyfrif ceidwadol o gost yr ymyraethau rhag i'r angen waethygu yw £20,000**

**Mae gwahaniaeth sylweddol yn y gost yn seiliedig ar yr amcangyfrifon hyn bod arbediad posib o £12,500 ar un teulu'n unig wrth ymyrryd yn fuan.**

Dylid nodi mai amcangyfrifon o'r canlyniadau gwirioneddol ar gyfer y teulu yn hwyrach ymlaen yw'r rhain ac nid oes modd eu gwarantu. O'r herwydd, eu bwriad yw rhoi syniad o arbedion cost yn hytrach nag arbedion cost gwirioneddol.

| PWYLLGOR | PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **27/09/16** |
| **TEITL** | **AROLYGIAD AROLYGIAETH GOFAL A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYMRU (AGGCC) AC AROLYGIAETH GOFAL IECHYD CYMRU (AGIC) O'R GOFAL A'R CYMORTH A DDARPERIR GAN WASANAETHAU ANABLEDDAU DYSGU YNG NGHYMRU**<br><br>**Dolen i'r adroddiad:- http://cssiw.org.uk/our-reports/national-thematic-report/2016/national-inspection-care-and-support-for-people-with-learning-disabilities/?lang=en** |
| **AELOD CABINET** | **Y CYNGHORYDD W GARETH ROBERTS** |
| | |

**Cyflwyniad a chyd-destun**

1. Yn gyntaf, bydd yr adroddiad yma'n rhoi amlinelliad o'r weledigaeth ar gyfer gwasanaethau anableddau dysgu yng Ngwynedd ac yn ail, ceir cyflwyniad byr i'r arolygiad a gynhaliwyd yng Ngwynedd.

**Ein Gweledigaeth i Wynedd**

2. Mabwysiadwyd dull eclectig ar sail ranbarthol wrth ddarparu gwasanaethau i oedolion gydag anableddau dysgu yng ngogledd Cymru. Cafodd y dull eclectig yma ei gyfarwyddo gan ddealltwriaeth sylfaenol o'r theori systemau (Pincus & Minahan, 1973), grymuso, ymyraethau datrys problemau a chanolbwyntio ar gryfderau. Yn fwy penodol, mae'r gwasanaethau erbyn hyn yn cael eu siapio a'u datblygu i ddarparu ymyraethau sy'n canolbwyntio ar ddilyniant, cefnogaeth weithredol a chefnogaeth ymddygiad cadarnhaol (Carr & Sidener 2002).

3. Mae Cefnogaeth Weithredol yn faes blaenoriaeth allweddol yn null Gwynedd sy'n canolbwyntio ar roi dilyniant anghenion yn ganolog i'r holl ymyraethau, sydd yn ei hanfod yn grymuso defnyddwyr gwasanaeth i fyw bywydau bodlon. Mae cefnogaeth weithredol yn rhan allweddol o ataliad sylfaenol o fewn cefnogaeth ymddygiad cadarnhaol (PBS), a seiliwyd ar y cysyniad fod gwelliannau mewn ansawdd bywyd yn golygu gostyngiad mewn ymddygiad heriol (Allen, 2011; Allen et al; 2008, DoH, 2007; La Vigna et al 1989, Toogood et al; 2009, 2011). Mae Cefnogaeth Weithredol

a PBS yn rhannu'r un tarddiad ac yn darparu ffordd i staff weithredu gwerthoedd yn ymarferol ac wedi eu seilio ar dystiolaeth.

4. Mae gweledigaeth Gwynedd i'r dyfodol yn canolbwyntio ar gamu ymlaen a galluogi i annog annibyniaeth yr unigolyn. Golyga hyn bod y cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol wedi ei ddylunio i helpu dinasyddion i ganolbwyntio ar eu cryfderau a beth y medrant ei gyflawni yn ddiogel ar eu pennau eu hunain. Fel arfer, mae'r canlyniadau yn gwella ac mae'r costau yn lleihau oherwydd y mecanwaith cefnogi o 'symud ymlaen'. Felly, canolbwyntir ar helpu defnyddwyr gwasanaeth i gael/ail-feddu ar sgiliau byw yn annibynnol.

**Proses yr adolygiad**

5. Yn ystod diwedd 2015 a dechrau 2016 cwblhaodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) adolygiad cenedlaethol o ansawdd gofal a'r cymorth a ddarperir gan Wasanaethau Anabledd Dysgu yng Nghymru. Nod yr adolygiad oedd cloriannu:-

- *Pa mor dda mae'r awdurdodau lleol yn deall yr angen am ofal a chymorth i bobl ag anableddau dysgu yn eu hardaloedd, gan gynnwys cymorth i ofalwyr a datblygu gwasanaethau ataliol.*

- *Ansawdd yr wybodaeth, cyngor, cymorth, asesiad a'r cynllunio gofal a ddarperir a pha mor dda y perchir pobl ag anableddau dysgu fel dinasyddion cyflawn, cyfartal mewn statws a gwerth â dinasyddion eraill o'r un oedran.*

- *Sut mae arweinwyr da yn darparu gweledigaeth glir ar gyfer gofal a chymorth i bobl ag anableddau dysgu, sydd wedi ei hanelu at wella canlyniadau ac sy'n denu cefnogaeth ac ymrwymiad gan bartneriaid - gan gynnwys pobl ag anableddau dysgu a gofalwyr.*

6. Felly, fe edrychodd yr arolygiad ar ansawdd, effeithlonrwydd a diogelwch y gofal a'r cymorth a ddarperir i oedolion ag anableddau dysgu.

7. Roedd yr arolygiad yn cynnwys arolygiadau manwl o'r gwasanaethau mewn chwe awdurdod lleol yng Nghymru, ynghyd â throsolwg i ddarparu darlun ar lefel genedlaethol.

**Crynodeb o’r Prif Ganfyddiadau**

8. Isod, ceir crynodeb bras o ganfyddiadau allweddol yr arolygiad yng Ngwynedd:-

- *Mae'r Awdurdod wedi gweithredu ei ddull Ffordd Gwynedd o weithredu a'r nod yw ceisio rhoi pobl yn ganolog i waith y Cyngor a chyflenwi'r hyn sy'n bwysig iddynt mewn modd effeithlon. Blaenoriaeth gyntaf y tîm arweinyddiaeth oedd gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn ac oedolion ag anableddau corfforol. Nid yw moderneiddio gwasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu wedi bod yn flaenoriaeth.*

- *Mae gwaith da ar y cyd rhwng gwasanaethau iechyd a chymdeithasol ar lefel weithredol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir ar lefel strategol uwch. Nid oes cyfarfodydd rheolaidd ar lefel uwch er mwyn gwneud cynnydd ar y gwasanaeth ar y cyd, ac nid oes gweledigaeth a rennir ynglŷn â'r cyfeiriad a'r datblygiad yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae cymorth o fewn yr awdurdod ar gyfer gwella'r gwasanaeth anableddau dysgu, ac mae aelod o'r cabinet â chyfrifoldeb portffolio am y gwasanaeth. Maent yn weithgar ac yn gefnogol iawn o ran yr angen i foderneiddio'r gwasanaeth, a'r angen i wneud hyn ar y cyd â'r gwasanaeth iechyd.*

- *Gwelwyd bod ansawdd yr arferion o ran amddiffyn oedolion agored i niwed yn rhesymol yn yr achosion a welsom. Fodd bynnag, nid oedd modd i ni fod yn hyderus bod eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau swyddogion a'r trefniadau sicrhau ansawdd. Mae hwn yn faes y dylai'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol roi sylw iddo ar frys.*

- *Nid oedd asesiadau ac adolygiadau bob amser yn cael eu diweddaru, ac ni all yr Awdurdod fod yn sicr bod pobl yn derbyn y cymorth cywir ar yr adeg gywir, yn y man cywir, ac am y gost gywir, yn gyson.*

- *Yn gyffredinol, mae pobl yn derbyn gwasanaethau sydd wedi eu cydgysylltu ac sy'n gwneud synnwyr iddynt, ond nid oedd hyn yn wir bob amser. Gwelsom enghreifftiau da o arferion oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Fodd bynnag, roedd hefyd rhai enghreifftiau lle'r oedd dilyniant ar gyfer unigolion yn araf. Roedd rheolwyr gofal yn ymroddedig ac wedi datblygu perthynas gadarnhaol â phobl, gofalwyr a'u cydweithwyr. Roedd hon yn neges gyson yn yr arolygiad , ac mae ansawdd gwasanaethau anableddau dysgu'r Awdurdod yn dibynnu'n bennaf ar waith timau ardal.*

- *Mae gan yr Awdurdod gynllun comisiynu anableddau dysgu (2011-16), ond mae cynnydd o ran gweithredu'r cynllun hwn wedi bod yn dameidiog, yn hytrach na bod yn rhan o ymdrech benderfynol a phellgyrhaeddol i wella.*

9. Mae'r Awdurdod wedi cael cyfle i drafod yr adroddiad gyda'r arolygiaeth. Derbynnir y canfyddiadau allweddol a'r argymhellion ac er y bu peth trafodaeth am y pwyslais a'r brawddegu mewn rhai rhannau, mae

cytundeb cyffredinol am y meysydd a nodwyd fel rhai sydd angen gweithredu arnynt.

10. Dylid nodi bod rhai o’r camau a nodir eisoes wedi eu rhaglennu ar amser yr arolygiad ac mae'r rhain ac eraill bellach wedi eu gweithredu. Darperir argymhellion AGGCC a diweddariad ar ymateb y Cyngor yn y tabl isod.

**Argymhellion a Chynllun Gweithredu'r Arolygiad**

| | **Argymhelliad** | **Diweddariad ar ymateb Cyngor Gwynedd** |
|---|---|---|
| ***1.*** | ***Dylai'r awdurdod lleol roi mwy o flaenoriaeth i gynllunio i gwrdd ag anghenion pobl ag anableddau dysgu. Mae angen arweinyddiaeth i roi cyfeiriad ar gyfer gwella, cymorth proffesiynol ar gyfer staff, ac ymgysylltiad eang gyda rhanddeiliaid.*** | Ers Ebrill 2016 penodwyd Uwch Reolwr newydd gyda chyfrifoldeb cyffredinol am wasanaethau anableddau dysgu yng Ngwynedd, gan gynnwys y darparwr mewnol anableddau dysgu (gweler atodiad 1 i gael amlinelliad o'r strwythur newydd a fabwysiadwyd ym Mai 2016). Isod amlinellir crynodeb o'r newidiadau allweddol:-<br>• Penodiad Uwch Reolwr newydd;<br>• Penodiad Rheolwr Sirol newydd;<br>• Penodiad Ymarferwyr Uwch newydd;<br>• Penodiad Rheolwr Darparu newydd;<br>• Ffocws diwygiedig ar brosiectau datblygu a moderneiddio;<br>• Uno gofal cymdeithasol oedolion a'r uned ddarparu fewnol i oedolion ag anableddau dysgu;<br>• Secondiad i swyddog hyfforddi sy'n canolbwyntio ar hybu cymorth gweithgar, dilyniant a PBS.<br>• Sefydlu tîm rheoli i'r gwasanaeth (cynhaliwyd sawl cyfarfod a dyddiau datblygu). |
| ***2.*** | ***Dylai'r awdurdod lleol sefydlu sianeli cyfathrebu er mwyn ymgysylltu â phobl, teuluoedd a gofalwyr mewn modd ystyrlon, gan ddefnyddio gwasanaethau eiriolaeth yn ôl yr angen.*** | Mae’r gwasanaeth yn ymroddedig i sicrhau sianeli cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol. O ganlyniad, mae'r gwasanaeth wedi sefydlu ethos newydd o hyrwyddo sesiynau ymgysylltu arweinir gan unigolyn cyffredin. Mae’r sesiynau hyn yn canolbwyntio ar ddull anffurfiol 'paned a thrafod'. Bydd y gwasanaeth yn parhau i hwyluso ymgysylltu mwy ffurfiol wrth geisio barn benodol ar brosiectau moderneiddio penodol. Yn ychwanegol, yn Awst 2016 fe wnaeth y gwasanaeth gyflwyno ei newyddlen ei hun. |

| | | |
|---|---|---|
| ***3.*** | ***Mae angen cynllunio strategol gyda chydweithwyr iechyd i ddatblygu dyheadau a chynlluniau hirdymor. Dylid datblygu strategaeth gomisiynu ar y cyd rhwng gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion.*** | Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu cysylltiadau strategol cryfach gydag ein cydweithwyr iechyd, yn rhanbarthol ac yn lleol. Rydym yn anelu i ddatblygu ein strategaeth gomisiynu o ganlyniad uniongyrchol i asesiad anghenion ein poblogaeth a gyflwynir i LlCC yn 2017. Yn ogystal, bydd fforwm moderneiddio yn cael ei sefydlu yn Hydref 2016 gyda gwahoddiad i'r holl ran ddeiliaid allweddol (yn cynnwys cydweithwyr iechyd a darparwyr allanol) i fynychu fel aelodau craidd. |
| ***4.*** | ***Dylai'r awdurdod lleol barhau i ddatblygu a gwella ei gyfathrebu â darparwyr gwasanaethau, a'u cynnwys yn y gwaith o lunio datganiad o sefyllfa'r farchnad ac mewn trafodaethau am strategaeth gomisiynu ar y cyd gyda'r sector iechyd.*** | Gwahoddir yr holl ddarparwyr i fynychu'r fforwm moderneiddio a sefydlir yn Hydref 2016. Yn ychwanegol, gwahoddir yr holl ddarparwyr i fynychu digwyddiadau ymgynghori ar newidiadau gwasanaeth a all effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaethau. |
| ***5.*** | ***Dylai'r awdurdod lleol adolygu ei drefniadau ar gyfer diogelu oedolion, gan sicrhau bod eglurder o ran swyddogaethau a chyfrifoldebau a threfniadau sicrwydd ansawdd.*** | Cytunwyd i sefydlu uned diogelu a sicrwydd ansawdd ar gyfer gwasanaethau oedolion. Ar hyn o bryd hysbysebir swydd reoli newydd ar ddiogelu oedolion a sicrwydd ansawdd a bydd y sawl a benodir yn arwain ar waith yr uned dan oruchwyliaeth yr Uwch Reolwr Anableddau Dysgu, Iechyd Meddwl a Diogelu. |
| ***6.*** | ***Dylai'r awdurdod lleol adolygu'r ffordd y mae'n diogelu hawliau pobl lle mae eu rhyddid yn cael ei amddifadu er mwyn sicrhau bod hawliau dynol yn cael eu cefnogi a'u hamddiffyn yn iawn.*** | Fel yr uchod, bydd y Rheolwr newydd yn canolbwyntio ei sylw ef/hi ar y ffrwd waith benodol yma. Y nod yw y byddai sawl aelod o'r uned ddiogelu newydd yn derbyn hyfforddiant fel aseswyr 'Budd Pennaf' ac felly bydd ganddynt y sgiliau perthnasol i asesu'r oedolion hynny sy'n destun mesurau trefniadau diogelu rhag colli rhyddid (DoLs). Yn ychwanegol, bydd cynllun gwaith newydd sy'n canolbwyntio ar ddatblygu systemau a mesurau diogelu a sicrwydd ansawdd yn cael ei lunio a'i weithredu yn ystod hydref 2016. |
| ***7.*** | ***Mae angen i'r awdurdod lleol sicrhau y caiff perfformiad ei reoli'n briodol, a bod cyngor proffesiynol ar waith i gefnogi'r gweithlu.*** | Mae systemau yn weithredol i sicrhau bod y staff anableddau dysgu yn derbyn goruchwyliaeth broffesiynol gan yr Uwch Reolwr. |

**Casgliad**

11. I gloi, rydym yn credu fod y gwasanaeth yn camu ymlaen yn gadarnhaol drwy ymroddiad parhaus a phenderfyniad ei weithlu. Mae yna agwedd gadarnhaol ac ethos sy'n canolbwyntio ar gofleidio newid, rhannu syniadau a datblygu gwasanaethau er budd ein dinasyddion a'r gymuned ehangach. Mae sawl prosiect moderneiddio ar y gweill, sy'n canolbwyntio ar gael canlyniadau cadarnhaol i'r oedolion yr ydym yn eu cefnogi, eu gofalwyr, y gymuned ac ar ddarpariaeth gwasanaeth 'gwerth gorau'.

12. Bydd y cynnydd a wneir gan y Cyngor o ran ymateb i argymhellion yr AGGCC yn cael ei asesu a'i graffu gan yr Arolygiaeth yn eu cyfarfodydd chwarterol gyda'r Cyngor ac fe fydd yn cael sylw yn eu hadroddiad blynyddol. Bydd yr adroddiad hwnnw yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu yn unol â'r trefniadau arferol.

**Atodiad 1: Strwythur y Gwasanaeth**

# Ceryl Davies

Uwch Reolwr Oedolion: Anabledd Dysgu, Iechyd Meddwl a Diogelu

**Helen Fon Owen**
(Rheolwr Sirol Anabledd Dysgu )

**Olwen Ellis Jones**
(Rheolwr Trawsnewid)

**Selwyn Lloyd Jones**
(Rheolwr Sirol Anabledd Dysgu – Gwasanaeth Darparu)

**Lea Jones** (Gweithiwr Cymdeithasol Oedolion Bregus)
**Medi Griffiths** (Clerc)

**Llinos Parry**
(Uwch ymarferydd Rhan Amser Arfon)

**Maria Jones**
(Uwch ymarferydd Rhan Amser Arfon)

**Bethan Edwards**
(Uwch ymarferydd De Gwynedd )

**Meinir Llwyd**
**Bethan Mair Williams**
(Gweithiwr Cymdeithasol)

**Emma Williams**
**Janet Jones**
**Lea Jones**
**Lynnette Williams**

(Gweithiwr Cymdeithasol)

**Alwena Gordon**
**Nia Haf Jones**
**Manon Roberts**
**Helen Keri Williams**
(Gweithiwr Cymdeithasol)
**Cerys Williams** (Clerc)

**Andrew Guy** ( Goruchwyliwr Gofal Dydd)
**Olwen Lloyd-Jones** (Goruchwyliwr Gofal Cymunedol)
**Dilwyn Thomas** (Goruchwyliwr Gofal Dydd)
**Trefor Parry** (Swyddog Gwasanaeth dydd)
**Michael Bee** (Swyddog Gofal Dydd)
**Marian Hughes** (Rheolwr Cartref)
**Bethan Davies** (Rheolwr Cartref)
**Lowri Matulla** (Swyddog Cynllun Lleoli Oedolion)
**Dylan Owen** (Rheolwr Tai a Chefnogaeth)
**Alison Owen** (Swyddog Cynllun Lleoli Oedolion)
**Victoria Jones** (Goruchwyliwr Gofal Cymunedol)
**Victoria Williams** (Rheolwr Tai a Chefnogaeth)

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | Pwyllgor Craffu Gwasanaethau |
| **Teitl yr Adroddiad** | Datblygiad y Swyddfeydd Ardal |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 28 Medi 2016 |
| **Swyddog Perthnasol** | Arwyn Thomas, Pennaeth Addysg |
| **Aelod Cabinet Perthnasol** | Cynghorydd Gareth Thomas |

## 1. CYFLWYNIAD

Prif bwrpas yr adroddiad yw cyflwyno gwybodaeth i aelodau etholedig ar ddatblygiad y Swyddfeydd Ardal.

Mae Cabinet Cyngor Gwynedd eisoes wedi cefnogi argymhelliad i ymgynghori gydag ysgolion a llywodraethwyr ar yr egwyddorion craidd a fydd yn gosod sylfeini ar gyfer sefydlu cyfundrefn 'Addysg i Bwrpas i Wynedd.'

Mae nodweddion y gyfundrefn yn nodi'r blaenoriaethau fel a ganlyn:

- Gweithlu proffesiynol rhagorol ac arweinwyr ar bob lefel sy'n cydweithio, helpu a herio'i gilydd;
- Ysgolion rhagorol sy'n hyfyw i'r dyfodol; a
- Strwythur rheolaeth gydweithredol ar lefel dalgylch ac ardal fydd yn rhyddhau amser i benaethiaid arwain yn effeithiol ac athrawon i ganolbwyntio ar addysgu.

Mae argymhellion adroddiad annibynnol 'Arweinyddiaeth a Rheolaeth' diweddar y sir yn cyd-fynd ag egwyddorion y ddogfen *'Cymwys am Oes- cynllun gwella addysg ar gyfer dysgwyr 3-19 oed'* ac yn sefydlu egwyddor 'Ysgol Gwynedd' o'r newydd.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu datblygu dealltwriaeth gan arweinwyr eu bod yn gyfrifol am, ac yn rhan o, system ysgol ehangach, ac nid eu hysgol eu hunain yn unig gyda system lwyddiannus o'r fath yn bodoli trwy gael partneriaeth aeddfed, agored rhwng yr ysgolion, swyddogion yr awdurdod a GwE, yn seiliedig ar ddealltwriaeth gytunedig o swyddogaethau, perfformiad lefel system ac anghenion datblygiad. Mae gofyn bod gan arweinwyr yr amser, a disgwylir iddynt weithio yn eu hysgol ac ar draws 'system yr ysgol' mewn dull strwythuredig wedi'i gynllunio i greu 'Ysgol Gwynedd' gref yn hytrach na chyfres o ysgolion unigol yn gweithio'n ynysig.

## 2. STRWYTHUR SWYDDFEYDD ARDAL ADDYSG ARFAETHEDIG

Wrth ddilyn y dull 'Ysgol Gwynedd', mae'n ofynnol gwneud newidiadau o ran trefn reolaethol a llywodraethol ysgolion a chan hybu trefn lywodraethol sy'n cwmpasu ysgol a system cyfan.

Bydd strwythur o Swyddfeydd Ardal effeithiol yn hyrwyddo'r model hwn o gydweithio wrth resymoli a rhannu'r gofynion rheolaethol gan ryddhau penaethiaid i arwain yn effeithiol.

Trwy gydweithrediad gyda GwE, cyfuno anghenion y model ADY arfaethedig a'r model moderneiddio ysgolion yn ogystal, anelwn at sicrhau strwythur gweithredu sy'n gyfatebol i'r model Ardal.

Priod waith Swyddfa Ardal fydd, ar yr un llaw, rhesymoli a rhannu gofynion rheolaethol, gweinyddol a llywodraethol ysgolion, ac, ar y llaw arall, sicrhau y caiff strategaethau'r Adran Addysg ar gyfer gwella ysgolion eu gweithredu'n effeithiol a bod safonau cyrhaeddiad yn uwch drwy sianelu cefnogaeth, cyfarwyddiadau a her ar lefelau priodol drwy ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn effeithiol yn yr ysgol, yn lleol ac yn sirol.

Bwriedir sefydlu swyddfeydd ar gyfer ysgolion yng ngogledd-ddwyrain, gogledd-orllewin a de'r sir o dan arweiniad 'Swyddog Addysg Ardal' (SAA) penodol **(Atodiad 1)** ac mi fydd 'Swyddogion Busnes a Gwasanaethau' (SBG) yn cydlynu'r gwasanaethau cefnogol ac yn hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth ar lefel leol.

**Gwella Ansawdd Addysg - Swyddogion Addysg Ardal (SAA)**

Priod waith Swyddogion Addysg Ardal fydd rhoi cefnogaeth a gosod her, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i ysgolion gyfrannu tuag at hinsawdd o welliant parhaus drwy herio ysgolion i godi safonau, hyrwyddo strategaethau ar gyfer hunan wella a chydweithrediad 'Ysgol i Ysgol', a chydweithio'n effeithiol gydag asiantaethau eraill sy'n weithredol yn y maes.

Mi fydd y Swyddogion Addysg Ardal yn aelod o'r Bwrdd Strategol Dalgylch (BSD), Bwrdd Ansawdd Sirol (BAS) a'r Pwyllgor Craffu Ardal (PCA).

Y Bwrdd Strategol Dalgylch (BAS) fydd yn cymryd trosolwg o berfformiad holl ysgolion y sir o ran lles ac addysg disgyblion, yn cytuno ar y rhaglen waith ac yn monitro gweithrediad.

Mi fydd y Pwyllgor Craffu Ardal (PCA) yn cynnig cyfleodd i gadeiryddion a phenaethiaid ysgolion unigol, ynghyd â'r Ymgynghorydd Her a Chefnogi, perthnasol amlygu'r arferion da hynny sydd ar waith yn yr ysgol, a'u cyfrifoldebau a'u rolau wrth gyflawni hynny. Mi fydd cyfle i'r aelodau lleol a'r swyddogion ardal ddatblygu a chryfhau'r elfen o graffu ardal gydag ysgolion penodol neu ynglŷn â themâu sy'n dod yn amlwg: cefnogaeth, cynhaliaeth, cyfrifoldeb a chraffu.

**Rheolaeth, Gweinyddiaeth a Llywodraethu - Swyddogion Busnes a Gwasanaethau (SBG)**

Mae nifer o wasanaethau yn cefnogi ysgolion ar wahanol lefelau ac i sawl pwrpas.

Prif bwrpas swydd Swyddog Busnes a Gwasanaethau (SBG) yw gwella effeithiolrwydd trefniadau rheolaethol ysgolion ardal a chyfrannu'n sylweddol at welliant parhaus i wasanaethau'r ysgolion. Byddent yn adrodd yn uniongyrchol i'r Swyddogion Addysg Ardal.

Bydd y Swyddogion Busnes a Gwasanaethau yng ngofal dydd i ddydd y Swyddfa Addysg Ardal ac yn gweithredu fel prif bwynt cyswllt i ysgolion y dalgylch ar gyfer faterion rheolaethol. Bydd yn gyfrifol am sicrhau gwasanaeth gweinyddol lefel uchel i ysgolion a'u Llywodraethwyr ac i'r Swyddogion Addysg Ardal.

Disgwylir i'r Swyddogion Busnes a Gwasanaethau ddarparu cefnogaeth, a chyngor rheolaethol i gyrff llywodraethol ac uwch-dimau arwain ym mhob un o ysgolion yr ardal.

Trwy ymgynghoriad uniongyrchol gyda phenaethiaid a'r gwasanaethau unigol bwriedir didoli'r gwasanaethau cefnogol, ar lefel sirol, ardal a lleol, yn seiliedig ar eu blaenoriaethau a chynnal adolygiad o strwythur strategol a rheolaethol Yr Adran Addysg yng  Ngwynedd.

Mi fydd llywodraethwyr yn derbyn cefnogaeth, cynhaliaeth a hyfforddiant uniongyrchol a lleol. Wrth sefydlu 'Bwrdd Strategol Dalgylch' (BSD) ar gyfer cadeiryddion, y Swyddogion Busnes a Gwasanaethau a'r Swyddogion Addysg Ardal, mi fydd yn bosib teilwra hyfforddiant mewn meysydd penodol, hyrwyddo cydweithrediad strategol a chryfhau atebolrwydd a gweithio mewn partneriaeth yn ymateb i egwyddorion 'Ysgol Gwynedd'.

**Atodiad 1**

**SWYDDFEYDD ADDYSG ARDAL**

**Swyddfa Addysg Dwyrain Gwynedd** **Swyddog Addysg:** *Diane Jones*

| **YSGOL DYFFRYN OGWEN** | **YSGOL BRYNREFAIL** | **YSGOL TRYFAN AC YSGOL FRIARS** | **YSGOL SYR HUGH OWEN** |
|---|---|---|---|
| Ysgol Bodfeurig | Ysgol Gwaun Gynfi | Ysgol Glanadda | Ysgol y Gelli |
| Ysgol Pen-y-Bryn | Ysgol Llanrug | Ysgol Glancegin | Ysgol Felinwnda |
| Ysgol Llanllechid | Ysgol Bethel | Ysgol Babanod Coedmawr | Ysgol Rhosgadfan |
| Ysgol Rhiwlas | Ysgol Cwm y Glo | Ysgol y Garnedd | Ysgol Rhostryfan |
| Ysgol Abercaseg | Ysgol Dolbadarn | Ysgol y Felinheli | Ysgol yr Hendre |
| Ysgol Llandygai | Ysgol Gymuned Penisarwaun | Ysgol Hirael | Ysgol Bontnewydd |
| Ysgol Tregarth | Ysgol Waunfawr | Ysgol y Faenol | Ysgol y Felinheli |
| | | Ysgol Llandygai | Ysgol Maesincla |
| | | Ysgol Cae Top | Ysgol Llandwrog |
| | | Ysgol Ein Harglwyddes | Ysgol Santes Helen |

**Swyddfa Addysg Gorllewin Gwynedd** **Swyddog Addysg:** *Keith Parry*

| **YSGOL DYFFRYN NANTLLE** | **YSGOL EIFIONYDD** | **YSGOL GLAN Y MÔR** | **YSGOL BOTWNNOG** | **Ysgol Pendalar** |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Brynaerau | Ysgol Beddgelert | Ysgol Gynradd Nefyn | Ysgol Gynradd Nefyn | |
| Ysgol Llanllyfni | Ysgol Borthygest | Ysgol Abererch | Ysgol Abersoch | |
| Ysgol Baladeulyn | Ysgol Treferthyr | Ysgol Chwilog | Ysgol Crud y Werin | |
| Ysgol Nebo | Ysgol Garndolbenmaen | Ysgol Bro Plenydd | Ysgol Edern | |
| Ysgol Bro Lleu | Ysgol Eifion Wyn | Ysgol Llanaelhaearn | Ysgol Llanbedrog | |
| Ysgol Talysarn | Ysgol y Gorlan | Ysgol Llanbedrog | Ysgol Babanod Morfa Nefyn | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol Bro Llifon | Ysgol Llanymstumdwy | Ysgol Llangybi | Ysgol Sarn Bach |
| | | Ysgol Babanod Morfa Nefyn | Ysgol Tudweiliog |
| | | Ysgol Pentreuchaf | Ysgol Pont y Gôf |
| | | Ysgol yr Eifl | Ysgol Foelgron |
| | | Ysgol Cymerau | |

**Swyddfa Addysg De Gwynedd** **Swyddog Addysg:** *Garem Jackson*

| **YSGOL Y GADER** | **YSGOL Y MOELWYN** | **YSGOL UWCHRADD TYWYN** | **YSGOL Y BERWYN** | **YSGOL ARDUDWY** | **Ysgol Hafod Lon** |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Dolgellau | Ysgol Bro Cynfal | Ysgol Dyffryn Dulas | Ysgol Bro Tegid | Ysgol y Traeth | |
| Ysgol Brithdir | Ysgol Edmwnd Prys | Ysgol Pennal | Ysgol O M Edwards | Ysgol Dyffryn Ardudwy | |
| Ysgol Dinas Mawddwy | Ysgol Manod | Ysgol Penybryn | Ysgol Bro Tryweryn | Ysgol Llanbedr | |
| Ysgol Ganllwyd | Ysgol Tanygrisiau | Ysgol Craig y Deryn | Ysgol Ffridd y Llyn | Ysgol y Garreg | |
| Ysgol Llanelltyd | Ysgol Bro Hedd Wyn | | Ysgol Beuno Sant | Ysgol Talsarnau | |
| Ysgol Ieuan Gwynedd | Ysgol Maenofferen | | | Ysgol Tan y Castell | |
| Ysgol Friog | | | | | |
| | | | | Ysgol Cefn Coch | |

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | Pwyllgor Craffu Gwasanaethau |
| **Teitl yr Adroddiad** | Adroddiad ar ganlyniadau'r haf 2016 |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 27 Medi 2016 |
| **Swyddog Perthnasol** | Arwyn Thomas, Pennaeth Addysg |
| **Aelod Cabinet Perthnasol** | Cynghorydd Gareth Thomas |

**Rhagarweiniad**

Prif bwrpas yr adroddiad yw cyflwyno gwybodaeth gynnar i aelodau etholedig ar berfformiad diwedd cyfnodau allweddol y flwyddyn addysgol 2015/2016. Pwysleisir mai gwybodaeth gychwynnol am ganlyniadau CA4 sy'n cael eu rhannu ac nad oes mynediad, hyd yma, at ddata cymharol a meincnodol ar gyfer pob cyfnod allweddol. Bwriedir diweddaru'r isod pan ddaw'r wybodaeth gyflawn i law. Mae angen gofal felly wrth ystyried y wybodaeth gan na fydd y dadansoddiadau na'r cymariaethau yn cael eu cwblhau ar lefel genedlaethol tan tua throad y flwyddyn.

Fodd bynnag, mae cael mynediad buan i'r math o wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad, a'r cyfle i holi cwestiynau pellach, yn gyfraniad pwysig at y broses hunan arfarnu ac i allu ateb y math o gwestiynau a restrir isod:

- Sut mae perfformiad yr Awdurdod yn cymharu gyda pherfformiad 2015?
- Sut mae perfformiad yr Awdurdod yn cymharu gyda'r targedau bennwyd ar gyfer 2016?
- A yw perfformiad yn y pynciau craidd yn debyg?
- Ym mha gyfnod allweddol mae'r perfformiad ar ei orau? Ym mha agweddau y mae angen gwelliannau?
- A oes ysgolion sydd i'w gweld yn tanberfformio?

Gofynnir i Aelodau Etholedig graffu ar gynnwys yr adroddiad er mwyn gallu ateb y math o gwestiynau a nodir uchod.

**Gwybodaeth gyd-destunol**
Mae Tabl 1 yn dangos % disgyblion oedran ysgol statudol sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yng Ngwynedd dros y pum mlynedd diwethaf mewn cymhariaeth â Chymru ac awdurdodau unigol.

**Tabl 1: % disgyblion oedran ysgol statudol sydd â hawl i brydau ysgol am ddim [PYD]**

| | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | 12.6% | 13.2% | 14.2% | 13.7% | 13.7% | 12.9% | 13.3% | 13.0% |
| **Cymru** | 17.8% | 18.9% | 19.7% | 19.3% | 19.5% | 19.1% | 18.8% | xx% |
| **Safle *(1=isaf)**** | 5 | 5 | 5 | 5 | 5 | 4 | 4 | 4 |

Mae'r safle yn dynodi lleoliad Gwynedd mewn cymhariaeth ag awdurdodau Cymru, gyda'r safle isaf yn dynodi'r ganran isaf o ddisgyblion 5-15 oed yn derbyn PYD. Awgryma'r tabl, os derbynnir bod hawl i brydau ysgol am ddim yn fesur priodol o amddifadedd, y dylai perfformiad Gwynedd fod yn oddeutu pedwerydd o awdurdodau Cymru h.y. yn cyfateb i'r safle prydau ysgol am ddim.

**Sylwebaeth ar berfformiad**

**Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2**

***Cyfnod Sylfaen***

Canran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS):

| | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | 85.2% | 86.8% | 86.8% |
| **Cymru** | 85.2% | 86.8% | 86.8% |
| **Safle (1=gorau)** | 10 | 10 | 14 |

- Yn y DCS, cynnydd bychan [+0.1%] ers 2015 ac yn gosod Gwynedd yn safle 14 o'r 22 Awdurdod. Mae hyn yn sylweddol is na'r safle PYD disgwyliedig. Perfformiad ychydig [-0.6%] yn is na tharged. Gwelwyd cynnydd +0.3% yn y dangosydd ar lefel ranbarthol [86.2%] a +0.2% yn genedlaethol.

- Mewn cymhariaeth ag ALl eraill y gogledd roedd safle Gwynedd fel â ganlyn : DCS = 3ydd; Iaith-Cymraeg D5+ = 2il, Iaith-Cymraeg D6+ = 3ydd, Datblygiad Mathemategol D5+ = 1af, Datblygiad Mathemategol D6+ = 3ydd, Datblygiad Personol D5+ = 1af, Datblygiad Personol D6+ = 1af.

- Perfformiad dysgwyr PYD yn amrywiol. Mewn cymhariaeth gyda 2015, cynnydd yn y DCS i 76.5% a ffigwr oedd yn agos at y darged o 77.0% bennwyd [+1.1% mewn cymhariaeth â chynnydd +1.3% rhanbarthol]; Iaith-Cymraeg +0.6% a +1.6% [lefel disgwylieidg a lefel uwch].

***Cyfnod Allweddol 2***

Canran o ddisgyblion sydd wedi cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) ar ddiwedd CA2:

| | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | 86.0% | 89.5% | 89.8% |
| **Cymru** | 86.1% | 87.7% | 87.7% |
| **Safle (1=gorau)** | 14 | 6 | 7 |

- Yn y DPC cynnydd +0.3% ar ffigwr 2015 a +1.1% yn uwch na tharged [cynnydd cenedlaethol +0.9%]. Perfformiad 2016 yn gosod yr ALl yn safle 7 sydd yn is na'r safle PYD disgwyliedig. Gwelwyd cynnydd 0.6% yn y dangosydd ar lefel ranbarthol [88.8%].

- Mewn cymhariaeth ag ALl eraill y gogledd roedd safle Gwynedd fel â ganlyn : DPC = 2il; Cymraeg L4+ = 3ydd; Cymraeg L5+ = 1af; Saesneg L4+ = 2il; Saesneg L5+ = 1af; Mathemateg L4+ = 2il; Mathemateg L5+ = 1af; Gwyddoniaeth L4+ 1af; Gwyddoniaeth L5+ = 1af.

- Perfformiad dysgwyr PYD yn gyffredinol gadarn ar y lefel disgwyliedig ond yn siomedig ar y lefel uwch. Mewn cymhariaeth â pherfformiad 2015, gwelir cynnydd o +6.4% i 82.1% yn y DPC - ac eto ffigwr sydd yn agos iawn at y darged o 80.7% bennwyd [cynnydd +1.4% rhanbarthol].

**Perfformiad mewn cymhariaeth**

| Cyfnod Sylfaen | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **DCS** | | **2012** | **2013** | **2014** | **2015** | **2016** |
| **Ynys Mon** | | 84.1 | 85.8 | 84.6 | 86.2 | 84.7 |
| **Gwynedd** | | 83.0 | 82.8 | 85.2 | 86.8 | 86.8 |
| **Conwy** | | 79.8 | 80.4 | 84.5 | 82.9 | 83.9 |
| **Dinbych** | | 81.7 | 84.9 | 86.1 | 86.4 | 87.5 |
| **Fflint** | | 79.7 | 84.4 | 84.5 | 87.0 | 86.9 |
| **Wrecsam** | | 83.3 | 83.4 | 82.9 | 85.5 | 86.6 |

| CA2 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DPC | | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
| Ynys Mon | | 78.6 | 84.7 | 88.0 | 87.8 | 91.8 | 89.4 |
| Gwynedd | | 82.8 | 86.2 | 86.6 | 86.0 | 89.5 | 89.8 |
| Conwy | | 79.5 | 82.6 | 83.1 | 84.3 | 85.8 | 86.8 |
| Dinbych | | 82.3 | 83.5 | 86.0 | 86.6 | 87.9 | 88.6 |
| Fflint | | 80.8 | 81.3 | 85.0 | 86.1 | 87.9 | 90.1 |
| Wrecsam | | 82.2 | 84.5 | 85.4 | 84.2 | 87.7 | 87.7 |

***Cyfnod Allweddol 3***

Canran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) yn CA3:

| | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | 89.1% | 91.3% | 92.0% |
| **Cymru** | 81.0% | 83.9% | 83.9% |
| **Safle (1=gorau)** | 1 | 1 | 2 |

- Yng Nghyfnod Allweddol 3, mae perfformiad yn y DPC wedi bod yn uwch na meincnod disgwyliedig Cymru ers 2012 ac yn sylweddol uwch na'r ffigwr cenedlaethol am y pum mlynedd diwethaf. Mae Gwynedd wedi perfformio orau o holl awdurdodau Cymru am bedair blynedd o'r bron a gwelir cynnydd eto ar ffigwr 2015 [+0.7%] Mae'r perfformiad yn parhau i osod Gwynedd ymhlith awdurdodau gorau Cymru – safle 2 yn 2016.

- Yn y DPC cynnydd +0.7% ar ffigwr 2015 a -0.1% yn is na tharged. Perfformiad 2016 yn gosod yr ALI yn uwch na'r safle PYD disgwyliedig ac yn ail o blith holl awdurdodau Cymru. Gwelwyd cynnydd +1.7% yn y dangosydd ar lefel ranbarthol [87.8%] a chynnydd o +2.0% yn genedlaethol.

- Mewn cymhariaeth ag ALI eraill y gogledd, Gwynedd sydd wedi perfformio orau mewn Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth ar y lefel disgwyliedig a'r lefelau uwch. Yn y Gymraeg, mae Gwynedd yn safle 4 a 5 [lefel disgwyliedig a lefelau uwch] ond dylid cofio maint y garfan gaiff ei hasesu mewn cymhariaeth â rhai o'r awdurdodau hyn.

- Perfformiad dysgwyr PYD yn gyffredinol gadarn ar y lefel disgwyliedig ond yn fwy amrywiol ar y lefelau uwch gyda sefyllfa'r ieithoedd yn rhagori yn sylweddol ar Mathemateg/Gwyddoniaeth. Mewn cymhariaeth gyda pherfformiad 2015, gwelir cynnydd o +3.8% i 82.1% yn y DPC - ffigwr sydd hefyd yn uwch na'r targed o 80.7% bennwyd [cynnydd +5.6% rhanbarthol i 73.3%]. Ar y lefel disgwyliedig a'r lefel uwch, perfformiad yn y dangosyddion unigol fel â ganlyn : Cymraeg +2.5% a +7.8%; Saesneg +1.6% a +7.5%; Mathemateg +3.8% a -2.5%; Gwyddoniaeth -0.3% a +2.0%.

**Perfformiad mewn cymhariaeth**

| CA3 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DPC | | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
| Ynys Mon | | 69.4 | 77.9 | 81.5 | 83.6 | 84.5 | 87.6 |
| Gwynedd | | 76.3 | 83.0 | 85.4 | 89.1 | 91.3 | 92.0 |
| Conwy | | 70.6 | 75.7 | 78.5 | 83.7 | 87.2 | 87.3 |
| Dinbych | | 65.5 | 71.9 | 75.0 | 83.2 | 84.3 | 86.4 |
| Fflint | | 73.8 | 76.0 | 80.0 | 84.3 | 87.1 | 88.4 |
| Wrecsam | | 67.4 | 70.0 | 72.2 | 78.4 | 80.9 | 84.3 |

***Cyfnod Allweddol 4***

Perfformiad disgyblion 15 oed mewn cymhariaeth â Chymru ac awdurdodau eraill:

| Gwynedd | 2014 | | 2015 | | 2016 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | Safle | % | Safle | % | Safle |
| TL1 | 97.2 | 1 | 97.9 | 1 | 98.7 | - |
| TL2 | 87.7 | 4 | 88.9 | 5 | 88.6 | - |
| TL2+ | 61.1 | 5 | 63.3 | 5 | 68.5 | 2 |
| DPC | 60.5 | 2 | 62.4 | 3 | 61.2 * | - |

**data yn anghyflawn ar hyn o bryd – disgwylir peth cynnydd pellach*

Yn 2016, mae'r awdurdod wedi gwella ymhellach ar ei berfformiad gyda chynnydd sylweddol o +5.2% yn y ganran sy'n llwyddo i groesi trothwy y prif ddangosydd TL2+. Mae'r perfformiad yn debygol iawn o osod Gwynedd yn agos neu ychydig yn uwch na'r meincnod disgwyliedig. Mae data cenedlaethol amrwd yn awgrymu y gall Gwynedd fod yn safle 2 o blith holl awdurdodau Cymru [i'w gadarnhau].

Ar gyfer y Sgôr Pwyntiau wedi'i Gapio, mae perfformiad Gwynedd wedi bod yn uwch na'r meincnod dros y dair blynedd diwethaf ond nid oes gwybodaeth gyflawn, hyd yma, ar berfformiad 2016. Gwelir gwelliannau 2015>2016 hefyd yn y TL1, Saesneg a Mathemateg ond llithriad bychan yn y % TL2 a'r 5A*-A a llithriad mwy arwyddocaol yn y Gymraeg. Yn gyffredinol, roedd perfformiad yn agos at darged [er ychydig yn is] gyda'r bwlch mwyaf yn y TL2 a'r Gymraeg. O'r wybodaeth sydd ar gael hyd yma, ymddengys mai Gwynedd yw'r awdurdod sydd wedi perfformio orau o blith holl awdurdodau y gogledd a hynny ymhob dangosydd ac eithrio y Gymraeg [ond gan gofio maint y garfan sy'n cael ei chyflwyno ar gyfer sefyll arholiad]. Pan fydd y data yn gyflawn, bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i raddfa'r cynnydd welwyd yn lleol mewn cymhariaeth â'r cynnydd cenedlaethol.

| CA4 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion** | **Perfformiad 2016** | **+/- 2015>2016** | **Targed 2016** | **+/- Perfformiad v Targed** |
| TL1 | 98.7% | +0.7% | 98.8% | -0.1% |
| TL2 | 88.6% | -0.4% | 93.0% | -4.4% |
| TL2+ | 68.5% | +5.2% | 69.8% | -1.3% |
| DPC | I'w gadarnhau | xx | 69.0% | xx |
| 5A*-A | 18.7% | -1.3% | | |
| Cymraeg | 75.9% | -2.7% | 79.8% | -3.9% |
| Saesneg | 74.3% | +2.2% | 76.6% | -2.3% |
| Mathemateg | 72.9% | +5.9% | 72.6% | +0.3% |
| Gwyddoniaeth | I'w gadarnhau | xx | 94.4% | xx |

**Perfformiad Ysgolion Unigol**

Yn gyffredinol, ar draws mwyafrif helaeth o'r ysgolion, gwelir gwelliannau mewn perfformiad rhwng 2015 a 2016. Mae hynny yn wir ar gyfer y rhelyw o'r dangosyddion ac eithrio y Gymraeg, ble gwelir gwelliannau mewn 4 ysgol yn unig. Roedd perfformiad hynod siomedig yn y prif ddangosydd yn Ardudwy ac mae'n debyg mai dyma'r unig ysgol o Wynedd fydd yn chwartel isaf meincnodau cenedlaethol PYD ar gyfer y dangosydd yma. Mae data 2015 a 2016 hefyd yn amlygu bod gwell cysondeb ym mherfformiad mwyafrif helaeth o'r ysgolion [a'r ysgolion lleiaf yn benodol] gan na welir yr un graddfeydd o begynnu a phendilio oedd yn nodwedd mor bryderus yn y cyfnod yn arwain i fyny at arolygiad diwethaf yr awdurdod.

Mae'r prif benawdau o ddata cychwynnol CA4 fel â ganlyn :

***TL2+***

- 11 ysgol yn gwella ar ffigwr cyfatebol 2015.
- perfformiad 7 ysgol yn torri 70%+.
- 7 ysgol yn sicrhau gwelliannau am y drydedd flwyddyn o'r bron.
- perfformiad yn agos at darged yn y mwyafrif o ysgolion [eithriadau Ardudwy, Brynrefail, Dyffryn Nantlle]. Perfformiad yn sylweddol uwch na tharged yn y Gader.
- bwlch mwyaf rhwng rhagfynegiad terfynol a pherfformiad i'w weld yn Ardudwy, Brynrefail, Dyffryn Nantlle, Gader.

***TL2***
- 8 ysgol yn gwella ar ffigwr cyfatebol 2015.
- perfformiad 4 ysgol yn torri 95%+.
- 3 ysgol yn sicrhau gwelliannau am y drydedd flwyddyn o'r bron.
- perfformiad yn agos at darged yn y mwyafrif o ysgolion [eithriadau Friars, Glan y Mor, Moelwyn, SHO].
- bwlch mwyaf rhwng rhagfynegiad terfynol a pherfformiad i'w weld yn Friars, Glan y Mor, Moelwyn, SHO].

***TL1***
- 13 ysgol hefo perfformiad 100%.
- 10 ysgol wedi gallu cynnal neu wella perfformiad am y drydedd flwyddyn o'r bron.

***DPC***
- 10 ysgol yn gwella ar ffigwr cyfatebol 2015.
- perfformiad 4 ysgol yn torri 70%+.
- 3 ysgol yn sicrhau gwelliannau am y drydedd flwyddyn o'r bron.
- perfformiad yn agos at darged yn y mwyafrif o ysgolion [eithriadau Ardudwy, Brynrefail, Dyffryn Nantlle, Eifionydd].
- bwlch mwyaf rhwng rhagfynegiad terfynol a pherfformiad i'w weld yn Ardudwy, Dyffryn Nantlle, Gader.

***5A*-A***
- 5 ysgol yn unig yn gwella ar ffigwr cyfatebol 2015.
- perfformiad 6 ysgol yn 20%+.
- 3 ysgol yn sicrhau gwelliannau am y drydedd flwyddyn o'r bron.

***Cymraeg***
- 4 ysgol yn unig yn gwella ar ffigwr cyfatebol 2015.
- perfformiad 11 ysgol yn torri 70%+ a 4 yn torri 80%+.
- 2 ysgol yn sicrhau gwelliannau am y drydedd flwyddyn o'r bron.
- perfformiad yn agos at darged mewn tua hanner o'r ysgolion [eithriadau Ardudwy, Dyffryn Ogwen, Glan y Mor, Moelwyn, Tryfan, Tywyn].
- bwlch mwyaf rhwng rhagfynegiad terfynol a pherfformiad i'w weld yn Ardudwy, Gader, Glan y Mor, Tryfan, Tywyn.

***Saesneg***
- 9 ysgol yn gwella ar ffigwr cyfatebol 2015.
- perfformiad 9 ysgol yn torri 70%+ a 5 yn torri 80%+.
- 5 ysgol yn sicrhau gwelliannau am y drydedd flwyddyn o'r bron
- perfformiad yn agos at darged yn y mwyafrif o'r ysgolion [eithriadau Ardudwy, Brynrefail, Dyffryn Nantlle, Gader, Moelwyn]. Perfformiad Botwnnog yn sylweddol uwch na tharged.
- bwlch mwyaf rhwng rhagfynegiad terfynol a pherfformiad i'w weld yn Botwnnog, Brynrefail, Dyffryn Nantlle, Tryfan.

***Mathemateg***
- 11 ysgol yn gwella ar ffigwr cyfatebol 2015.
- perfformiad 11 ysgol yn torri 70%+ a 2 yn torri 80%+.
- 4 ysgol yn sicrhau gwelliannau am y drydedd flwyddyn o'r bron.

- perfformiad yn agos at darged yn y mwyafrif helaeth o ysgolion [eithriadau Ardudwy, Brynrefail]. Perfformiad yn sylweddol uwch na tharged yn y Gader.
- bwlch mwyaf rhwng rhagfynegiad terfynol a pherfformiad i'w weld yn Ardudwy, Gader a Tywyn.

***Gwyddoniaeth***

- 4 ysgol yn gwella ar ffigwr cyfatebol 2015.
- perfformiad 11 ysgol yn torri 90%+ a 2 yn 100%.
- 2 ysgol yn sicrhau gwelliannau am y drydedd flwyddyn o'r bron.
- perfformiad yn agos at darged yn y mwyafrif helaeth o ysgolion [eithriadau Botwnnog a Tryfan].
- bwlch mwyaf rhwng rhagfynegiad terfynol a pherfformiad i'w weld yn Friars.

***Ôl-16***

Ar hyn o bryd nid oes mynediad i ddata lleol na chymharol parthed y dangosyddion gaiff eu cynnwys yn y SDC [L3 / SPCE / 3 gradd A*-A / 3 gradd A*-C]. Yn 2015 roedd y ffigyrau cyfatebol fel â ganlyn : L3 wedi cynyddu ychydig i 98.4% [97.0% Cymru]; Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Ehangach yn 893.9 [799.7 Cymru]; 3 gradd A*/A yn 9.9% [7.9% Cymru]; 3 gradd A*-C 72.3% [68.1% Cymru].

| | A*-A | | A*-C | | A*-E | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2015 | 2016 | 2015 | 2016 | 2015 | 2016 |
| Gwynedd | 24.9% | 20.2% | 77.0% | 69.6% | 97.5% | 96.2% |
| Cymru | 23.1% | 22.7% | 74.3% | 73.8% | 97.3% | 97.3% |

Yn 2016 roedd y cyfraddau gradd fel â ganlyn [seiliedig ar arholiadau CBAC] :

- A*-E yn 96.2% [-1.1% yn is na'r ffigwr cenedlaethol a'r isaf yn y rhanbarth]
- A*-C yn 69.6% [-4.2% yn is na'r cenedlaethol a'r ail isaf yn y rhanbarth]
- A*-A yn 20.2% [-2.7% yn is na'r cenedlaethol ond yr uchaf yn y rhanbarth]

Mae gwaith pellach i'w wneud i ddadansoddi y perfformiadau gwan welwyd mewn rhai pynciau/sefydliadau.

**Materion sydd angen sylw :**

***Cyfnod Sylfaen/CA2***

- Pennu disgwyliadau uwch yn y CS a CA2 a herio ysgolion parthed gosod targedau.
- Datblygu gwell gwydnwch i weithdrefnau pennu targedau, asesu a thracio ysgolion ac hyrwyddo gwell defnydd o ddata a rhaglenni ymyraeth i yrru gwelliannau angenrheidiol.
- Sicrhau gwell dealltwriaeth o ofynion D5+/6+ yn y CS fel bod arweinwyr yn fwy hyderus i herio targedau ac asesiadau.
- Sicrhau gweithredu mwy grymus i wirio addasrwydd targedau a'r cynnydd tuag atynt.
- Sicrhau bod gwell cysondeb ar draws ysgolion parthed dealltwriaeth o '*ffit-orau'* wrth bennu lefel derfynol.
- Sicrhau bod ysgolion yn derbyn arweiniad pellach ar ddysgu ac asesu iaith a rhif.
- Gwella addysgeg yn y CS gyda ffocws penodol ar :
    - ✓ wella cyfleoedd sydd wedi eu cynllunio i ddatblygu llythrennedd/rhif ar draws y meysydd dysgu
    - ✓ sicrhau gweithgareddau sydd â lefel her uwch
    - ✓ sicrhau gwell cyfleon i gymhwyso'r medrau
    - ✓ sicrhau gwell cydbwysedd rhwng tasgau sy'n cael eu harwain gan athro/dysgwr
    - ✓ wella perfformiad Datblygiad Mathemategol
- Sicrhau bod gan holl ANG yn y CS ddealltwriaeth gadarn o'r gofynion/disgwyliadau parthed darpariaeth effeithiol.
- Sicrhau dealltwriaeth gytunedig a chysondeb gweithredu yn y prosesau safoni a chymedroli ar draws y pynciau craidd.

- Gwella perfformiad yn y Gymraeg ar y lefelau disgwyliedig a'r lefelau uwch fel bod asesiadau yn cyfateb yn nes at asesiadau yn y pynciau craidd eraill.
- Gwella perfformiad dysgwyr PYD ar y lefelau uwch yn CA2 mewn Saesneg/Mathemateg/Gwyddoniaeth.
- Targedu cynhaliaeth i ysgolion ble mae perfformiad treigl wedi bod yn y 50% isaf.
- Sicrhau dadansoddiad manwl o ddata profion darllen/rhif ar lefel ALl yn ôl yr amryfal flynyddoedd B2>9 ac adnabod ysgolion penodol ble nad oes cydberthynas digon agos gyda pherfformiad ac asesiadau athrawon.
- Sicrhau bod pob ysgol yn derbyn arweiniad cychwynnol ar y disgwyliadau parthed y Fframwaith Digidol.
- Parhau i weithio hefo swyddogion yr ALl i wella ansawdd arweinyddiaeth ar bob lefel er mwyn sicrhau nad oes yr un ysgol yn cael ei gosod mewn categori dilyniant statudol yn dilyn arolygiad Estyn.
- Hyrwyddo gwell cydweithio Ysgol-i-Ysgol er mwyn sicrhau bod yr arferion gorau yn cael eu rhaeadru a'u coleddu.

***CA3, CA4 a CA5***

- Cynnal safonau perfformiad ar y lefelau uwch ar draws y prif ddangosyddion
- Targedu cefnogaeth i ysgolion penodol ble nad oes alinio rhesymegol rhwng asesiadau diwedd CA3 a pherfformiad CA4.
- Parhau i dreialu a datblygu rôl Pennaeth Adran Strategol [gan fodelu ar weithredu Mathemateg yn ardal Meirionnydd].
- Sicrhau gweithredu mwy grymus i wirio addasrwydd targedau a'r cynnydd tuag atynt.
- Sicrhau dealltwriaeth gytunedig gydag arweinwyr o hanfodion cynllunio cwricwlaidd/darpariaeth er mwyn gwell perfformiad yn erbyn y prif ddangosyddion.
- Sicrhau bod arweinwyr yn cynllunio'n hyderus ar gyfer y dangosyddion diwygiedig mewn Ieithoedd, Mathemateg a Gwyddoniaeth
- Mewn lleiafrif o ysgolion, gweithredu i sicrhau bod arweinwyr ar bob lefel yn gwneud defnydd effeithiol a phrydlon o systemau tracio i gynllunio ymyrraeth effeithiol ac i ddelio gyda thanberfformio/perfformio cyfforddus [ac yn benodol yng nghyd destun data *read-across*]
- Gwella perfformiad mewn Saesneg Iaith a Cymraeg Iaith
- Gwella perfformiad lefelau uwch i gynyddu % 5A*-A
- Gweithio gyda'r Consortiwm Ôl-16 i wella ansawdd y ddarpariaeth a safonau cyflawniad yn CA5.
- Targedu gweithredu mewn lleiafrif bychan o ysgolion uwchradd ble mae pryder am berfformiad a/neu ansawdd arweinyddiaeth
- Parhau i weithio hefo swyddogion yr ALl i wella ansawdd arweinyddiaeth ar bob lefel er mwyn sicrhau nad oes yr un ysgol yn cael ei gosod mewn categori dilyniant statudol yn dilyn arolygiad Estyn
- Hyrwyddo gwell cydweithio Ysgol-i-Ysgol er mwyn sicrhau bod yr arferion gorau yn cael eu rhaeadru a'u coleddu.

***Presenoldeb Ysgolion Uwchradd 2015-16***

Mae cynnydd rhagorol wedi ei wneud yng nghanran presenoldeb ein hysgolion uwchradd. Gwynedd yw'r awdurdod cyntaf i gyrraedd presenoldeb uwch na 95% ar gyfer ysgolion uwchradd ac arbennig gyda'r ysgolion uwchradd yn adrodd ar gymedr o 95.1%.

Mae 95% yn ein gosod yn 1af o ran awdurdodau Cymru gyda chymedr Cymru yn codi 0.4% i 94.2%.

*Mae'r tabl isod yn amlygu perfformiad ysgolion unigol. Nid yw'r chwarteli ar gyfer meincnodi 2015-16 wedi eu cyhoeddi eto felly mae'r chwarteli wedi ei selio ar feincnodau 2014-15. Mae cyfartaledd yr awdurdod (95.16%) wedi ei gyfrifo drwy weithio cyfartaledd y canrannau amlygir isod. Mae'r ffigwr adroddir arno gan y llywodraeth (95.1%) wedi ei gyfrifo o ddefnyddio nifer y sesiynau.*

| Ysgol | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ardudwy | 91.3 | 91.1 | 93.2 | 94.3 | 94.9 | 94.6 |
| Brynrefail | 93.3 | 93.8 | 94 | 94.3 | 94.9 | 95.7 |
| Syr Hugh Owen | 90.4 | 91.3 | 91.9 | 93.5 | 94.1 | 94.3 |
| Tryfan | 93.4 | 92.1 | 93.4 | 94.2 | 94.3 | 94.8 |
| Dyffryn Ogwen | 91.1 | 91.9 | 93 | 94.5 | 94.6 | 94.9 |
| Botwnnog | 92.8 | 92.8 | 94.6 | 95.2 | 94.9 | 95.1 |
| Glan y Môr | 92.8 | 92.1 | 94.1 | 95 | 95.3 | 95.2 |
| Tywyn | 92.8 | 92.5 | 94.7 | 95.3 | 94.9 | 95.4 |
| Y Gader | 92 | 93.8 | 93.5 | 93.9 | 95.1 | 95.4 |
| Berwyn | 90.6 | 92.9 | 94.2 | 95.3 | 95.9 | 96.2 |
| Moelwyn | 93.1 | 93.1 | 94.1 | 95 | 93.8 | 95.2 |
| Eifionydd | 91.7 | 90.9 | 93.4 | 94 | 94.1 | 95.3 |
| Dyffryn Nantlle | 92.6 | 92.7 | 93.7 | 94.6 | 95 | 95.5 |
| Friars | 90.6 | 90.9 | 92.3 | 93.3 | 94.1 | 94.6 |
| **Cyfartaledd Sir** | **92** | **92.3** | **93.6** | **94.4** | **94.7** | **95.16** |
| Cymru | 91.3 | 92.1 | 92.6 | 93.6 | 93.8 | 94.2 |

Mae pob ysgol uwchradd o fewn y chwarteli uchaf.

Mae nifer yr ysgolion yn y chwartel cyntaf wedi cynyddu o 5 yn 2014-15 i 8 yn 2015-16. Mae hyn yn golygu fod 57% o ysgolion uwchradd yr awdurdod yn chwartel cyntaf.

Mae nifer yr ysgolion yn yr ail chwartel wedi cynnydd o 3 yn 2014-15 i 6 yn 2015-16.